



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg

Pecyn cymorth ymarferol i helpu i nodi plant a phobl ifanc
sy'n colli addysg



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru: rhif 002/2017

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Yn disodli cylchlythyr: rhif 006/2010

Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg

- Cynulleidfa** Awdurdodau lleol ac uwch-reolwyr addysg, cyrff llywodraethu, penaethiaid ysgolion a gynhelir ac athrawon sydd sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion, gwasanaethau lles addysg, penaethiaid gwasanaethau plant, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal, swyddogion amddiffyn plant, Byrddau Lleol Diogelu Plant, gwasanaethau troseddau ieuencid, asiantaethau ieuencid, Gyrfa Cymru, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig cwmselwyr ysgol a chyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.
- Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar drefniadau a fydd yn eu galluogi i gadarnhau pa blant sy'n byw yn eu hardal nad ydynt yn cael 'addysg addas'.
- Camau i'w cymryd** Awdurdodau lleol i roi sylw i'r canllawiau statudol hyn.
- Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ
e-bost: DeprivationandEngagement@cymru.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/addysgasgiliau
- Dogfennau cysylltiedig** *Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin – cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion* cylchlythyr rhif 18/2006 (2006)
Dogfen ganllawiau: rhif 203/2016: *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion* (2016)
Cadw dysgwyr yn ddiogel (2015)
Cylchlythyr rhif 12/2007: *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004* (2007)
Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan
Ceir rhestr lawn o ddogfennau cysylltiedig yn Atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen.

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Canllawiau Statudol i Helpu i Atal Plant a Phobl Ifanc Rhag Colli Addysg | 1 |
| 1 Trosolwg | 1 |
| Y ddyletswydd i nodi plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael addysg | 5 |
| Pam mae plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o addysg | 6 |
| 2 Grwpiau sy'n agored i niwed | 9 |
| Grwpiau risg uwch sy'n codi problemau mwy cymhleth o ran eu nodi | 10 |
| Gofynion diogelu ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid perthnasol | 11 |
| Cyfrifoldebau clir | 12 |
| Hysbysu ac atgyfeirio | 13 |
| Atal - lleihau'r risg na fydd plant a phobl ifanc yn cael addysg addas | 16 |
| 3 Nodi a Chynorthwyo Plant a Phobl Ifanc sy'n Debygol o Fynd ar Goll o Addysg | 18 |
| A Plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuencid a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu | 18 |
| B Teuluoedd sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid | 21 |
| C Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o briodi dan orfod | 25 |
| D Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cymryd ar wyliau estynedig neu ymweliadau treftadaeth gan eu teulu | 27 |
| E Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol; gan gynnwys y sawl sydd wedi cael eu masnachu i'r DU neu o fewn y DU | 29 |
| F Plant gweithwyr mudol | 32 |
| G Plant a phobl ifanc â chefnidir Sipsiwn, Teithwyr neu Roma a phlant o deuluoedd sy'n symud yn gyson | 33 |
| H Plant a phobl ifanc o deuluoedd digartref sy'n byw mewn llety dros dro, tŷ amlfeddiannaeth neu lety gwely a brecwast | 35 |

| | |
|---|----|
| I Plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n ffoi rhag trais domestig a'r rhai sy'n byw mewn llochesi i ferched | 36 |
| J Plant a phobl ifanc â phroblemau meddygol neu emosiynol hirdymor | 37 |
| K Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain | 38 |
| L Plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu'n breifat | 41 |
| M Rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog | 43 |
| N Plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd | 44 |
| O Plant a phobl ifanc a oedd yn arfer cael addysg yn y sector annibynnol ond sydd wedi cael eu gwahardd neu eu tynnu'n ôl | 45 |
| P Gofalwyr ifanc | 45 |
| Q Plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant | 46 |
| R Plant a phobl ifanc a allai ddioddef trosedd - absenoldeb heb esboniad | 47 |
| S Plant a phobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd | 48 |
| 4 Gwaith Trawsffiniol a Gwaith Partneriaeth | 50 |
| Gwneud ymholiad i awdurdod lleol arall | 50 |
| 5 Prosesau Rhannu Gwybodaeth a Data | 51 |
| Hysbysiadau preifatrwydd | 54 |
| Cofnodi camau gweithredu | 54 |
| Systemau data | 55 |
| 6 Cyfrifoldebau a Chamau Gweithredu i Ysgolion ac awdurdodau lleol | 56 |
| Y defnydd o'r wefan trosglwyddo data rhwng ysgolion (s2s) | 59 |
| Gweithdrefnau ar gyfer y defnydd o'r wefan trosglwyddo data rhwng ysgolion (s2s) | 60 |
| Plant a phobl ifanc mewn perygl | 62 |
| Rheoliadau ynghylch pryd y gall ysgol dynnu enw disgybl oddi ar ei chofrestr derbyn | 63 |

| | |
|---|-----|
| Camau y dylai ysgol eu cymryd pan fo enw disgybl yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr derbyn | 66 |
| Beth i'w wneud pan ddeuir o hyd i blentyn neu berson ifanc - gweithdrefnau dilynol | 68 |
| Cynnal cyswllt | 68 |
| 7 Mesurau ychwanegol i nodi a dod o hyd i blant a phobl ifanc sydd ar goll | 69 |
| Gwasanaethau derbyn i ysgolion | 69 |
| Olrhain cyfnodau pontio | 71 |
| Cyrchu triwantiaid | 73 |
| Addysg ddewisol yn y cartref | 74 |
| Cyfrifoldebau'r ysgol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref | 75 |
| Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref | 76 |
| Ffurflen 'hysbysiad am blant neu bobl ifanc sy'n dod i sylw'r heddlu' (ffurflen PPD1) | 77 |
| Gyrfa Cymru | 78 |
| 8 Pecyn Cymorth | 79 |
| Atodiad 1 Deddfwriaeth | 80 |
| Atodiad 2 Rhestr termau a rhestr talfyriadau | 88 |
| Atodiad 3 Rhestr wirio arfer da mewn perthynas â phlant sy'n colli addysg | 91 |
| Atodiad 4 Ffurflen atgyfeirio - hysbysiad i'r AALI bod plentyn neu berson ifanc yn colli addysg | 98 |
| Atodiad 5 Priodasau dan orfod - camau gweithredu i ysgolion ac AALLau i leihau risgiau | 100 |
| Atodiad 6 Contract rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer gwyliau estynedig | 102 |
| Atodiad 7 Ffurflen asesu i ba raddau y mae plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed | 104 |

| | | |
|------------|---|-----|
| Atodiad 8 | Ffurflen holi - symud plant i mewn/allan o AALL | 107 |
| Atodiad 9 | Rhestr wirio i ysgolion mewn perthynas â phlant sy'n Colli addysg | 109 |
| Atodiad 10 | Rhestr wirio i awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n colli addysg | 111 |
| Atodiad 11 | Canllawiau a ffurflen llinell amser i ysgolion pan fydd disgybl yn absennol | 113 |
| Atodiad 12 | Ffurflen gadael yr ysgol - hysbysiad gan rieni | 114 |
| Atodiad 13 | Hysbysiad am dynnu enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol | 116 |
| Atodiad 14 | Bwriad i dynnu enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol | 118 |
| Atodiad 15 | Tynnu enw oddi ar y gofrestr - tabl cyfeirio | 119 |
| Atodiad 16 | Hysbysiad o apeliadau - lleoedd ysgol | 121 |
| Atodiad 17 | Casglu data EOTAS | 123 |

1 Trosolwg

1.1 Mae polisiâu Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a phrotocolau cysylltiedig, sy'n cynnwys yr hawl i amrywiaeth eang o gyfleoedd addysgol a dysgu. Mae'r dull gweithredu hwn, sy'n seiliedig ar hawliau, wedi'i nodi yn 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' (2004) sy'n tynnu ynghyd hawliau plant o dan 7 nod craidd ac yn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau a chymorth i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

1.2 Mae plant a phobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg addas mewn perygl mwy o amrywiaeth o ganlyniadau negyddol a allai niweidio eu cyfleoedd mewn bywyd yn y tymor hir. Os yw plentyn neu berson ifanc yn derbyn addysg, nid yn unig mae ganddo'r cyfle i gyflawni ei botensial, ond mae hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i hyrwyddo ei les. Mae'n hollbwysig, felly, fod gan awdurdodau lleol fesurau cadarn i nodi'n gyflym y ffaith bod plentyn neu berson ifanc yn colli addysg ac wedyn i ddilyn systemau olrhain ac ymchwilio effeithiol i ddod o hyd iddo. Unwaith gwneir hynny, rhaid i'r gweithdrefnau fod yn rhai sy'n gallu sicrhau bod y person ifanc yn gallu manteisio ar y ddarpariaeth fwyaf priodol cyn gynted â phosibl.

1.3 Mae mynediad i gyfleoedd a darpariaeth ddysgu briodol ac effeithiol yn hanfodol i blant a phobl ifanc. Dylid nodi a dileu unrhyw rwystrau ar ffordd dysgu, fel y gallant gymryd rhan mewn darpariaeth addysg statudol, parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol ac anffurfiol pwrpasol a chyflawni eu llawn botensial. (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - erthyglau 3, 13, 28, 29 a 30).

1.4 Yn ôl y canllawiau ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, "Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau" - Cylchlythyr 31/2007, dylai pob plentyn a pherson ifanc "gymryd rhan mewn addysg amser llawn; bod unrhyw rwystrau ar ffordd dysgu'n cael eu nodi a'u dileu'n gynnar; eu bod yn cyrraedd eu potensial llawn; yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ffurfiol ac anffurfiol

pwrpasol nes eu bod yn 19 oed; a'u bod yn llwyddo i sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd.”

1.5 Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn addysg addas yn seiliedig ar egwyddorion craidd y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Y Fframwaith hwn yw polisi cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad sy'n cydlynu'r holl waith sy'n ceisio gwella dysgu a lles ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc o oedran ysgol yng Nghymru. Mae'r Fframwaith yn deillio'n uniongyrchol o'r saith nod craidd i bobl ifanc a'i ffocws canolog yw hawl pob person ifanc i fwynhau profiad dysgu o ansawdd uchel ar hyd ei daith addysgol. Mae'r Fframwaith yn cefnogi'r angen i olrhain hynt pob person ifanc ar hyd ei lwybr drwy bob un o'i leoliadau addysgol a'i ysgolion ac, felly, yr angen i nodi unrhyw unigolyn sydd ar goll o addysg, neu sydd mewn perygl o hynny.

1.6 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau statudol cyfun sy'n cwmpasu gwasanaethau cymorth ieuenctid, i bawb rhwng 11 a 25 oed, a gwasanaethau cymorth dysgu a ddarperir i bobl ifanc rhwng 14 ac 19 oed fel rhan o'u Llwybr Dysgu unigol. Mae'r canllawiau yn nodi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol (o dan a123 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000), ac ar gyrff llywodraethu Ysgolion a Gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach¹ i ddarparu, sicrhau neu gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cymorth sy'n helpu pobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant, manteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth a chymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

1.7 Mae angen i awdurdodau lleol, ysgolion a rhwydweithiau 14-19 sicrhau eu bod yn cynnig ystod digonol o gyfleoedd dysgu sy'n hyblyg ac sy'n darparu'r lefel iawn o gymorth personol i bobl ifanc sy'n agored i niwed yn unol â'u hanghenion a'u hamgylchiadau penodol, gan ganiatáu iddynt gymryd rhan mewn dysgu a pharhau i wneud hynny.

¹ Adran 40(1) o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

1.8 Gall Llwybrau Dysgu 14-19 wneud cyfraniad pwysig at weithgareddau sy'n atal problemau. Mae'r Fframwaith 14-19 yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion pobl ifanc o bob gallu a chefnidir. Mae'n ceisio cynnig darpariaeth ddigonol ar bob lefel mynediad, ac ym mhob dull dysgu. Ei fwriad yw i'r dewis mwy i ddysgwyr, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol a chymorth dysgu, sicrhau bod llai o bobl ifanc yn mynd i sefyllfa NEET.

1.9 Mae adran 436A o Ddeddf Addysg 1999, fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod addysg lleol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud trefniadau i'w galluogi i wybod (hyd y gellir) pwy yw'r plant yn eu hardal nad ydynt wedi'u cofrestru yn yr ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas.

1.10 Dylai awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried y ddyletswydd yn rhan ganolog o'u gwaith llywodraethu a chynllunio strategol ar gyfer cyflawni dyletswyddau o dan adrannau 25-29 o Ddeddf Plant 2004. Dylai'r ddyletswydd atgyfnerthu ac ategu'r dyletswyddau hyn sy'n bodoli eisoes, sy'n ceisio gwella canlyniadau a diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc.

1.11 Ffactor allweddol o ran cyflawni'r ddyletswydd hon yn llwyddiannus yw'r angen i gydweithio'n agos â chydweithwyr o fewn ardal yr awdurdod lleol, e.e. Byrddau Lleol Diogelu Plant, Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Byrddau Gwasanaethau Lleol a phartneriaid allanol y mae eu gwaith yn cyfrannu at wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

1.12 Cyhoeddir y ddogfen hon o dan adran 4 o'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau, sy'n darparu bod yn rhaid i awdurdodau addysg lleol ystyried canllawiau statudol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â phlant nad ydynt yn cael addysg.

1.13 I Gymru yn unig mae'r canllawiau hyn yn gymwys. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau hyn ac, os penderfynant wyro oddi wrthynt, nodi rhesymau clir dros wneud hynny.

Cefndir a chyd-destun

1.14 Mae Adran 4 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod addysg lleol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud trefniadau i'w galluogi i wybod (hyd y gellir) pwy yw'r plant yn eu hardal nad ydynt wedi'u cofrestru yn yr ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas.

1.15 Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r canllawiau hyn gwnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ddadansoddiad cychwynnol o allu a pharodrwydd awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni'r ddyletswydd hon. Bu'r broses hon yn llwyfan i awdurdodau lleol godi materion, gwneud awgrymiadau ar gyfer gwella, a nodi'r heriau a wynebier ganddynt i gyflawni eu rhwymedigaethau yn erbyn pum maes a nodwyd² yn rhai allweddol i ddatblygu systemau cadarn ar gyfer plant sy'n colli addysg:

- rheoli ac arweinyddiaeth strategol;
- systemau gwybodaeth;
- rhwydweithiau a phwyntiau cyswllt;
- sicrhau darpariaeth addysg;
- systemau effeithiol ar gyfer monitro.

1.16 Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor, yn gwneud argymhellion ynglŷn â sut y dylid cyrraedd y safonau a'u hymgorffori ac mae'n nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswydd i nodi plant a phobl ifanc yn eu hardal nad ydynt yn cael addysg addas ac mae'n adlewyrchu arfer y mae awdurdodau lleol eisoes wedi dangos ei fod yn effeithiol. Bwriedir hyrwyddo cyfle cyfartal i addysg, a lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o'r gyfundrefn addysg, drwy nodi a chynorthwyo grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a sicrhau ymyriadau effeithiol ar gam cynnar. Dim ond rhan o'r dasg yw eu nodi; mae sicrhau lleoliadau mewn darpariaeth briodol yr un mor bwysig.

1.17 Mae'n adeiladu ar arfer da o bob rhan o'r wlad, gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth a ddatblygwyd am nodi plant a phobl ifanc sydd ar goll o addysg, a'r rhai mewn perygl o fynd ar goll o addysg, gan eu helpu i ddychwelyd i'r gyfundrefn addysg

² Mae'r Rhestr Wirio Hunanasesu yn Atodiad 3 yn cynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â sut y dylid asesu a chyrraedd y safonau hyn.

(neu ddarpariaeth amgen) a chadw cysylltiad er mwyn eu hatal rhag llithro drwy'r rhwyd unwaith eto.

Y ddyletswydd i nodi plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael addysg

1.18 Diben y ddyletswydd yw sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ar goll o addysg yn cael eu nodi'n gyflym a bod systemau monitro effeithiol ar waith i sicrhau y cymerir camau i ddod o hyd i'r plentyn neu'r person ifanc ac i roi 'addysg addas' iddynt, a all gynnwys trefniadau cymorth hefyd.

1.19 Diffinnir 'addysg addas' fel addysg llawn amser effeithlon sy'n addas o ran oedran, gallu, tueddfryd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddynt.

1.20 Mae'r ddyletswydd yn gymwys i blant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, ac nad ydynt yn cael addysg addas y tu allan i'r ysgol (er enghraifft, yn y cartref, yn breifat, neu mewn darpariaeth amgen) ac nad ydynt wedi bod mewn unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol o amser, sef pedair wythnos neu fwy fel arfer.

1.21 Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys i blant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd. Mewn achosion o'r fath dylai plentyn neu berson ifanc fod yn destun ymyriad drwy strategaethau presenoldeb a gweithdrefnau lles addysg sy'n bodoli eisoes ac sydd y tu hwnt i gylch gwaith y canllawiau hyn. Mae'r ddyletswydd newydd yn ategu ac yn atgyfnerthu ddyletswyddau cyfredol ar ysgolion i fonitro presenoldeb ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn gwneud hynny'n effeithiol. Ceir rhagor o wybodaeth am gymorth presenoldeb yn adran 3 o Ganllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru³, ac yn Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb⁴.

³ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2463797/?skip=1&lang=cy>

⁴ Dogfen wybodaeth rhif: 076/2009. ISBN 978 0 7504 5164 2.
wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090327nbaractionplanen.pdf

1.22 Mae dyletswydd ar rieni i sicrhau bod eu plant yn cael addysg amser llawn addas naill ai drwy fynychu'r ysgol neu fel arall (o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996) a gallant ddewis trefnu'r addysg hon eu hunain oddi allan i'r gyfundrefn addysg wladol neu annibynnol. Ceir gwybodaeth ychwanegol am addysg ddewisol yn y cartref yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (cylchlythyr 47/2006).

Pam mae plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o addysg

1.23 Bu nifer o achosion proffil uchel yn ddiweddar yn ymwneud â marwolaethau trasig plant a phobl ifanc a ddylai fod wedi bod yn yr ysgol, ond a oedd wedi diflannu o'r system. Mae'r achosion trist iawn hyn wedi amlygu bylchau difrifol mewn systemau sydd i fod i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

1.24 Wrth ddatblygu polisi a gweithdrefnau ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael addysg addas, dylai awdurdodau lleol ystyried y rhesymau pam mae plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o addysg a'r amgylchiadau a all arwain at hyn er mwyn eu helpu i gau'r bylchau. Dylai systemau anelu at alluogi pob plentyn a pherson ifanc i gael addysg addas, a hefyd hyrwyddo ymateb mwy effeithiol mewn achosion lle mae plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o addysg. Gall plant a phobl ifanc fynd ar goll pan fyddant yn gadael y gyfundrefn addysg ac nad oes prosesau systematig ar waith er mwyn:

- eu nodi;
- sicrhau eu bod yn ailymuno â darpariaeth briodol (a all gynnwys gwasanaethau a chymorth y tu allan i'r ysgol i ddiwallu eu hanghenion) mor gyflym ac effeithiol â phosibl;
- monitro'r broses hon er mwyn sicrhau nad ydynt yn 'llithro drwy'r rhwyd' unwaith eto.

1.25 Os bydd plentyn neu berson ifanc yn cael addysg, maent nid yn unig yn cael cyfle i gyflawni eu potensial, ond maent hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i ddiogelu a hyrwyddo eu lles. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o addysg, gallai fod mewn perygl o gael niwed sylweddol. Dengys ymchwil fod y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt yn cael addysg yn fwy tebygol o droseddu ac ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol, bod mewn perygl o niwed oherwydd camfanteisio rhywiol ac erledigaeth, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a chael eu cyflogi'n anghyfreithlon. Maent hefyd yn fwy tebygol o fethu â phontio'n gadarnhaol yn 16 oed ac yn fwy tebygol o fod yn NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Yng Nghymru mae hyn yn cyfrif am 10-12% o bobl ifanc 16-18 oed⁵ (tua 12,000 y flwyddyn dros y degawd diwethaf).

1.26 Mae'n hollbwysig ein bod yn sicrhau nad yw pobl ifanc yn gadael y system yn y lle cyntaf, o ran eu lles fel unigolion a chan fod ailennyn diddordeb pobl yn nes ymlaen yn anos ac yn fwy costus. Felly mae'n hanfodol bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc yn cydweithio i nodi'r sawl sy'n mynd ar goll o addysg a sicrhau y gallant ddychwelyd i ryw fath o ddarpariaeth gyda chymorth priodol yn gyflym. Ceir cytundeb clir, gan nad yw angen eithafol yn codi dros nos yn achos y rhan fwyaf o bobl ifanc, y gall gwaith nodi ac atal cynnar helpu i wneud y bobl ifanc hyn yn llai agored i niwed a lleihau'r angen am gymorth yn y dyfodol.

1.27 Mae amryw resymau pam mae plant a phobl ifanc yn methu ag ennyn diddordeb mewn addysg neu'n mynd ar goll o fyd addysg, ac mae gwahanol lefelau o risgiau ynghlwm wrth bob rheswm. Gallai hyn gynnwys disgyblion:

- sy'n symud tŷ ac nad yw eu teuluoedd yn dweud wrth yr awdurdod newydd na'r hen un;

⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru. Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yng Nghymru. Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru ISBN 978-0-7504-5130-7

- sy'n symud i ardal awdurdod lleol ac nad ydynt yn cofrestru gydag ysgol leol. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, efallai na fydd rhieni yn ystyried bod ailgofrestru mewn ysgol yn fater o frys hyd yn oed os yw eu plant wedi mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn y gorffennol. Yn wir os yw'r plant yn agosáu at oedran gadael yr ysgol efallai na fydd y teulu yn ystyried ei bod yn berthnasol iddynt ddychwelyd i addysg;
- na allant fynychu eu dewis ysgol gan nad oes lleoedd ar gael ac nad ydynt yn derbyn cynnig lle amgen;
- nad ydynt byth wedi ymuno â'r gyfundrefn addysg am eu bod yn methu â dechrau darpariaeth briodol ar ddechrau oedran ysgol gorfodol; (nid oes gofyniad ar rieni i hysbysu awdurdodau lleol o'r ffaith eu bod yn bwriadu addysgu eu plentyn yn y cartref os nad yw'r plentyn erioed wedi mynychu'r ysgol)
- sy'n cael eu tynnu yn ôl gan eu rhieni sy'n dewis eu haddysgu yn y cartref ond sy'n methu â hysbysu'r awdurdod lleol;
- sy'n peidio â mynychu'r ysgol oherwydd anghydfod, anfodlonrwydd rhiant neu eu bod wedi cael eu gwahardd neu eu tynnu oddi ar gofrestr yr ysgol yn answyddogol;
- sy'n methu â phontio rhwng darparwyr, er enghraifft o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd neu o ysgol i ddarpariaeth amgen;
- sy'n dod i mewn i'r wlad ac nad ydynt yn cofrestru gydag ysgol;
- sy'n symud i'r system Plant sy'n Derbyn Gofal neu'r ystad ddiogel heb rybudd na gwaith cynllunio ymlaen llaw;
- sy'n cael eu gwahardd neu eu tynnu yn ôl o ysgolion annibynnol; neu
- nad ydynt am i'w lleoliad fod yn hysbys; gall teuluoedd newid eu henwau a symud yn gyflym o le i le yn y DU.

1.28 Mae gan bob awdurdod lleol ac ysgol gyfrifoldeb i geisio olrhain pob plentyn a pherson ifanc sy'n peidio â mynychu'r ysgol. Mae hyn yn hollbwysig gan fod posibilrwydd o hyd bod y plentyn neu'r person ifanc ar goll am ei fod mewn perygl o niwed sylweddol. Os oes pryderon ynghylch ble mae unrhyw blentyn neu berson ifanc, dylid dilyn gweithdrefnau a chanllawiau amddiffyn plant y cytunwyd arnynt yn lleol ynghylch pa gamau i'w cymryd.

2 Grwpiau sy'n Agored i Niwed

2.1 Yn ôl profiad lleol a chenedlaethol mae nifer o ffactorau risg a all ddal yn ôl neu rwystro'r gwaith o ymgysylltu â grwpiau penodol sy'n agored i niwed a'u holrhain. Er mai nifer gymharol fach o blant a phobl ifanc sydd mewn perygl efallai, yn aml mae ganddynt anghenion cymhleth o'r cychwyn oherwydd amgylchiadau teuluol anodd, ffactorau cymdeithasol neu ffordd o fyw - ac mae pob un o'r ffactorau hyn yn gallu cyfrannu at y broses o dynnu'n ôl a methiant i bontio'n llwyddiannus. Efallai eu bod wedi profi digwyddiadau penodol mewn bywyd sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o fynd ar goll o addysg ac sy'n wynebu rhwystrau anos i ymgysylltu eto. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr, ond gallai gynnwys plant a phobl ifanc:

- sydd o fewn y system cyfiawnder ieuenctid;
- sy'n byw mewn llochesi i fenywod;
- sy'n dod o deuluoedd digartref sydd o bosibl yn byw mewn llety dros dro neu lety gwely a brecwast;
- sy'n dod o deuluoedd sy'n ffoi rhag trais yn y cartref;
- y mae ganddynt broblemau meddygol neu emosiynol hirdymor;
- sy'n ofalwyr ifanc;
- y mae gan eu rhieni broblemau iechyd meddwl;
- y mae gan eu rhieni anawsterau dysgu;
- y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio arnynt;
- a oedd yn arfer cael addysg yn y sector annibynnol ond sydd wedi cael eu gwahardd neu eu tynnu'n ôl;
- y mae eu rhieni wedi'u tynnu o'r ysgol er mwyn eu haddysgu gartref, ond nad ydynt yn derbyn addysg briodol;
- sy'n Derbyn Gofal gan yr awdurdod lleol; sy'n cael eu maethu'n breifat; sy'n mynd ar goll o ofal;
- sy'n geiswyr lloches ar eu pen eu hunain;
- sydd ar y gofrestr amddiffyn plant;
- sydd wedi cael eu bwlio;
- sy'n dod o deuluoedd sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid;
- sy'n dod o gefndir Sipsiwn, Teithwyr neu Roma;

- sy'n dod o deuluoedd sy'n symud gryn dipyn e.e. mae eu rhieni yn y lluoedd arfog;
- y mae eu teuluoedd yn mynd â hwy ar wyliau estynedig neu ymweliadau treftadaeth; neu
- sy'n rhieni ifanc ac yn fenywod ifanc beichiog.

Grwpiau risg uwch sy'n codi problemau mwy cymhleth o ran eu nodi

2.2 Bydd rhai achosion lle nad yw'r awdurdod lleol na'r ysgol yn ymwybodol o blant a phobl ifanc â phroblemau mwy cymhleth, ond gallant ddod i sylw asiantaethau eraill megis y gwasanaeth iechyd neu'r heddlu neu sefydliadau cymunedol. Gallai'r grwpiau hyn gynnwys y rhai:

- sydd mewn perygl o briodas dan orfod a thrais er anrhydedd;
- sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu cludo i'r DU neu o fewn y DU yn anghyfreithlon;
- sy'n rhan o raglen amddiffyn tystion gyda'u teuluoedd sy'n golygu y gallent gael eu hadleoli heb esboniad na chyfeiriad;
- sy'n dod o deuluoedd sy'n ymwneud â thwyll, anawsterau cymdeithasol, troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- sydd ar ffo;
- sy'n dod o deuluoedd gweithwyr mudol nad ydynt efallai'n gyfarwydd â'r gyfundrefn addysg;
- sy'n dod o deuluoedd ymfudwyr sydd newydd gyrraedd; neu
- sy'n dod o deuluoedd sy'n diflannu'n llwyr os na roddir lloches iddynt neu os na roddwyd llety yn eu dewis leoliad iddynt.

Dim ond drwy asiantaethau eraill y gellir nodi'r plant a'r bobl ifanc hyn ac mae hyn yn gofyn am weithio'n gadarn mewn partneriaeth a systemau atgyfeirio clir.

2.3 Cydnabyddir bod y ffactorau a restrir uchod yn gwneud plant a phobl ifanc yn 'agored i niwed' ar bob ystyr ac felly mae'n arbennig o bwysig na ddylid gadael iddynt fynd ar goll o addysg. Mae angen i ysgolion a'r awdurdod lleol roi sylw penodol i blant

a phobl ifanc yn y grwpiau hyn, yn enwedig pan fyddant yn gadael neu'n cyrraedd eu hardal. Efallai bod gan y plant hyn anghenion sy'n mynd y tu hwnt i gyrraedd gwasanaethau cyffredinol a dylai awdurdodau lleol geisio cyngor gan y timau arbenigol perthnasol ac asiantaethau partner.

2.4 Mewn rhai achosion bydd lleoliad plant a phobl ifanc yn hysbys i'r awdurdod ond nad ydynt mewn darpariaeth eto, mae'r grŵp hwn yn cynnwys, er enghraifft, y sawl:

- lle y gwrthodir lle ysgol a gynigiwyd, ac mae proses apelio yn mynd rhagddi;
- sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol ac sy'n aros am leoliad;
- sydd newydd gyrraedd y sir neu'r wlad; sy'n ceisio lleoedd ysgol ac mae derbyniadau yn gwybod amdanynt; neu
- lle mae addysg ddewisol yn y cartref wedi cael ei barnu'n anfodddhaol ar ôl gweithdrefnau sicrhau ansawdd awdurdodau lleol.

Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn y grwpiau hyn yn cael eu holrhain a'u monitro i sicrhau bod darpariaeth addas ar eu cyfer.

2.5 Bydd rhai wedi mynychu'r ysgol ac wedi gadael i fynd i leoliad anhysbys, heb gyfeiriad anfon ymlaen ac y methwyd â dod o hyd iddynt ar ôl 'ymchwiliad rhesymol' ac yr erys eu lleoliad yn anhysbys.

2.6 Manylir ar ddulliau nodi, cyngor a chymorth o ran y grwpiau hyn, gydag enghreifftiau o arfer da a gweithio mewn partneriaeth yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Er bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg sy'n byw yn eu hardal, argymhellir y dylai'r sawl sydd wedi diflannu heb roi gwybod i ble maent yn mynd aros ar restrau plant sydd ar goll yr awdurdod gwreiddiol. Dylai'r rhestrau hyn gael eu monitro'n rheolaidd oherwydd gallai'r plant ailymddangos yn y sir neu rywle arall yn y wlad.

Gofynion diogelu ar gyfer awdurdodau lleol, ysgolion a phartneriaid perthnasol

2.7 Dylai'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd gael ei integreiddio â'r dyletswyddau ehangach ar awdurdodau lleol drwy adrannau 25-29 o Ddeddf Plant 2004 mewn perthynas â hyrwyddo cydweithredu i wella lles plant yng Nghymru. Dylai'r ddyletswydd newydd atgyfnerthu ac ategu'r dyletswyddau hyn sy'n bodoli eisoes.

2.8 Er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag mynd ar goll o addysg, neu er mwyn dod o hyd iddynt a chysylltu â hwy eto os ydynt wedi mynd ar goll, mae'n hanfodol bod amrywiaeth mawr o asiantaethau yn cydnabod cyfrifoldeb am ddiogelu yn y maes hwn. Mae dod o hyd i blant a phobl ifanc sydd ar goll yn llawer mwy effeithiol pan fydd asiantaethau'n cydweithio. Gall hyn gynnwys rhannu gwybodaeth, ymwneud ar lefel weithredol neu roi cymorth i asiantaethau eraill. Mae angen i sefydliadau lleol gydweithio er mwyn cytuno ar strategaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth yn lleol a'i gweithredu gyda chytundebau rhannu data ag asiantaethau allweddol.

2.9 Mae Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 Llywodraeth y Cynulliad⁶ yn rhoi canllawiau ar rannu gwybodaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae'n cwmpasu pob gwasanaeth, gan gynnwys iechyd; addysg; y blynyddoedd cynnar a gofal plant; gofal cymdeithasol; troseddau ieuencid; yr heddlu; gwasanaethau cynghori a chymorth a hamdden. Efallai y bydd canllawiau Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, a ddatblygwyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, hefyd yn ddefnyddiol yn hyn o beth ac mae templedi enghreifftiol ar gael ar y wefan a all helpu i ddatblygu Protocolau Rhannu Gwybodaeth Bersonol. <http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=702>

2.10 Yn lleol, o gofio'r holl wasanaethau ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, mae angen arweinyddiaeth gryfach wrth gydgysylltu'r gwaith hwn. Yn dibynnu ar drefniadau lleol, mae'r arweinyddiaeth strategol i sicrhau cydweithredu, camau gweithredu a darpariaeth ar y cyd ymhlith darparwyr

⁶ Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 - ISBN 0 7504 8910 3

i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc yn rhan o gyfrifoldeb Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, drwy eu Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (CYPP) neu Fyrddau Lleol Diogelu Plant (LSCB). Awdurdodau lleol sy'n bennaf cyfrifol am ddod â phartneriaid lleol ynghyd i wella canlyniadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc yn yr ardal a'u lles.

Cyfrifoldebau Clir

2.11 Yn ôl arfer da sy'n bodoli eisoes, er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn effeithiol dylai awdurdodau lleol enwebu unigolyn (unigolion) a enwyd i roi gwybod iddo pan nodir nad yw plentyn neu berson ifanc yn cael addysg addas ac a fydd yn sicrhau eu bod yn (ail)gysylltu â'r ddarpariaeth a'r cymorth addysg mwyaf priodol mor gyflym â phosibl.

2.12 Bydd angen penderfynu ar y cyfrifoldeb hwn yng ngoleuni'r amgylchiadau lleol. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau lleol wedi gweithredu ar hyn drwy roi'r cyfrifoldeb hwn ar:

- uwch reolwyr yn arwain gan ddirprwyo i eraill;
- swyddog olrhain disgyblion/swyddog plant sy'n colli addysg (CME) dynodedig;
- prif swyddogion lles addysg;
- cydlynwyr cadw mewn cysylltiad; neu
- cydlynwyr amddiffyn plant.

Mae'n rhaid bod cyfrifoldebau clir am y rôl hon neu i'r rhai y dirprwyir y dyletswyddau iddynt. Rydym yn argymhell yn gryf fod yr unigolion hyn yn cael digon o gymorth gan reolwyr i gyflawni'r rôl. Mae'n rhaid i'r prosesau a'r niferoedd gael eu monitro'n rheolaidd hefyd gan Uwch Reolwyr awdurdodau lleol, Aelodau Etholedig a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc neu Fyrddau Lleol Diogelu Plant.

Hysbysu ac Atgyfeirio

2.13 Efallai na fydd gan yr awdurdod lleol yr holl wybodaeth am y plant neu'r bobl ifanc y mae pryder yn eu cylch. Yn aml bydd asiantaeth arall yn ymwybodol o gyrhaeddiad neu fodolaeth plentyn

neu berson ifanc, sy'n byw mewn awdurdod lleol ond nad yw mewn addysg, cyn i'r adran addysg ddod yn ymwybodol ohono.

2.14 Bydd angen gweithio gyda'r holl randdeiliaid i godi ymwybyddiaeth o bolisi'r awdurdod, ei enw cyswllt a'r prosesau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ar goll, neu mewn perygl o fynd ar goll, gan eu hannog i gyfeirio unrhyw bryderon sydd gan asiantaethau ynglŷn â'r ddarpariaeth (neu'r diffyg darpariaeth) a gynigir i unrhyw ddisgybl o oedran ysgol statudol neu a derbynnir ganddo.

2.15 Mae angen sicrhau bod pob asiantaeth bartner yn gwybod sut i hysbysu'r awdurdod lleol am y plant a'r bobl ifanc hyn er mwyn sicrhau bod asiantaethau yn defnyddio'r llwybr hwn yn gyson.

2.16 Er mwyn creu proses atgyfeirio gyson a'i hwyluso dylid datblygu ffurflenni (ar ffurf copi caled ac electronig) a sicrhau eu bod ar gael i'r asiantaethau a'r partneriaid hyn er mwyn eu galluogi i wneud atgyfeiriadau am blant a phobl ifanc y mae ganddynt bryderon yn eu cylch.

Mae Atodiad 4 yn cynnwys enghraifft o fformat awgrymedig ar gyfer ffurflen atgyfeirio.

Gall partneriaid gynnwys:

- addysg a hyfforddiant - gan gynnwys: ysgolion a gynhelir, ysgolion annibynnol, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion, darparwyr addysg amgen, gwasanaeth addysg teithwyr, gwasanaethau cyflawni lleiafrifoedd ethnig, timau gwaith achos AAA, cydlynwyr addysg plant sy'n derbyn gofal, cwmselwyr ysgol;
- partneriaethau plant a phobl Ifanc (gan gynnwys cydlynwyr cadw mewn cysylltiad);
- gofal cymdeithasol - gwasanaethau plant ac oedolion, a'r tîm ceiswyr lloches, gofalgwyr maeth;

- iechyd - awdurdodau iechyd strategol, byrddau iechyd lleol, meddygon teulu, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS), ymwelwyr iechyd, ymddiriedolaethau aciwt, nyrsys plant sy'n derbyn gofal;
- yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol, timau ymddygiad gwrthgymdeithasol; partneriaethau diogelwch cymunedol;
- Gyrfa Cymru;
- gwasanaeth troseddau ieuenctid (YOS);
- sefydliadau troseddwyr ifanc, cartrefi plant diogel, canolfannau hyfforddi diogel;
- adrannau tai, hosteli pobl ddigartref a llochesi menywod;
- gwasanaeth ieuenctid statudol a gwirfoddol;
- y Gwasanaeth Mewnfudo;
- sefydliadau gwirfoddol a chymunedol gan gynnwys grwpiau ffydd;
- aelodau etholedig ac aelodau o'r cyhoedd;
- Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- Asiantaeth Ffiniau'r DU;
- gwasanaethau tân ac achub;
- timau cymorth cyffuriau ac alcohol;
- cymorth i ddiodefswyr;
- awdurdodau lleol cyfagos;
- plant a phobl ifanc.

Efallai y bydd rhai eraill, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol.

2.17 Hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog pob awdurdod i lunio polisiâu ysgrifenedig, y cytunwyd arnynt ac y'u ffurfiolwyd ar y cyd â'u partneriaid.

2.18 Er mwyn i'r broses atgyfeirio a hysbysu fod yn hawdd ei deall ac yn effeithiol bydd angen i wybodaeth gael ei chylchredeg yn rheolaidd. Gallai ffyrdd posibl o godi ymwybyddiaeth gynnwys:

- rhwydweithiau partneriaethau pobl ifanc, gwefannau a chylchlythyrau pobl ifanc;

- byrddau lleol ar gyfer diogelu plant, y mae gan nifer ohonynt eu gwefannau eu hunain;
- byrddau gwasanaethau lleol;
- Gyrfa Cymru Ar-lein;
- cofnod mewn cyfeirlyfr o wasanaethau;
- digwyddiadau/gweithdai gydag asiantaethau partner, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol;
- cynadleddau penaethiaid a gweinyddwyr ysgol;
- taflenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd eraill;
- gwefannau cynghorau; gwefannau allanol a mewnrwydi;
- fel rhan o raglen sefydlu a hyfforddi i staff o fewn gweithdrefnau diogelu.

2.19 Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r peryglon sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc sy'n colli addysg.

Cyngor Arfer Da

Mae nifer o awdurdodau lleol yn cyhoeddi eu polisiau ynglŷn â Phlant sy'n Colli Addysg ar eu gwefannau ac yn gofyn i'r cyhoedd gysylltu â hwy drwy atgyfeiriadau ar-lein neu eu canolfannau cyswllt i'w hysbysu am gyrhaeddiad neu fodolaeth plentyn sy'n byw yn yr ardal, ond na chredir ei fod mewn addysg. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn.

Gallai hyn arwain at dderbyn gwybodaeth am blant a phobl ifanc sydd eisoes yn hysbys i'r awdurdod a/neu ar gofrestr ysgol, ond sydd â phroblemau presenoldeb o bosibl. Fodd bynnag, o ystyried y pryderon ynglŷn â diogelu'r grŵp hwn a'u lles, credwn fod hynny'n fwy buddiol na pheidio â chael gwybod.

Atal - lleihau'r risg na fydd plant a phobl ifanc yn cael addysg addas

2.20 Mae nifer o gamau gweithredu rhagweithiol y gall awdurdodau lleol a'u hasiantaethau partner eu cymryd i leihau'r risg na fydd plant a phobl ifanc yn cael addysg addas. Mae arfer da cyfredol yn dod o dan y categorïau canlynol yn fras lle mae'r awdurdod lleol yn cyflwyno mesurau er mwyn:

- rhoi enwau cyswllt a fydd yn derbyn hysbysiadau am blant a phobl ifanc gan asiantaethau eraill;
- nodi grwpiau ac unigolion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n wynebu mwy o risg; gan sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol a darpariaeth wedi'i theilwra drwy;
- ei gwneud yn llai tebygol y bydd plant a phobl ifanc yn gadael y gyfundrefn addysg drwy olrhain cyfnodau pontio ac archwilio cofrestrau ysgolion;
- sicrhau defnydd llawn o s2s a'r gronfa ddata o ddisgyblion sydd ar goll ynghyd â hyfforddiant cysylltiedig⁷;
- olrhain achosion lle gwyddys nad yw plant a phobl ifanc yn cael addysg addas yn y cartref a defnyddio pwerau presennol adran 437 o Ddeddf Addysg 1996 i gyhoeddi gorchymyn mynychu'r ysgol os oes angen;
- sicrhau y caiff grwpiau sy'n agored i niwed eu monitro a'u holrhain yn barhaus gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol; Plant sy'n Derbyng Gofal a'r rhai sydd wedi'u cofrestru fel plant sy'n cael addysg y tu allan i'r ysgol;
- nodi a lleoli plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael addysg addas, drwy gynnal archwiliadau o bresenoldeb mewn ysgolion;
- olrhain ceisiadau mynediad nad ydynt yn arwain at roi lle mewn ysgol i blentyn neu berson ifanc ac apeliadau mynediad aflwyddiannus;
- ailgysylltu plant a phobl ifanc â darpariaeth addysgol briodol, er enghraifft drwy baneli amlasiantaeth i drafod mynediad.

⁷ Ceir gwybodaeth bellach am y gronfa ddata disgyblion coll ac s2s yn adran 6

3 Nodi a Chynorthwyo Plant a Phobl Ifanc sy'n Debygol o Fynd ar Goll o Addysg

3.1 Mae dysgwyr yn llai tebygol o fynd ar goll o addysg os caiff grwpiau sy'n agored i niwed ac unigolion y cydnabyddir eu bod yn fwy tebygol o fynd ar goll o addysg eu nodi yn gynnar, os caiff cymorth priodol ei roi ac os caiff eu cynnydd ei fonitro.

3.2 Mae'r adran hon yn rhoi enghreifftiau o ddulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i leihau'r risgiau hynny a sicrhau bod cyn lleied o gyfleoedd â phosibl i hyn ddigwydd, ac yn rhoi manylion am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael gan dimau arbenigol ac asiantaethau partner.

3.3 Mae rhagor o wybodaeth am ystyriaethau arbennig sy'n gymwys i ddiogelu plant a allai fod yn arbennig o agored i niwed i'w gweld ym Mhennod 9, Diogelu Plant: Cydweithio o dan Ddeddf Plant 2004⁸.

A Plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid a'r rhai sydd mewn perygl o droseddu

A.1 Does dim amheuaeth bod ffactor risg yn gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yn colli addysg ac yn ymddwyn yn droseddol. Mae atal wrth wraidd Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan⁹ a'i phrif egwyddor yw mai'r ffordd orau o sicrhau nad yw pobl ifanc yn dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yw sicrhau nad ydynt yn ymuno â hi yn y lle cyntaf.

A.2 Fodd bynnag, unwaith y byddant yn y system, yn unol â gofynion y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, bydd pob Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn nodi fel rhan o'r asesiad ASSET cychwynnol¹⁰ y plant a'r bobl ifanc hynny:

- nad yw'r ddarpariaeth ysgol bresennol yn diwallu eu hanghenion o ran addysg a hyfforddiant;
- nad oes darpariaeth ar eu cyfer; neu
- sy'n cael darpariaeth amhriodol ar hyn o bryd.

A.3 Awdurdodau lleol, nid ysgolion, sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion troseddwyr ifanc o oed ysgol statudol o ran addysg a hyfforddiant. Mae arweiniad pellach ar sut y mae disgwyl i awdurdod lleol gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw yn Adran 2 canllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru (Cylchlythyr 47/2006).

⁸ <http://wales.gov.uk/publications/circular/2007/1637402/?skip=l&lang=cy>

⁹ <http://wales.gov.uk/about/strategy/publications/childrenyoung/935794/?lang=cy>

¹⁰ Mae Asset yn darparu fframwaith cyffredin strwythuredig ar gyfer asesu pob person ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Aseiad safonol ydyw o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol person ifanc.

A.4 Mae tua 75 o blant a phobl ifanc rhwng 12 ac 16 oed o awdurdodau lleol yng Nghymru yn y ddalfa ar unrhyw adeg¹¹. Cânt eu dal naill ai mewn Sefydliad Troseddwy Ifanc, Canolfan Hyfforddi Ddiogel neu Gartref Diogel i Blant sy'n eiddo i'r awdurdod lleol. Ni ddylid ystyried bod y rhain yn rhai 'sydd ar goll o addysg', gan ei bod yn ofynnol iddynt i gyd gael addysg a hyfforddiant llawn amser yn y man lle cânt eu dal. Fodd bynnag, erys rhai heriau sylweddol oherwydd caiff llawer o bobl ifanc eu dal yn aml mewn awdurdodau lleol eraill ar wahân i'r awdurdod lleol lle maent yn byw fel arfer. Felly mae angen i'r awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid rannu gwybodaeth am leoliad troseddwy ifanc yn y ddalfa a'u dyddiad rhyddhau arfaethedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb o ran cymorth a bod y ddarpariaeth wedi'i chynllunio'n dda ac ar gael yn syth ar ôl i'r unigolyn gael ei ryddhau - boed yn gymorth i'w ailintegreiddio i ysgol brif ffrwd neu'n ddarpariaeth arall.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae Gwasanaeth Troseddau leuenctid Sir Gaerfyrddin yn cyflogi Gweithiwr Addysg a ariennir drwy'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid a'r Gwasanaeth leuenctid i weithio gyda phobl ifanc o dan 16 oed a phobl ifanc dros 16 oed ar ôl i achosion troseddol ddod i ben. I'r rhai o oedran ysgol gorfodol, mae'r rôl hon yn cynnwys cydweithio ag adrannau addysg i sicrhau bod y person ifanc ar gofrestr neu y bydd darpariaeth ar gael iddo, atgyfeirio problemau'n ymwneud â phresenoldeb a mynd i gyfarfodydd a gynhelir cyn i'r person ifanc gael ei ryddhau. Yn ddiweddar, mae staff ysgolion a staff yr Uned Atgyfeirio Disgyblion wedi mynd i'r cyfarfodydd cyn-ryddhau amlasiantaeth yn yr ystad ddiogel er mwyn sicrhau y caiff y person ifanc ei gynorthwyo'n llawn i ddychwelyd i addysg. Mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tân mae'r gweithiwr hefyd yn cynnal cyrsiau atal troseddu 6-8 wythnos mewn ysgolion lleol i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, gadael ysgol heb gymwysterau a'r rhai sydd fwyaf tebygol o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. Yn ystod y cwrs mae'r dysgwyr yn datblygu portffolio ar gyfer achredu sgiliau allweddol.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae gan ALL Caerdydd athro a chynorthwyrwyr addysgu sy'n gweithio i Wasanaeth Troseddau leuenctid Caerdydd. Mae'r rhain yn addysgu sgiliau sylfaenol ac yn cydgysylltu darpariaeth arall a lleoliadau hyfforddi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned ac yn y ddalfa os nad ydynt ar gofrestr ysgol neu os ydynt yn gwrthod mynd i'r ysgol. Mae'r athro yn mynd i gyfarfodydd cyn-ryddhau yn yr ystad ddiogel i gyfarfod â'r person ifanc, meithrin cydberthnasau a sicrhau ei fod yn cael darpariaeth addas cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei ryddhau, oherwydd cydnabyddir bod cyfleoedd dysgu priodol yn ffactor amddiffyn pwysig wrth leihau ymddygiad troseddol.

Arfer da - Ymagwedd leol

Yn Rhondda Cynon Tâf, ariannodd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid brosiect peilot hynod lwyddiannus, sef 'Cyfiawnder Adferol mewn Ysgolion', mewn pump ysgol gyfun cyn ei gyflwyno i'r 19 ysgol gyfun yn y sir gan gyrraedd dros 200 o ddysgwyr. Gweithiodd tri aelod o staff penodol o'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid gyda'r ysgolion cyfun i helpu staff a dysgwyr i ddatrys gwrthdaro cyn iddo fynd yn ddifrifol ac arwain at driwantaeth, bwlio ac ymddygiad troseddol. Mae'r gwasanaeth wedi darparu hyfforddiant yn yr ysgolion ac wedi gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc. Mae'r ffaith bod y gweithwyr yn annibynnol wedi galluogi pobl ifanc i ddatgelu materion a fyddai wedi aros yn gudd fel arall. Mae hyn wedi cynnwys materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a cham-drin domestig sydd wedi effeithio ar ymddygiad y plant a'r bobl ifanc. Dywedodd un dirprwy bennaeth mai dyma'r prosiect allanol gorau i'r ysgol gymryd rhan ynddo.

Dylai'r Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS), sy'n rhan o Asiantaeth Ffiniau'r DU, roi gwybod i Awdurdodau Lleol am deuluoedd sy'n destun rheolaethau mewnfudo sy'n symud i'w hardal.

Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg
Mawrth 2017
Cylchlythyr canllawiau rhif: 002/2017

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae gan Wasanaeth Troseddau Ieuencid Castell-nedd Port Talbot Gytundeb Gwasanaeth gyda'r Adran Addysg fel eu bod yn cynnal cyfarfodydd â'i gilydd bob hanner tymor. Mae'r cyfarfodydd yn eu galluogi i drafod nifer fach o bobl ifanc y mae eu darpariaeth addysg yn anodd ei datrys. Bwriedir i'r cyfarfodydd fod yn gyfle i ddod o hyd i atebion ac mae'r adnoddau a roddir iddynt yn adlewyrchu hyn. Mae Uwch Reolwyr yn mynd i'r cyfarfodydd hyn a gallant wneud penderfyniadau am adnoddau neu argymhellion i'r pwyllgorau priodol. Mae pob person ifanc o'r fath yn aros yn rhan o'r llwyth achosion hyd nes y caiff y mater ei ddatrys.

A.5 Mae arweiniad pellach ar gymorth i droseddwr ifanc yn Adran 2 o gylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

B Teuluoedd sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid

B.1 Yn ôl Cyngor Ffoaduriaid Cymru, ym mis Mehefin 2008 roedd tua 3,000 o geiswyr lloches yng Nghymru a thua 10,000 o ffoaduriaid. Roedd y rhan fwyaf o geiswyr lloches a ffoaduriaid yn byw yng Nghaerdydd (44%), Abertawe (36%) a Chasnewydd (16%), gyda nifer fach yn byw yn Wrecsam (2%) a llond llaw o bobl yn byw y tu allan i'r cytrefi hyn.¹²

B.2 Y pedwar 'clwstwr' hyn yw'r ardaloedd 'gwasgaru' a ddynodwyd yng Nghymru gan Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA), sy'n rhan o'r Swyddfa Gartref, ar gyfer ceiswyr lloches sydd newydd gyrraedd y wlad.

B.3 Rhaid i geiswyr lloches â phlant gael cymorth (darparu llety a'r pethau hanfodol i fywyd) gan y Gwasanaeth Cynnal Cenedlaethol i Geiswyr Lloches (NASS) - un o asiantaethau gweithredol y Swyddfa Gartref. Yn unol â hynny, nid oes gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb yn hyn o beth, ond gallant wneud trefniadau gyda NASS i roi llety i'r teulu ar ei ran.

¹² Welsh_Refugee_Council - Asylum%20_Seekers%20and%20Refugees%20in%20Wales[1].pdf

B.4 Mae angen i Wasanaethau Lles Addysg (EWS) a Gwasanaethau Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig (EMAS) yr awdurdod lleol gydweithio i sicrhau bod cyngor am dderbyniadau a chymorth gyda'r broses gwneud cais ar gael yn hawdd ar fformatau hygyrch i deuluoedd sydd newydd symud o dramor. Mae'n hollbwysig bod gwybodaeth ar gael i rieni, ac ar adegau bydd angen i awdurdodau lleol gymryd camau creadigol i sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cyrraedd teuluoedd drwy grwpiau ffydd a chymunedol a chysylltiadau â sefydliadau ar gyfer ffoaduriaid er enghraifft.

Arfer da - Ymagwedd leol

Yn 2008-2009 roedd gan Gasnewydd 119 o geiswyr lloches/rhai sy'n ddibynyddion i geiswyr lloches a gaiff eu cynorthwyo gan Wasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig yr AALI. Maent yn cael gwybod yn rheolaidd gan ddarparwyr tai am deuluoedd sy'n cyrraedd yr awdurdod. Maent yn cyflogi Cydgysylltydd Ceiswyr Lloches sy'n gweithio gyda theuluoedd i sicrhau lleoedd mewn ysgolion, trefnu prydau ysgol am ddim a gwisg ysgol yn ogystal â rhoi cymorth iddynt gael eu cynnwys drwy fynd gyda'r plant a'r bobl ifanc i'r ysgol a'u helpu i ymgysylltu.

B.5 Mae plant sy'n ffoaduriaid, a phlant o deuluoedd sy'n ceisio lloches, yn aml yn wynebu llawer o anawsterau wrth gael addysg o'u cymharu â grwpiau eraill. Ymhlith y problemau y gallai'r plant eu hwynebu mae prinder lleoedd mewn ysgolion, diffyg cymorth ieithyddol a diffyg cymorth ariannol. Efallai eu bod wedi cael profiadau trawmatig o ran colli eu cartref, eu teulu neu'u ffrindiau. Efallai y bydd eu bywyd yn y DU yn parhau i fod yn llawn ansicrwydd, yn enwedig yn ystod y broses o geisio lloches. Yn aml bydd angen iddynt ddysgu Cymraeg neu Saesneg ac ymgynffwrdd ag addysg a strwythurau cwricwlwm anghyfarwydd. Efallai y byddant yn debygol o ddod ar draws agweddau ystrydebol, gwahaniaethu neu fwlio. Yn aml mae angen cymorth ac eiriolaeth ar blant sy'n ffoaduriaid a'u teuluoedd er mwyn trafod sut i gael addysg yn ogystal â chymorth i wneud cais am le, ac i gael lle, mewn ysgol.

B.6 Os byddant yn cael caniatâd i aros, mae'n well gan rai teuluoedd symud i ardaloedd o'r DU lle ceir cymunedau o bobl o'u gwlad enedigol. Mae hawl gan y teuluoedd hynny sy'n cael caniatâd i aros, boed am gyfnod penodol neu am byth, symud i unrhyw le yn y DU ac maent yn debygol o gofrestru eu plant mewn ysgol. Mae'r perygl i blant a phobl ifanc yn fwy lle nad yw teuluoedd yn cael caniatâd i aros neu sy'n credu y gallai eu hapêl fod yn aflwyddiannus. Mae'n bosibl y byddant yn symud i osgoi cael eu dal a'u halltudio ac maent yn llai tebygol o gofrestru eu plant mewn ysgol.

B.7 Ni ddylai amheuron am oedran neu fanylion y plentyn neu'r person ifanc atal neu oedi ei fynediad i'r ysgol lle ceir lle gwag gan ei bod yn fwy diogel i blant fod yn yr ysgol tra bod mwy o ymholiadau'n cael eu gwneud.

B.8 Mae rhagor o wybodaeth am gynorthwyo plant sy'n ceisio lloches ac sy'n ffoaduriaid ar gael yn Adran 2 o gylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Arfer da - Ymagwedd leol

Cyfarfod Ymarferwyr Amlasiantaeth

Yng Nghasnewydd, mae Grŵp Ymarferwyr Iechyd, Addysg a Lles Casnewydd yn cwrdd bob mis. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys amrywiaeth o ymarferwyr o'r sector gwirfoddol, y sector statudol, yr heddlu a darparwyr tai preifat. Mae'r grŵp yn ystyried materion ac achosion penodol sy'n gysylltiedig â cheiswyr lloches, ffoaduriaid a gweithwyr mudol, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc wedi'u gwahanu wrth eu teuluoedd yn ogystal â theuluoedd. Y nod yw darparu dull rhyngasiantaethol a chydgyssylltiedig o weithredu, fel y gellir darparu a hyrwyddo gwasanaeth arfer gorau o ansawdd i bobl sy'n ceisio lloches, ffoaduriaid a mewnfudwyr yng Nghasnewydd. Nod y bartneriaeth yw sicrhau mwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau sy'n rhan ohoni, lleihau achosion o ddyblygu a bylchau mewn gwasanaethau a chynyddu'r gwasanaethau ategol a ddarperir.

Arfer da - Ymagwedd genedlaethol

Swydd Cymru Gyfan - Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid

Er mwyn ategu gwaith Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP) penodwyd Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid. Rôl y gweithiwr hwn yw rhoi cyngor a gwybodaeth ynghylch amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid, gan gynnwys cyfeirio galwyr at y sefydliadau a'r unigolion priodol ar gyfer pwnc penodol. Mae'r swydd yn cwmpasu Cymru gyfan a hyd yma, mae'r rhan fwyaf o ymholiadau wedi dod o ardaloedd eraill ar wahân i ddinasoedd Caerdydd, Casnewydd, Abertawe neu Wrecsam.

Gellir cysylltu â'r Gweithiwr Cyngor a Gwybodaeth i Blant sy'n Ffoaduriaid yn y cyfeiriad canlynol:

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru

Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8635

Bydd Asiantaeth Ffiniau'r DU yn cynorthwyo asiantaethau priodol eraill sydd mewn cysylltiad â phlant a phobl ifanc, megis awdurdodau lleol neu'r heddlu, os ydynt yn ceisio cadarnhau eu manylion. Mae gan Asiantaeth Ffiniau'r DU ddau bwynt cyswllt y gall awdurdodau lleol eu defnyddio i gadarnhau statws mewnfudo plant a phobl ifanc:

- am ymholiadau am statws mewnfudo unigolion nad ydynt yn hawlio lloches, cysylltwch â'r Ddesg Awdurdodau Lleol yn Uned Ymholiadau Asiantaeth Ffiniau'r DU ar: 0845 601 2298; Ffacs: 020 8196 3049;***

- **am ymholiadau am statws mewnfudo unigolion sy'n hawlio lloches, cysylltwch â'r Tîm Cysylltiadau Awdurdodau Lleol ar: Ffôn: 020 8760 4527.**

C Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o briodi dan orfod

C.1 Cred Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru fod priodasau dan orfod yn mynd yn groes i hawliau dynol a'u bod yn ffurf ar gam-drin domestig ac, mewn achosion lle effeithir ar blant a phobl ifanc, yn ffurf ar gam-drin plant. Er bod y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys menywod ifanc a merched rhwng 13 a 30 oed, mae nifer sylweddol o ddynion yn ddiodefwr hedyd.

C.2 Mae'r rhan fwyaf o achosion o briodasau dan orfod a gofnodwyd hyd yma yn y DU yn ymwneud â theuluoedd o Dde Asia¹³. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod poblogaeth fawr o Dde Asia wedi ymsefydlu yn y DU. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad yw priodasau dan orfod yn broblem sy'n unigryw i Dde Asia ac mae achosion wedi codi sy'n cynnwys teuluoedd o Ddwyrain Asia, y Dwyrain Canol, Ewrop ac Affrica.

C.3 Yn 2008, rhoddodd yr Uned Priodasau dan Orfod, corff ar y cyd rhwng y Swyddfa Dramor a'r Swyddfa Gartref, gyngor neu gymorth mewn perthynas â thros 1,600 o adroddiadau o achosion posibl o briodasau dan orfod a chymerodd gamau ymyrryd uniongyrchol mewn 420 o'r achosion hyn. Yn ogystal, caiff achosion eu dwyn i sylw'r heddlu, y gwasanaethau gofal cymdeithasol, sefydliadau iechyd, sefydliadau addysg a sefydliadau gwirfoddol. Hedyd bydd canran o achosion na chlywir sôn amdanynt.

Yn ystod chwe mis cyntaf 2009 mae'r uned wedi cael 770 o alwadau neu negeseuon e-bost i'w llinell gymorth a dengys yr adroddiadau diweddaraf bod y diodefwr mewn 14% o achosion yn ddynion a bod **33% o'r holl achosion yn cynnwys unigolion o dan 18 oed a bod 14% o'r holl achosion yn cynnwys unigolion o dan 16 oed.**

¹³ www.fco.gov.uk/forcedmarriage ISBN 978-1-84726-929-4 Multi-agency practice guidelines: Handling cases of Forced Marriage

C.4 Cyhoeddwyd **'Multi-agency practice guidelines: Handling cases of Forced Marriage'** gan Lywodraeth Ei Mawrhydi ym mis Gorffennaf 2009 ac fe'u cynlluniwyd i roi cyngor cam wrth gam i weithwyr rheng flaen proffesiynol fel athrawon, swyddogion yr heddlu, gweithwyr gofal iechyd a chymdeithasol proffesiynol a swyddogion tai, i'w helpu i gydweithio'n agosach i nodi a diogelu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o briodi dan orfod yn well. Fe'u lluniwyd i ategu'r canllawiau statudol **'The Right to Choose'**, a lanswyd ar ôl i'r Ddeddf Priodi dan Orfod (Amddiffyn Sifil) ddod i rym ym mis Tachwedd 2008. Mae'r canllawiau hyn yn nodi cyfrifoldebau strategol ehangach Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr o ran mynd i'r afael â phriodasau dan orfod yn lleol.

Canllawiau ar ymarfer:

www.fco.gov.uk/resources/ur/pdf/FM-Guidelines

Canllawiau:

<http://www.fco.gov.uk/en/fco-in-action/nationals/forced-marriage-unit/fmconsultation1>

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/righttochoose/;jsessionid=RJvCKydbY6xdtL6pb4KGwkc7lx8Bm0htDstL42PqT3KyF023WYb!-826231897?lang=cy>

C.5 Os oes pryderon bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o briodi dan orfod, dylai asiantaethau a gweithwyr proffesiynol lleol gysylltu â'r Uned Priodasau dan Orfod, lle gall gweithwyr achos profiadol gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad. Dylid cysylltu â'r heddlu a'r adran gofal cymdeithasol hefyd. Dylai pawb sy'n rhan o'r broses gofio bod cyfryngu mewn ymateb i briodas dan orfod yn gallu bod yn hynod o beryglus ac felly **ni ddylai awdurdodau lleol o dan unrhyw amgylchiadau siarad ag aelodau teulu** am briodas dan orfod, oherwydd mae'n bosibl eu bod yn cytuno â'r hyn sy'n cael ei wneud i'r person ifanc, ac efallai eu bod hwy eu hunain yn gysylltiedig â'r broses o fynd â'r person ifanc dramor i'w orfodi i briodi. Gallai ceisio siarad â hwy beryglu diogelwch person ifanc a'i roi mewn mwy o berygl o drais corfforol. Yn y gorffennol, mae gwrthod bod yn rhan o briodasau dan orfod wedi'i gysylltu â'r hyn a elwir yn 'droseddau er anrhydedd'.

Mae'r Uned Priodasau dan Orfod yn rhedeg llinell gymorth gyhoeddus sy'n rhoi cyngor a chymorth i ymarferwyr sy'n delio ag achosion o briodasau dan orfod a dioddefwyr eu hunain. Ffoniwch 020 7008 0151 rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu anfonwch e-bost at fmufco.gov.uk

Am gyngor brys y tu allan i oriau, ffoniwch 020 7008 1500 a gofynnwch am Ganolfan Ymateb Byd-eang y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.gov.uk/guidance/forced-marriage

Mae Atodiad 5 yn cynnwys awgrymiadau am gamau y gall ysgolion ac awdurdodau lleol eu cymryd i godi ymwybyddiaeth a nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â phriodasau dan orfod yn well.

D Plant a phobl ifanc sy'n cael eu cymryd ar wyliau estynedig neu ymweliadau treftadaeth gan eu teulu

“Cultural heritage is important to many people, but it cannot take precedence over standards of childcare embodied in law”.

*Yr Arglwydd
Laming - Adroddiad
ar farwolaeth
Victoria Climbié*

D.1 Pa bryderon bynnag a all godi ynghylch mynd â phlentyn neu berson ifanc am gyfnod estynedig dramor, mae'n bwysig cydnabod y canlyniadau cadarnhaol o ran cynnal iaith, diwylliant a ffydd a allai ddeillio o ymweliad o'r fath. Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion dilys teuluoedd i gynnal cysylltiadau â'u teuluoedd estynedig a'r gwledydd y maent yn hanu ohonynt ar y naill law a'r angen i gyfyngu ar yr amser a dreulir i ffwrdd o'r ysgol, o ran hyd ac amllder yr ymweliadau.

D.2 Cydnabyddir bod absenoldeb hir o'r ysgol yn ystod y tymor yn gallu cael effaith negyddol ar gyrhaeddiad a datblygiad cymdeithasol, yn enwedig yn achos y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n ei chael hi'n anodd dysgu neu integreiddio'n gymdeithasol.

D.3 Gall ysgolion ddefnyddio eu disgrisiwn i ganiatáu hyd at 10 diwrnod o absenoldeb yn ystod y tymor mewn blwyddyn ysgol os credir bod yr amgylchiadau yn gwarantu hynny (rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995). Fodd bynnag, penderfyniad i'r pennaeth yw hwn. Disgwylir i rieni roi gwybodaeth i'r ysgol ymlaen llaw am unrhyw wyliau estynedig ac ymweliadau treftadaeth sydd ar y gweill gan gynnwys dyddiad dychwelyd disgwylidiedig. Lle bo hynny'n bosibl, dylai ysgolion geisio cael manylion cyswllt ar gyfer yr ymweliad yn ogystal â manylion cyswllt perthynas neu ffrind yn y DU y gellid cysylltu â hwy i gael gwybodaeth pe bai angen.

D.4 Os na fydd plentyn yn dychwelyd ar y dyddiad y cytunwyd arno, dylai hyn arwain at bryderon ynghylch ei les a dylid dechrau gwneud ymholiadau ar yr adeg hon. Gall plentyn neu berson ifanc sy'n mynd ar goll o addysg gael ei ystyried yn blentyn sydd mewn

Mae Atodiad 6 yn cynnwys enghraifft o gontract rhwng ysgol a rhieni ar gyfer gwyliau estynedig.

perygl o niwed sylweddol. Dylai'r ysgol ddilyn y gweithdrefnau arferol ar gyfer ymchwilio i absenoldeb disgybl (h.y. galwadau ffôn, llythyrau, gwahoddiadau i gyfarfodydd yn yr ysgol ac ati). Os na cheir esboniad boddhaol, dylid cyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Lles Addysg fel y gellir dod o hyd i'r person ifanc. Os oes unrhyw bryderon ychwanegol, yn enwedig os oes gan ysgol le i bryderu bod disgybl hyn yn cael ei gymryd o'r wlad yn erbyn ei ewyllys, a bod priodas dan orfod yn risg, neu y gallai fod mater amddiffyn plant arall yn gysylltiedig â'r absenoldeb estynedig, dylid cyfeirio'r pryderon hyn ar unwaith at yr awdurdodau statudol i'w hystyried.

D.5 O dan Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)¹⁴, pe bai cyfarfod strategaeth yn cael ei drefnu mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, byddai'r awdurdod addysg yn cael ei hysbysu a'i wahodd i'r cyfarfod.

¹⁴ <http://www.ssiacymru.org.uk/index.cfm?articleid=298>

D.6 Os bydd pedair wythnos o ymdrechion rhesymol i ddod o hyd i'r disgybl yn aflwyddiannus, yna mae gan yr ysgol hawl i ddileu'r plentyn o'r gofrestr ysgol (Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 A (9)(a)). Dim ond ar ôl ymgynghori â'r Gwasanaeth Lles Addysg y dylid gwneud hyn. Yna dylai'r ysgol lunio ffeil trosglwyddo gyffredin i "ddisgybl sydd ar goll" gan nodi 'XXXXXXXX' fel cyrchfan. Dylai'r ffeil hon gael ei lanlwytho ar unwaith ar wefan ddiogel s2s lle caiff ei chadw yn yr adran ar gyfer Disgyblion sydd ar Goll¹⁵.

D.7 Ceir arweiniad pellach a chyingor arfer da ar ddefnyddio s2s a dileu disgyblion o'r gofrestr yn Adran 6 yn ddiweddarach yn y ddogfen.

Arfer da - Ymagweddau lleol

Mae Caerdydd wedi llunio arweiniad ar Wyliau Estynedig i ysgolion ac fel rhan o brotocol Plant sydd ar Goll mae Casnewydd wedi datblygu polisi ar wyliau estynedig i godi ymwybyddiaeth o bryderon pe na bai plentyn neu berson ifanc yn dychwelyd ar y dyddiad y cytunwyd arno. Mae'r ddau bolisi yn cynnwys cyngor i ysgolion, contractau ysgol yn y cartref, ffurflenni er mwyn cofnodi a monitro absenoldeb a hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg/Awdurdod Lleol, yn ogystal â gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryderon difrifol yn codi.

E Plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol; gan gynnwys y sawl sydd wedi cael eu masnachu i'r DU neu o fewn y DU

E.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd sawl cam i ystyried a mynd i'r afael â'r mater o fasnachu pobl yng Nghymru ac ym mis Ebrill 2008 cyhoeddodd ganllawiau ar ddiogelu plant a allai fod wedi cael eu masnachu i Fyrddau Lleol Diogelu Plant ac asiantaethau eraill ledled Cymru. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru hefyd wedi sefydlu Grŵp Trawsbleidiol yn y Cynulliad ar 'Fasnachu Menywod a Phlant'. Un o'r materion allweddol y mae'r grŵp hwn wedi'i nodi yw nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynd ar goll.

¹⁵ Ceir gwybodaeth bellach am y gronfa ddata disgyblion coll ac s2s yn adran 6.

E.2 Yn 2009 comisiynwyd ECPAT UK (End Child Prostitution, Child Pornography and Trafficking of Children for Sexual Purposes) gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i wneud ymchwil i Fasnachu Plant yng Nghymru. Canfu 'Ffiniau Pryder'¹⁶, yr adroddiad dilynol, dystiolaeth o blant a phobl ifanc a allai fod wedi cael eu masnachu i Gymru, o fewn Cymru ac o Gymru. Canfuwyd rhai a fu'n destun masnachu ledled Cymru ac roedd gwybodaeth sylweddol ar gael i ddangos bod plant a phobl ifanc wedi'u masnachu mewn ardaloedd y tu allan i Dde-ddwyrain Cymru. Ychydig iawn o wybodaeth benodol oedd ar gael am sut roedd pob plentyn wedi dod i Gymru, ond yn yr astudiaeth hon, roedd y rhan fwyaf wedi dod i'r DU drwy Dde-ddwyrain Lloegr.

E.3 Ystyr masnachu pobl yw symud pobl gyda'r bwriad o gamfanteisio arnynt, ac felly gall pobl gael eu symud o fewn ffiniau - mae hyn yn golygu y gall dinasyddion y DU gael eu masnachu yn y DU a gall plant a phobl ifanc o dramor sy'n agored i niwed gael eu masnachu ledled y wlad ar ôl iddynt gyrraedd y DU. Gelwir hyn yn 'fasnachu mewnol'. Mae dinasyddion y DU a gaiff eu masnachu yn fewnol yn tueddu i fod yn ferched rhwng 12 ac 16 oed, ac mae rhai ohonynt eisoes yn agored i niwed am eu bod wedi ymddiethrio oddi wrth addysg neu am fod ganddynt broblemau gartref. Caiff y merched hyn eu paratoi at ddibenion rhyw cyn cael eu cludo i fannau eraill yn y DU fel y gellir camfanteisio arnynt yn rhywiol, ond mae'n bwysig cydnabod nad camfanteisio rhywiol yw'r unig reswm pam y gallai plant a phobl ifanc gael eu masnachu ac y gallent gael eu masnachu at ddibenion eraill, er enghraifft gweini mewn cartrefi, neu dwyll cardiau credyd a budd-daliadau.

E.4 Tynnodd yr adroddiad sylw at dri mater craidd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a gaiff eu masnachu: agweddau, gwybodaeth ac arfer. Nododd yr ymchwil fod agweddau ynghylch a allai masnachu pobl ddigwydd yng Nghymru yn amrywio'n fawr, ond roedd rhai ymarferwyr yn ei chael hi'n anodd credu bod masnachu pobl yn digwydd yn eu hardal leol. Cyfeiriwyd at fasnachu pobl fel rywbeth sy'n 'digwydd rhywle arall', yn enwedig yn ninasoedd De-ddwyrain Cymru a chyfeiriodd ymarferwyr at adroddiadau papur newydd fel tystiolaeth o hyn.

¹⁶ <http://www.complantcymru.org.uk/cy/rhestr-cyhoeddiadau/>

Derbyn y posibilrwydd y gall masnachu plant ddigwydd yn lleol yw'r sylfaen ar gyfer pob cam gweithredu a cham ymyrryd yn y dyfodol. Mae'r broses o nodi plant sy'n cael eu masnachu yn dibynnu ar dderbyn y posibilrwydd bod y broblem wir yn bodoli.

E.5 Fel yr argymhellir yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant weithio gydag amrywiaeth o asiantaethau i gymryd mesurau ataliol ac ystyried masnachu fel rhan o'u hasesiad o anghenion lleol, gan gymryd camau i fynd i'r afael â hyn lle bo angen fel rhan benodol o waith cynllunio busnes y Byrddau Lleol Diogelu Plant (a all yn ei dro fod yn rhan o'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc). Dylent hefyd roi hyfforddiant i staff feithrin gwybodaeth, mabwysiadu arfer effeithiol a sicrhau bod plant a phobl ifanc a allai fod wedi cael eu masnachu yn cael eu hamddiffyn bob amser. Dylai Byrddau hefyd gymryd camau i ddatblygu protocolau lleol ar gyfer ymdrin ag achosion lle amheuir bod plant yn cael eu masnachu.

E.6 Mae'n hanfodol sicrhau y caiff gwybodaeth ei chydgysylltu a'i rhannu'n dda ymhlith yr asiantaethau perthnasol. Mae'n annhebygol iawn y byddai plant a phobl ifanc a gaiff eu masnachu i'r wlad yn dod i sylw awdurdodau lleol, yn enwedig os ydynt yn cael eu defnyddio fel gweision domestig neu'n profi camfanteisio rhywiol at ddibenion masnachol. Mae angen i awdurdodau lleol feithrin cysylltiad ag Asiantaeth Ffiniau'r DU (nodwyd y manylion cyswllt yn flaenorol) ac mae angen iddynt hefyd gael perthynas dda â grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd a'u hannog i roi gwybod am unrhyw bryder sydd ganddynt.

E.7 Mae angen i asiantaethau lleol hefyd fod yn ymwybodol o rôl Canolfan Masnachu mewn Pobl y DU sy'n defnyddio'r Dull Atgyfeirio Cenedlaethol. Ers mis Ebrill 2009 mae trefniadau newydd wedi dod i rym ar gyfer pob achos lle yr amheuir bod pobl yn cael eu masnachu. Rhaid i unrhyw achos lle yr amheuir bod pobl yn cael eu masnachu gael ei atgyfeirio drwy'r Dull Atgyfeirio Cenedlaethol. Rhaid i achosion lle yr amheuir bod plant a phobl ifanc yn cael eu masnachu gael eu hatgyfeirio gan y gweithiwr proffesiynol arweiniol neu'r swyddog cyfatebol yn adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol ar ran y Byrddau Lleol Diogelu Plant.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae Bwrdd Lleol Caerdydd ar gyfer Diogelu Plant wedi datblygu ei brotocol amlasiantaeth ei hun ar gyfer diogelu plant a allai fod wedi cael eu masnachu yn dilyn argymhelliad yn 'Safeguarding Children: Working Together under the Children Act 2004, guidance to LSCB' i Fyrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant ddatblygu protocolau o'r fath. Mae'r protocol ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd:

www.caerdydd.gov.uk

F Plant Gweithwyr Mudol

F.1 Mae Cymru yn denu cyfran gynyddol o weithwyr mudol, o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn bennaf. Caiff mwyafrif helaeth y gweithwyr mudol eu cyflogi yn y farchnad llafur di-grefft ac am gyfnodau byr. Yn sgil eu ffyrdd o fyw cyfnewidiol a'r ffaith nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gall llawer o deuluoedd symud o un awdurdod i'r llall heb fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael, gan gynnwys addysg, neu heb wybod yn iawn sut i gael gafael arnynt. Efallai na fyddant yn llwyr ymwybodol o ddyletswydd gyfreithiol rhieni yn y DU fel y'i diffinnir yn Neddf Plant 1989 yn enwedig os yw'n wahanol i'r wlad y maent yn hanu ohoni.

F.2 Mae angen i weithwyr proffesiynol wybod bod yr oedran cydsynio yn amrywio ledled Ewrop, ac mae'n bosibl i berson ifanc 14 oed briodi'n gyfreithlon a bod yn feichiog neu'n rhiant. O dan gyfraith y DU, mae ganddo hawl i gael addysg o hyd, a byddai angen gwneud trefniadau addas.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae gwefan Wrecsam wedi'i chyfieithu i 12 o ieithoedd cymunedol gwahanol (yn ogystal â Chymraeg a Saesneg) ac mae'r adran addysg yn cynnwys gwybodaeth i Rieni a Gofalwyr, gan gynnwys gweithdrefnau mynediad, Presenoldeb yn yr Ysgol, Prydlondeb ac Absenoldeb, a pholisïau'n ymwneud ag Addysg, yn yr ieithoedd hyn i gyd. Mae'r adran hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gymorth gyda digwyddiadau bywyd gan gynnwys ymdrin â thrais domestig.

Arfer da - Ymagwedd leol

Sefydlwyd Prosiect Diogelwch Cymunedol, 'Prosiect y Drws Agored', yn ardal Sir y Fflint sy'n rhoi gwybodaeth a chanllawiau gan ddefnyddio dehonglwyr. Mae'n rhoi help a chymorth i bobl gael gafael ar wasanaethau cyhoeddus, gwybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelwch cymunedol yn ogystal â chynghor ar amrywiaeth eang o faterion gan gynnwys gofal plant, addysg, deddfwriaeth ac ati. Sefydlwyd y prosiect i helpu gwladolion o Wlad Pwyl a symudodd i Sir y Fflint i fyw a dod o hyd i waith ond mae gwladolion eraill yn ei ddefnyddio hefyd, megis Slofaciaid, Lithwaniaid a Latfiaid.

G Plant a phobl ifanc â chefnidir Sipsiwn, Teithwyr neu Roma a phlant o deuluoedd sy'n symud yn gyson

G.1 Plant o deuluoedd Sipsiwn, Teithwyr neu Roma sydd â'r cyfraddau cyrhaeddiad isaf o blith pob grŵp o ddysgwyr a hwy sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio oddi wrth yr ysgol. Mae Gwasanaethau Addysg i Deithwyr Awdurdodau Lleol yn darparu cymorth penodol i'r plant a'r bobl ifanc hyn ac yn rhoi cynghor ar y strategaethau gorau i hyrwyddo cynhwysiant a chyflawniad. Mae ffyrdd o fyw symudol y teuluoedd yn golygu mai'r plant a'r bobl ifanc hyn sydd fwyaf tebygol o fynd ar goll o addysg neu gael addysg fylchog. Gall problemau o ran llety gael effaith; mae teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd anawdurdodedig yn aml yn gorfod symud yn annisgwyl, sy'n rhwystro'r plant rhag cael addysg. Ymhlith y ffactorau eraill a allai gael effaith mae:

- methiant i bontio'n llwyddiannus rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, o ganlyniad i feddylfryd traddodiadol bod addysg gynradd yn ddigonol;
- profiadau negyddol o addysg o ganlyniad i allgáu cymdeithasol a hiliaeth yn y gorffennol;
- yr her sy'n wynebu darparwyr addysg i sicrhau y darperir gwasanaeth cydlynol pan fo teuluoedd yn symud yn aml o le i le o fewn awdurdod lleol, ar draws ffiniau awdurdodau lleol ac, weithiau, i rannau eraill o'r Deyrnas Unedig a thramor.

G.2 Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn yr amgylchiadau hyn yn cael eu hadnabod yn gyflym er mwyn sicrhau y caiff trefniadau addysgol addas eu gwneud ar eu cyfer.

G.3 Mae rhagor o wybodaeth am gynorthwyo Sipsiwn a Theithwyr ar gael yng nghylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion y Cynulliad Cenedlaethol a chylchlythyr 03/2008 'Symud Ymlaen - Addysg i Sipsiwn-Teithwyr'.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae Sir Benfro wedi sefydlu'r Priordy - canolfan ddysgu mewn ysgol gynradd i ddysgwyr rhwng 11 a 18 oed sy'n Sipsiwn-Teithwyr ac nad ydynt mewn addysg brif ffrwd. Mae'r prosiect yn gweithio gyda thua 200 o Sipsiwn-Teithwyr a fyddai wedi gadael addysg ffurfiol yn draddodiadol wrth symud i'r ysgol uwchradd ac mae'n darparu cyfleoedd dysgu'n seiliedig ar gwricwlwm sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion ac sy'n parchu eu diwylliant a'u treftadaeth. Mae dysgwyr heb addysg flaenorol yn dechrau gyda lefelau sylfaenol o lythrennedd a rhifedd ac felly'r amcan cyntaf yw gwella sgiliau darllen. Caiff y disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng modiwlau. Mae'r modiwlau yn cynnwys: gyrru; dinasyddiaeth; hylendid bwyd; Cymru, Ewrop a'r byd; hamdden; iechyd a diogelwch; 'beth yw eich barn chi?' a chwaraeon.

Arfer da - Ymagwedd leol

Yn ogystal â rhoi cymorth i ddysgwyr mewn ysgolion, mae gan Wasanaeth Addysg i Deithwyr Sir y Fflint wasanaeth peripatetig sy'n ymweld â safleoedd a chartrefi teithwyr er mwyn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc sydd heb gofrestru yn unrhyw un o ysgolion y sir.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae Sir Gaerfyrddin wedi datblygu cysylltiadau da â Chastell-nedd Port Talbot sy'n rhoi gwybod iddynt pryd y bydd plant a phobl ifanc yn symud i'w hawdurdod fel y gellir darparu ar eu cyfer neu drefnu eu bod yn cofrestru mewn ysgolion lleol cyn gynted â phosibl. Gwnaed trefniadau â Sir Benfro hefyd a fydd yn rhoi gwybod i Sir Gaerfyrddin pryd y bydd y syrcau yn symud i'r awdurdod. Yna mae'r Adranau Lles Addysg ac Iechyd yr Amgylchedd yn cynnal ymweliadau ar y cyd cyn gynted ag y bydd y teuluoedd yn cyrraedd er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth addysg ar gyfer y plant a'r bobl ifanc drwy gydol eu cyfnod yn y sir.

H Plant a phobl ifanc o deuluoedd digartref sy'n byw mewn llety dros dro, tŷ amlfeddiannaeth neu lety gwely a brecwast

H.1 Gall byw mewn llety dros dro gael goblygiadau difrifol o ran lles plant a phobl ifanc. Gall gosod plant mewn llety dros dro, a hynny'n aml gryn bellter o rwydweithiau cymorth blaenorol neu mewn mannau sy'n golygu bod rhaid iddynt symud yn aml, olygu bod unigolion a theuluoedd yn cwmpo drwy'r rhwyd ac yn datgysylltu oddi wrth addysg, iechyd a systemau gofal cymdeithasol a chymorth lles.

H.2 Gall addysg plant a phobl ifanc ddiodes yn sylweddol os cânt eu gosod mewn llety yn bell o'u hysgol wreiddiol a gall arwain at ganlyniadau addysgol is. Efallai na fyddant yn mynd i'r ysgol mwyach oherwydd problemau cludiant, y costau a'r pellter rhwng eu llety a'u hysgol wreiddiol. Gallant hefyd brofi oedi wrth gael eu derbyn i ysgol os ydynt yn symud i ardal newydd neu efallai y byddant yn teimlo nad oes gwerth gwneud cais am le mewn ysgol tra'u bod yn aros am lety mwy parhaol a allai fod mewn dalgylch gwahanol i'r un y maent yn byw ynddo dros dro ar hyn o bryd.

H.3 Mae'n bwysig bod systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod plant a phobl ifanc o deuluoedd digartref yn cael gwasanaethau addysg yn ogystal ag unrhyw fathau penodol eraill o wasanaethau am fod y teuluoedd hyn yn symud yn rheolaidd ac mae perygl y byddant yn datgysylltu oddi wrth bob gwasanaeth.

H.4 Dylai awdurdodau lleol geisio datblygu protocolau a phrosesau rhwng asiantaethau cefnogi addysg, y Gwasanaeth Lles Addysg, ysgolion ac ati ynghyd â hosteli ac adrannau tai. Dylai'r protocolau a'r prosesau hyn sicrhau y caiff plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed eu cynorthwyo a'u hannog i barhau i fynd i'r ysgol tra'u bod yn byw mewn llety dros dro, a dylid rhoi cyngor i rieni ar weithdrefnau derbyn disgyblion a chymorth gyda phroblemau cludiant.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae gan AALI Conwy gysylltiadau da â hosteli gwely a brecwast i'r digartref yn ei ardal a cheir llinellau cyfathrebu a llwybrau atgyfeirio clir i'w defnyddio pan fo teuluoedd plant yn mynd yn ddigartref. Hefyd, ceir llwybrau hysbysu i'w defnyddio pan fyddant yn symud i lety rhent er mwyn sicrhau nad yw'r teuluoedd hynny'n cael eu hanghofio. Mae'n ceisio ffurfioli'r trefniadau hyn drwy ddatblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth.

I Plant a phobl ifanc o deuluoedd sy'n ffoi rhag trais domestig a'r rhai sy'n byw mewn llochesi i ferched

I.1 Wrth olrhain trywydd plant a phobl ifanc sydd ar goll lle gwyddys y gallai fod problemau o ran cam-drin domestig; ni ddylai'r Gwasanaeth Lles Addysg gysylltu ag aelodau eraill o'r teulu oherwydd gallai hyn beryglu diogelwch y plentyn neu'r person ifanc yn anfwriadol. Rhaid bod yn sensitif iawn wrth wneud ymholiadau a gall hyn arwain at oedi wrth ddod o hyd iddo.

I.2 Mewn achosion o'r fath efallai nad ystyrir ei bod yn briodol rhoi manylion am hanes plentyn neu berson ifanc i ysgol newydd rhag ofn y bydd yn arwain y camdriniwr i'r cyfeiriad cyswllt newydd. Dylai awdurdodau lleol geisio datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau a llochesi sy'n gweithio ym maes trais domestig er mwyn ystyried y broses o sefydlu sianeli cyfathrebu a llwybrau atgyfeirio effeithiol a sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i drosglwyddo cofnodion yn ddiogel lle bo hynny'n bosibl, cysylltu ag awdurdodau lleol blaenorol i'w hysbysu bod y plentyn yn fyw ac iach, a gofyn iddynt a oes unrhyw bryderon eraill e.e. amddiffyn plant.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae Torfaen wedi datblygu protocol gyda'i loches lleol i fenywod fel bod gan staff weithdrefnau y cytunwyd arnynt y gallant eu dilyn pan fo teulu yn symud i un o'i lochesi. Mae hyn yn ffordd o sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n ddiogel ac y caiff mynediad plant i ysgolion dynodedig ei hwyluso.

J Plant a phobl ifanc â phroblemau meddygol neu emosiynol hirdymor

J.1 Mae perygl y bydd plant a phobl ifanc â salwch aciwt neu estynedig yn colli cyfleoedd addysgol a gallant ei chael hi'n anodd ailintegreiddio i ysgolion prif ffrwd o ganlyniad i absenoldebau hir, naill o ganlyniad i salwch neu apwyntiadau rheolaidd mewn clinigau ac ysbytai. Mae perygl mawr iawn y byddant yn mynd ar goll yn y system, yn enwedig pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty i ddarpariaeth mewn awdurdod arall.

J.2 Mae angen mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion yn lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau iechyd ac addysg yn cydweithio mewn modd cefnogol a chydgyssylltiedig i helpu'r plentyn neu'r person ifanc i ddatblygu a chyflawni ei botensial addysgol llawn. Mae hyn yn cynnwys datblygu prosesau i sicrhau bod yr ysbyty a'r AAL cartref yn cyfathrebu'n effeithiol er mwyn helpu plentyn i ailintegreiddio yn yr ysgol ar ôl iddo gael triniaeth am salwch neu anaf aciwt.

J.3 Mae Adran 19 o Deddf Addysg 1996 yn gosod y cyfrifoldeb am ddarparu addysg i blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol ar yr AALI.

J.4 Mae arweiniad manwl ar addysg plant ag anghenion meddwl yng Nghylchlythyr 34/97 - Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol, Cylchlythyr 57/94 - The Education of Sick Children ac Adran 2 o Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

K Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain

K.1 Mae'n dra hysbys bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn debygol o golli addysg o ganlyniad i'r cyfnodau cythryblus sy'n eu hwynebu'n aml. Adran 22 o Ddeddf Plant 1989 (mewnosodwyd gan adran 52 o Ddeddf Plant 2004) sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal. Ymhlith y dyletswyddau cydweithredu o dan adran 25(2)(c) o Ddeddf 2004 mae addysg, hyfforddiant a hamdden.

K.2 Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* - canllawiau a rheoliadau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a sicrhau eu hiechyd, eu haddysg a'u lles¹⁷. Roedd y ddogfen hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cydgysylltwyr addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, i gydgyssylltu cynlluniau addysg personol y plentyn neu'r person ifanc a diwallu ei anghenion addysg ac anghenion y rhai sy'n gadael gofal yn eu hawdurdod lleol. Hefyd, atgyfnerthodd y gofyniad presennol i Blant sy'n Derbyn Gofal gael Cynllun Addysg Personol gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Plant 2004.

K.3 Yn ogystal, mae'n ofynnol i Gartrefi Plant¹⁸ benodi gweithiwr cyswllt i hyrwyddo cyflawniad addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.

¹⁷ <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/childrenfirst/publications/stablelife/?lang=cy>

¹⁸ Rheoliad 11 o Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygiadau amrywiol) 2007

K.4 Rhaid i bob ysgol gael aelod staff dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.¹⁹ Mae'r aelodau staff hyn mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu i nodi plant sy'n derbyn gofal sydd yn yr ysgol yn barod a allai fod yn fwy tebygol o fynd ar goll o addysg.

K.5 Mae sefydlogrwydd mewn addysg yn hanfodol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol. Pan fo plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o'i leoliad gofal, nid yw'n absennol am gyfnodau hir fel arfer. Mae'n bwysig bod eu lle yn yr ysgol yn cael ei gadw iddynt hyd nes bod yr ysgol a'r awdurdod sy'n gyfrifol am eu gofal yn cytuno nad oes angen cadw'r lle mwyach.

K.6 Os bydd newid lleoliad gofal yn golygu bod yn rhaid i'r plentyn newid ysgol, dylai cydweithwyr ym maes addysg a gofal cymdeithasol gydweithio'n agos i nodi darpariaeth addysg briodol gyda'i gilydd. Mae dyletswydd i sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael eu hailgynnwys mewn addysg ymhen ugain niwrnod.

K.7 Mae Rheoliadau Addysg (Derbyn Plant sy'n Derbyn Gofal) (Cymru) 2009²⁰ yn rhoi blaenoriaeth o ran derbyniadau ysgol i blant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid i bob awdurdod derbyn roi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal pan fo ysgolion wedi'u gordanysgrifio. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau derbyn osod plentyn sy'n derbyn gofal mewn ysgol ddethol pan gaiff cais ei wneud y tu allan i'r cylch derbyn arferol. Ni all yr awdurdod derbyn wrthod derbyn y plentyn oni bai y byddai hynny'n amharu'n ddifrifol ar effeithlonrwydd yr addysg neu'r gallu i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Rhaid i awdurdod derbyn sydd am wrthod derbyn plentyn sy'n derbyn gofal atgyfeirio'r achos i Weinidogion Cymru benderfynu arno cyn pen saith niwrnod i'r diwrnod y gwnaed y cais.

¹⁹ Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

²⁰ http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2009/wsi_20090821_we_1

Arfer da - Ymagwedd leol

Yn Wrecsam pan fo plentyn neu berson ifanc yn rhoi'r gorau i dderbyn gofal ac yn dychwelyd at ei rieni (yn enwedig os oedd wedi'i leoli y tu allan i'r sir), dylai'r Cydgysylltydd Plant sy'n Derbyn Gofal sicrhau ei fod yn hysbysu Gwasanaeth Lles Addysg yr awdurdod er mwyn sicrhau bod y plentyn a'i rieni yn cael cymorth i gael darpariaeth addysg briodol unwaith eto.

Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches

K.8 Ar hyn o bryd nid oes data ar wahân ar gael ar nifer y plant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yng Nghymru gan nad yw'r Swyddfa Gartref yn casglu'r data hwn. Awgrymodd arolwg ciplun a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009 bod 140 o blant sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yn cael cymorth gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd pedwar rhan o bump o'r cyfanswm hwn yng Nghaerdydd, Wrecsam a Sir Fynwy.

K.9 Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cymorth a sylfaenol i blant neu bobl ifanc o dan ddeunaw oed sydd ar eu pen eu hunain ac sydd heb berthynas neu warcheidwad yn y DU yn aros o hyd gyda'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal ddaearyddol lle gwnaethant geisio cymorth gyntaf. Mae'r plant a'r bobl ifanc hyn yn aml yn agored iawn i niwed a gallai fod ganddynt broblemau o ran iaith, yn ogystal ag anghenion emosiynol a seicolegol sy'n deillio o drawma posibl oherwydd y digwyddiadau a welsant. Efallai na fyddant wedi cael llawer o addysg yn flaenorol. Mae'r ffactorau hyn yn debygol o fod yn heriau sylweddol i awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae angen gweithio mewn modd amlasiantaethol agos gydag adrannau eraill yr awdurdod lleol ac asiantaethau anstatudol i sicrhau y darperir cymorth arbenigol ychwanegol i ddiwallu anghenion fel y gall y plant a'r bobl ifanc hyn gymryd rhan effeithiol mewn addysg. Mae angen llwybrau cyfathrebu ac atgyfeirio da rhwng y tîm Plant sy'n Ceisio Lloches ar eu Pen eu Hunain a'r Swyddog Plant sy'n Colli Addysg dynodedig neu'r Gwasanaeth Lles Addysg fel y gallant sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn cael eu monitro ac nad ydynt yn mynd o'r golwg.

L Plant a phobl ifanc sy'n cael eu maethu'n breifat

L.1 Argymhellodd Ymchwiliad Victoria Climbié y dylai'r Llywodraeth gymryd rhagor o gamau i gryfhau mesurau diogelu mewn perthynas â threfniadau maethu preifat fel mater o ddiogelwch plant²¹.

Caiff maethu preifat ei ddiffinio yn Neddf Plant 1989 fel gosod plentyn o dan 16 oed (neu 18 oed os yw'n anabl) yng ngofal rhywun arall ar wahân i warcheidwad neu berthynas agos am 28 diwrnod neu fwy, drwy drefniant preifat rhwng y rhiant a'r gofalwr.

L.2 Mae taflen Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ofal maeth preifat, sef 'A ydych chi'n gofalu am blentyn rhywun arall?'²² yn disgrifio senarios fel 'plentyn sydd wedi'i anfon i'r wlad hon i gael addysg neu ofal iechyd am fod ei rieni naturiol yn byw dramor'. Mae hon yn un o blith nifer o sefyllfaoedd lle gallai fod angen cynnal asesiad maethu preifat.

L.3 Llwyddodd adolygiad o drefniadau maethu preifat Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2008 i wrthbrofi'r farn draddodiadol am sefyllfa a chefnidiroedd plant a phobl ifanc a gaiff eu maethu'n breifat. Er bod ambell blentyn a pherson ifanc wedi cael eu hanfon i Gymru i aros gyda ffrindiau a mynd i'r ysgol, nid oedd y rhan fwyaf a oedd yn destun trefniadau maethu preifat yn cyd-fynd â'r darlun traddodiadol hwn. Yn eu plith roedd:

- rhai a oedd ar fechnïaeth gan y llys;
- rhai a oedd wedi gwahanu wrth eu rhieni ac yn aros gyda rhieni ffrindiau;
- rhai a oedd yn derbyn gofal gan bartneriaid perthnasau a oedd bellach wedi marw neu gan gymdogion yn dilyn marwolaeth gofalydd hŷn;
- rhai a oedd wedi cael eu gadael ac yr oedd amheuron ynghylch eu statws ymfudo;
- rhai yr oedd eu rhiant yn cael cymorth adsefydlu neu nad oeddent yn gallu rheoli anghenion y plant fel arall;
- rhai oedd â rhiant sâl a phlant a oedd yn ofalwyr ifanc;
- rhai a anfonwyd i'r DU i weithio.

Canllawiau statudol
i helpu i atal plant a phobl
ifanc rhag colli addysg

Mawrth 2017

Cylchlythyr canllawiau
rhif: 002/2017

²¹ <http://www.victoria-climbie-inquiry.org.uk/finreport/6recommend.htm> argymhelliad 11

²² <http://wales.gov.uk/topics/childrencyongpeople/childrenfirst/publications/fostercarers/?lang=cy>

L.4 Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar nifer y plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u maethu'n breifat yng Nghymru yn dangos y gwnaed 73 o drefniadau maethu preifat o dan oruchwyliaeth newydd rhwng mis Ebrill 2007 a mis Mawrth 2008; mae 10 o'r trefniadau hyn yn ymwneud â phlant a anwyd mewn gwledydd eraill.²³ Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd gan AGGCC wedi nodi bod 44 o blant wedi'u maethu'n breifat yng Nghymru ar 31 Rhagfyr 2007²⁴. Dengys y dystiolaeth o'r adolygiad er bod y nifer yn fach mae'r rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc hyn yn agored iawn i niwed.

L.5 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob oedolyn sy'n gofalu am blant o dramor (oni bai eu bod yn aelodau o deulu'r plant fel y diffinnir gan Ddeddf Plant 1989) roi gwybod i'r awdurdod lleol am drefniant maethu preifat²⁵ (o leiaf 6 wythnos cyn i'r trefniant ddod i rym neu fel arall, dylent wneud hynny ar unwaith, yn sicr o fewn 48 awr i'r plentyn gyrraedd) a rhaid iddynt fod yn destun asesiadau maethu preifat i sicrhau eu bod yn ofalwyr addas a diogel. Mae hwn yn fesur hanfodol i ddiogelu plant a phobl ifanc sydd eisoes yn agored i newid am nad yw eu rhieni neu'u gwarcheidwad cyfreithlon yno i ofalu amdanynt a'u hamddiffyn.

L.6 Canfu adolygiad AGGCC nad oedd mwyafrif helaeth y lleoliadau maethu preifat wedi'u nodi yn sgil y system hysbysu, yn hytrach fe'u nodwyd yn dilyn camau ymyrryd gan y gwasanaethau cymdeithasol wrth iddynt gyflawni cyfrifoldebau eraill neu ar ôl iddynt gael eu hatgyfeirio gan asiantaethau eraill.

L.7 Gall maethu preifat guddio achosion o fasnachu mewn plant o bosibl, oherwydd gall masnachwyr ddefnyddio'r trefniant i gael plentyn wedi'i fasnachu yn eu cartref fel plentyn 'maeth'. Felly mae'n hanfodol ystyried y posibilrwydd bod plant yn cael eu masnachu wrth asesu trefniant maethu preifat.

L.8 Mae angen i adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y Swyddog Lles Addysg/Swyddog Plant sy'n Colli Addysg dynodedig yn ymwybodol o'r trefniadau hyn er mwyn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei gyfeirio at ddarpariaeth addas a'i fonitro'n rheolaidd.

²³ Ystadegau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru (2008C) gwasanaethau Cyfryngol Mabwysiadu a Maethu, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2008

²⁴ Adolygiad o Drefniadau Awdurdodau Lleol Cymru ar gyfer Maethu Preifat 2008. Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ISBN 9780750450140

²⁵ Rheoliad 3 o Reoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu) (Cymru) 2005

M Rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog

M.1 Dengys ymchwil fod beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau yn golygu bod y fam a'r plentyn yn fwy tebygol o brofi canlyniadau addysgol, cymdeithasol, economaidd ac iechyd gwael. Maent yn fwy tebygol ar gyfartaledd (ac yn fwy tebygol nag eraill o gefndir economaidd-gymdeithasol tebyg) o beidio â chwblhau eu haddysg ac mae'r rhan fwyaf o famau a thadau o oedran ysgol yn gadael yr ysgol yn 16 oed heb fawr ddim cymwysterau os o gwbl.

M.2 Argymhellwn y dylai ysgolion hysbysu'r awdurdod lleol neu'r gwasanaeth lles addysg o bob disgybl beichiog cyn gynted â phosibl fel y gellir eu monitro a sicrhau eu bod yn cael addysg a chymorth fel y gallant ailintegreiddio neu barhau â'u haddysg ar ôl rhoi genedigaeth. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â gwasanaethau cymorth priodol i nodi a darparu cymorth i ddiwallu anghenion pob rhiant a chymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu.

M.3 Nid yw beichiogrwydd byth yn rheswm dros wahardd disgybl rhag cael addysg ac ni ddylid defnyddio iechyd a diogelwch fel rheswm i atal disgybl beichiog rhag mynychu'r ysgol. Nid yw'n rheswm dros ddileu disgybl o'r gofrestr ysgol. Rhaid i ysgolion, ar y cyd â'u Swyddog Lles Addysg/Cydgysylltydd Merched Beichiog yn eu Harddegau dynodedig/penodol, ymchwilio'n llawn i bob achos o absenoldeb o'r ysgol ac ni ddylent byth ddileu disgybl o'r gofrestr hyd nes bod ganddynt dystiolaeth i ddangos bod yr ymchwiliad hwn wedi'i gynnal.

M.4 Mae arweiniad cynhwysfawr ar ddyletswyddau AALLau, cyfrifoldebau ysgolion, y ddarpariaeth addysgol ar gyfer rhieni ifanc a merched ifanc beichiog yn Adran 2, cylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae cynllun 'Cyfle' Wrecsam, sef uned atgyfeirio ar gyfer disgyblion sy'n famau ifanc, yn darparu gwasanaeth integredig gyda Gwasanaeth Bydwreigiaeth Ysbyty Maelor Wrecsam, gan gynnig addysg TGAU a chymorth arall i bob merch ysgol feichiog neu famau o oedran ysgol. Ceir crèche ar y safle hefyd. Mae'r merched yn aros yn yr uned am ryw dymor a hanner ar ôl iddynt gael eu babis, ac ar ôl hynny byddant yn dychwelyd i'r ysgol fel arfer ond bydd rhai yn gweld nad yw hyn yn bosibl. Felly byddant yn aros yn uned 'Cyfle' tan ddiwedd Blwyddyn 11 ac yn sefyll eu harholiadau TGAU yno yn lle dychwelyd i'r ysgol. Mae gan yr uned gyfradd llwyddiant dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r merched yn dod o ysgolion yn Wrecsam ond mae'r uned yn derbyn disgyblion a gaiff eu hatgyfeirio gan awdurdodau cyfagos.

N Plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd

N.1 Ni ddylai plant a phobl ifanc sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol golli addysg. Mae disgyblion a gaiff eu gwahardd am gyfnod penodol yn dychwelyd i'w hysgol ar ddiwedd eu gwaharddiad. Amlygodd Comisiynydd Plant Cymru a'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb fod nifer y gwaharddiadau o ysgolion yn debygol o fod yn llawer uwch na'r ffigurau swyddogol, gan fod arferion gwahardd anghyfreithlon yn cael eu defnyddio. Yn Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol i asesu ac olrhain yr wybodaeth a gasglwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ar waharddiadau anghyfreithlon. At hynny, mae ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth Addysg heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a fydd yn mynd i'r afael â nifer o faterion gan gynnwys amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth ledled Cymru er mwyn datblygu addysg gyson o ansawdd i'r rhai a addysgir y tu allan i ysgolion prif ffrwd, gan gynnwys disgyblion wedi'u gwahardd. Bydd cyflwyno dull o gasglu data gan awdurdodau lleol o 2010 ymlaen ar Lefelau Blynyddol Disgyblion sy'n Cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) yn helpu i gefnogi'r datblygiadau hyn.

O Plant a phobl ifanc a oedd yn arfer cael addysg yn y sector annibynnol ond sydd wedi cael eu gwahardd neu eu tynnu'n ôl

O.1 Rhaid i bob ysgol annibynnol roi ystyriaeth ddyledus i arweiniad statudol ac anstatudol y Cynulliad Cenedlaethol ar ddiogelu ac addysgu dysgwyr.

O.2 Nid yw'n ofynnol i ysgolion annibynnol ac ysgolion nas cynhelir roi gwybod i awdurdodau lleol pan fydd plant o oedran ysgol gorfodol yn gadael y gofrestr na rhoi gwybod iddynt ble mae'r plant yn mynd os yw'n hysbys iddynt, ond byddem yn annog awdurdodau lleol yn gryf i ystyried datblygu protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth am symudiadau disgyblion a sefydlu atgyfeiriadau o'r sector ysgolion annibynnol.

P Gofalwyr Ifanc

P.1 Y Caiff gofalwyr ifanc eu diffinio fel plant a phobl ifanc sy'n helpu i ofalu am aelod o'r teulu sy'n sâl, yn anabl, yn profi problemau iechyd meddwl neu'n camddefnyddio sylweddau.²⁶

P.2 Yng Nghymru, cofnododd Cyfrifiad 2001 fod tua 860 o blant a phobl ifanc o dan 18 oed yn darparu dros 50 awr o ofal bob wythnos. O blith y plant hyn, roedd 240 o oedran ysgol gynradd. Caiff plant a phobl ifanc sy'n darparu llai na 50 awr o ofal bob wythnos eu hystyried yn ofalwyr ifanc hefyd.

P.3 Mae gwaith ymchwil ym maes gofalwyr ifanc yn dangos eu bod yn treulio llawer o amser yn gofalu am rieni a phlant eraill.²⁷ Gall y cyfrifoldebau gofal hynny amharu ar allu gofalwyr ifanc i arfer eu hawliau fel y'u hamlinellir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn gan gynnwys yr hawl i gael addysg, yr hawl i ymlacio a chwarae a'r hawl i ddisgwyl bod eraill yn parchu eu barn.

²⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru. Monitro Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru. 2008
<http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/ocsropage/2008monitor?lang=cy>

²⁷ Bywyd llawn gofal (Mehffin 2009) a wnaed gan Powys Carers ar ran Comisiynydd Plant Cymru. Arweiniwyd yr ymchwil gan ofalwyr ifanc eu hunain, a gasglodd farn a safbwyntiau o bedwar ar bymtheg o'r 22 o brosiectau gofalwyr ifanc yng Nghymru. http://powyscarers.org.uk/s/index.php?option=com_content&view=category&layout=blog&id=7&Itemid=66

P.4 Dylai ysgolion weithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r amrywiaeth o gymorth a chefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr ifanc a dylent ystyried neilltuo aelod o staff i fod yn gyfrifol am ofalwyr ifanc. Dylent hefyd gyfrannu at gynlluniau sy'n eu cynorthwyo, gan weithio gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau gwirfoddol.

P.5 Mae Adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn eu hardal, drwy ddarparu gwasanaethau a, lle bo hynny'n bosibl, hyrwyddo'r arfer o fagu plant yn eu teuluoedd. Dylid bod yn sensitif iawn wrth drefnu unrhyw atgyfeiriadau at asiantaethau allanol neu gynnal trafodaethau â hwy, gan gydnabod y gall fod ofn ar blentyn neu berson ifanc y bydd yn cael ei "roi mewn gofal" os ystyrir nad yw ei rieni'n gallu ymdopi.

P.6 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio adnodd hyfforddi ar gyfer ysgolion, sef 'Gofalu am Ofalwyr Ifanc'²⁸ er mwyn helpu ysgolion i nodi gofalwyr ifanc, cyfathrebu â hwy a'u helpu. Ceir rhagor o wybodaeth hefyd yn Adran 2, cylchlythyr Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion y Cynulliad.

Q Plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant

Q.1 Mae gan bob gwasanaeth ac asiantaeth gyfrifoldeb dros blant sy'n destun Cynllun Amddiffyn Plentyn. Os bydd plentyn sy'n destun Cynllun Amddiffyn Plentyn yn mynd ar goll, rhaid i'r asiantaeth sydd wedi codi'r pryder roi gwybod i'r Cydgysylltydd Amddiffyn Plant ar unwaith.

Q.2 Os bydd pryderon yn cael eu codi am les plentyn ar unrhyw adeg, ac yn enwedig os ystyrir y gallai'r plentyn fod, neu os yw yn dioddef niwed sylweddol, rhaid dilyn gweithdrefnau sefydledig y Bwrdd Lleol Diogelu Plant²⁹.

²⁸ <http://Wales.gov.uk/topic/health/publications/socialcare/carers/carersreport3?lang=en>

²⁹ Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 - ISBN 0 7504 8910 3

R Plant a phobl ifanc a allai ddioddef trosedd - absenoldeb heb esboniad

R.1 O dan rai amgylchiadau gall plentyn neu berson ifanc fod yn absennol heb esboniad hefyd. Nid yw'r rhan fwyaf o achosion yn rhai difrifol ac mae'r plentyn neu'r person ifanc yn dychwelyd adref yn gyflym neu nid oes rheswm i gredu ei fod mewn unrhyw berygl difrifol. Fodd bynnag, mae achosion mwy difrifol, gan gynnwys yr achosion hynny lle gallai plentyn neu berson ifanc fod yn destun trosedd, megis cael ei gipio gan ei riant, neu gael ei gipio gan ddieithryn. Mae'n arfer gorau i'r ysgol gysylltu â'r rhieni ar unrhyw ddiwrnod y mae disgybl yn absennol heb esboniad (h.y. cysylltu ar y diwrnod cyntaf), gan gynnwys achosion lle nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn mynd i wersi ar ôl cofrestru. Drwy gysylltu â rhieni/gofalwyr mae'r ysgol yn sicrhau hefyd eu bod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw'r plentyn yn yr ysgol sy'n golygu y gall y rhiant/gofalwr gymryd camau lle bo angen i sicrhau bod y plentyn yn ddiogel.

R.2 Os nad oes ateb, neu os mai unigolyn arall ar wahân; i'r:

- rhiant/gofalwr sy'n ateb ac nad yw'r ysgol wedi cael sicrwydd bod y plentyn neu'r person ifanc gartref neu y gwyddys ei fod yn ddiogel; neu
- os atebodd y rhiant/gofalwr ond nad yw'r plentyn gyda hwy ac nad ydynt yn poeni amdano.

Dylai Athro Dynodedig yr ysgol ar gyfer Amddiffyn Plant ystyried i ba raddau y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed, er mwyn penderfynu a yw'n briodol atgyfeirio'r plentyn at ofal cymdeithasol a/neu'r heddlu. Mae asesu i ba raddau y mae plentyn yn agored i niwed yn galw am gyfuniad o wybodaeth broffesiynol a phrofiad o faterion sy'n ymwneud â lles plant a gwybodaeth am amgylchiadau lleol.

Yn Atodiad 7 mae 'Ffurflen Asesu i ba Raddau y mae Plentyn yn Agored i Niwed'; efallai y byddai'n ddefnyddiol ystyried y cwestiynau hyn wrth benderfynu a ddylid atgyfeirio plentyn neu berson ifanc at wasanaeth cymdeithasol.

S Plant a Phobl Ifanc sy'n Rhedeg i Ffwrdd

S.1 Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd ar goll o gartref yn rheolaidd, maent mewn perygl o golli addysg, ond maent hefyd mewn perygl o ran materion sy'n ymwneud â diogelu a chyfiawnder troseddol. Dengys gwaith ymchwil mai gwrthdaro teuluol a phroblemau personol fel cydberthnasau, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl, bwlio a thriwantaeth yw'r prif achosion sy'n gwneud i blant a phobl ifanc redeg i ffwrdd. Beth bynnag yw'r rheswm, mae rhedeg i ffwrdd yn arwydd yn aml bod rhywbeth o'i le ym mywyd y plentyn neu'r person ifanc a rhaid ymateb yn gyflym. Mae'n bwysig hefyd cydnabod bod cam-drin yn gallu gwneud i blant neu bobl ifanc fynd ar goll, ac yn yr achosion hyn rhaid dilyn trefniadau amddiffyn plant ar y cyd â'r awdurdodau perthnasol.

S.2 Yr un risgiau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu ni waeth sawl gwaith y maent wedi rhedeg i ffwrdd o gartref. Mae pobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd o gartref bum gwaith yn fwy tebygol na'u cyfoedion o brofi problemau'n ymwneud â chyffuriau, saith gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael eu cam-drin yn gorfforol ac mae bron i hanner y boblogaeth sydd yn y carchar yn dweud eu bod wedi rhedeg i ffwrdd fel plant. Bydd un o bob pedwar ar ddeg yn troi at gardota, lladrata neu gyffuriau a phuteindra³⁰.

S.3 Mae gan ysgolion, am eu bod yn cadw cofrestrau dyddiol, rôl bwysig o ran gweld pan na fydd plentyn neu berson ifanc yn yr ysgol. Mae gan y gwasanaethau addysg rôl hanfodol i'w chwarae o ran atal/ymyrryd yn gynnar drwy roi gwybod i blant a phobl ifanc am y ffactorau sy'n gwneud i bobl ifanc redeg i ffwrdd, y risgiau sy'n eu hwynebu wedi iddynt redeg i ffwrdd, a'r gwasanaethau sydd ar gael i'w cynorthwyo.

S.4 Bydd gan Fyrddau Lleol Diogelu Plant brotocolau sefydledig a gweithdrefnau manwl i ysgolion eu dilyn ar gyfer plant neu bobl ifanc sydd wedi mynd ar goll o ofal neu sy'n derbyn gofal, yn destun cynllun amddiffyn plentyn neu'n hysbys i asiantaeth statudol am fod pryderon yn datblygu am ei ddiogelwch. Bydd hyn yn cynnwys

³⁰ 'Uned Allgáu Cymdeithasol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Rhedeg i Ffwrdd o Gartref 2002

hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gweithiwr cymdeithasol neu'r rheolwr tîm penodedig.

S.5 Ymhob achos arall dylai'r pennaeth roi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Lles Addysg am bob person ifanc nad yw'n glir neu nad yw'n hysbys ble mae neu os oes unrhyw amheuaeth bod y plentyn neu'r person ifanc wedi rhedeg i ffwrdd. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn gwneud ymholiadau, gan gynnwys ymweld â'r cartref, ac yn cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol, swyddog amddiffyn plant yr awdurdod lleol a'r heddlu i sicrhau y cofnodir bod y plentyn neu'r person ifanc ar goll.

S.6 Ceir arweiniad pellach ym Mhennod 9 Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

4 Gwaith Trawsffiniol a Gwaith Partneriaeth

Gwneud ymholiad i awdurdod lleol arall

4.1 Dylid gwneud ymholiad dros y ffôn yn gyntaf. Dylid defnyddio systemau diogel i rannu gwybodaeth bersonol yn briodol.

Os darperir cyfeiriad plentyn neu berson ifanc, yna dylid nodi'r unigolyn cywir yn yr awdurdod lleol arall yn gyntaf. Os bydd angen anfon rhagor o wybodaeth - gellir anfon negeseuon diogel drwy ddefnyddio s2s. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diweddarau manylion y cysylltiadau cenedlaethol o ran plant sy'n colli addysg ac yn eu rhoi i awdurdodau lleol yn rheolaidd.

4.2 Ni ddylai awdurdodau lleol wneud ymholiadau cyffredinol ar e-bost neu drwy'r system negeseuon ar s2s. Ystyrir bod anfon rhestr o blant at bob awdurdod lleol a gofyn iddynt chwilio eu cronfeydd data amdanynt yn arfer gwael a bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn anwybyddu'r cais hwn, gan ei fod yn waith llafurus ac aneffeithiol. Y peth gorau i awdurdodau lleol ei wneud yw cynnal archwiliadau lleol trylwyr yn eu hawdurdod eu hunain oherwydd efallai bod gan asiantaethau eraill neu gyd-ddisgyblion y plentyn neu'r person ifanc sydd ar goll wybodaeth am yr ardal ddaearyddol gyffredinol mae'r teulu wedi symud iddi. Yna gall awdurdodau dargedu'n fwy penodol ardaloedd y credir eu bod yn gysylltiedig â'r plentyn neu'r person ifanc y maent yn chwilio amdano.

4.3 Mewn ardaloedd lle mae'n gyffredin i blant a phobl ifanc deithio y tu allan i'r awdurdod lleol i fynd i'r ysgol, neu mewn ardaloedd lle mae teuluoedd yn mudo yn dymhorol, dylai awdurdodau lleol ddatblygu protocolau gyda'u cymdogion i ddilyn trywydd y dysgwyr hyn yn enwedig ar gyfnodau pontio.

Yn Atodiad 8 mae ffurflen enghreifftiol ar gyfer ymholiadau i awdurdodau lleol.

5 Prosesau rhannu gwybodaeth a data

5.1 Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn ymyrryd yn gynnar i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gwasanaethau y mae eu hangen arnynt, gan gynnwys cymorth addysgol. Mae'n hanfodol hefyd amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camdriniaeth ac esgeulustod, a'u hatal rhag troseddu. Mae gan asiantaethau a gweithwyr proffesiynol gyfrifoldeb yn unigol ac ar y cyd i gyflawni dyletswydd gofal iddynt.

5.2 Wrth gyflawni'r ddyletswydd gofal honno, mae dyletswydd hefyd i rannu a chyfnewid gwybodaeth, yn enwedig o ran amddiffyn plant. O dan yr amgylchiadau hyn, ni ddylai unrhyw beth rwystro'r broses o rannu a chyfnewid gwybodaeth fel y gellir cynnal asesiad priodol i nodi plant sy'n agored i niwed, anghenion ac, yn bwysicach oll, risgiau er mwyn llywio camau gweithredu priodol.

5.3 Er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac yn enwedig Erthygl 8 o Gonfensiwn Ewrop, byddai angen i unrhyw achos o rannu gwybodaeth fod yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn unol ag un o'r nodau cyfreithlon a amlinellir yn yr Erthygl e.e. amddiffyn hawliau pobl eraill. O ran cyfraith gwlad ar gyfrinachedd, os na roddwyd caniatâd i ddatgelu gwybodaeth, byddai'n rhaid dangos bod datgelu'r wybodaeth o fudd pwysig i'r cyhoedd er mwyn cyfiawnhau ei rhyddhau - fel arfer, byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae diogelwch neu les y plentyn mewn perygl os na rennir y wybodaeth.

5.4 Mae asiantaethau ac ymarferwyr o dan rwymedigaethau amrywiol i gynorthwyo asiantaethau eraill a chydweithio â hwy i geisio amddiffyn plant rhag niwed a diwallu eu hanghenion. Yn aml bydd hyn yn cynnwys yr angen i rannu gwybodaeth bersonol am blant a phobl ifanc. Mae ymarferwyr yn pryderu'n fynych am gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data a deddf Hawliau Dynol 1998 a gall hyn olygu eu bod yn ceisio osgoi pob risg wrth rannu gwybodaeth. Er mwyn goresgyn hyn, dylai awdurdodau lleol geisio datblygu Fframwaith Rhannu Gwybodaeth sy'n egluro o dan ba amgylchiadau y gall ac y dylai gwybodaeth gael ei rhannu rhwng yr asiantaethau sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith nad oes trefniadau neu ganiatâd penodol ar gael i rannu gwybodaeth yn golygu na all asiantaethau

rannu gwybodaeth pan fo lles plentyn mewn perygl. Mae'n dal yn briodol i rannu gwybodaeth bersonol heb dorri'r Ddeddf Diogelu Data ar yr amod bod angen rhannu'r wybodaeth honno i gyflawni swyddogaethau statudol.

Caiff data ei rannu heb ganiatâd os oes pryder rhesymol y gallai plentyn fod mewn perygl o niwed arwyddocaol a gellir dangos bod rhannu gwybodaeth yn 'angenrheidiol er mwyn gwarchod buddiannau hanfodol y gwrthrych data.' Gallai'r amgylchiadau hyn drechu gofyniad proffesiynol neu asiantaethol i gadw gwybodaeth yn gyfrinachol. Dylid wedyn ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys:

5.5 Mae Deddf Plant 1989 yn datgan y dylai pob asiantaeth gyhoeddus gydweithio i gyfnewid a rhannu gwybodaeth er lles a diogelwch plant yn yr ardal.

5.6 Mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd benodol i gydweithio er mwyn gwella lles plentyn (a.25) ac mae'n awgrymu bod dyletswydd i rannu gwybodaeth er mwyn gwneud gwaith cynllunio strategol, a rhoi trefniadau ar waith i'w gwneud yn haws rhannu gwybodaeth am blant unigol er mwyn gwella'u lles.

5.7 Mae Adran 28 Deddf 2004 hefyd yn cynnwys dyletswydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant (a gynhwysir yn Neddf Addysg 2002 hefyd).

5.8 Mae Adran 27 o Ddeddf Plant 1989 yn datgan y gall awdurdod lleol ofyn am gymorth gan unrhyw awdurdod lleol ac asiantaethau eraill wrth gyflawni ei ddyletswydd i roi cymorth a gwasanaethau i blant mewn angen a bod gan staff Addysg ddyletswydd i gasglu gwybodaeth am bryderon.

5.9 Mae Adrannau 25 ac 28 o Ddeddf Plant 2004 a Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ac asiantaethau gydweithio i wella lles plant a diogelu a hyrwyddo lles pob plentyn. Mae perygl y bydd plant sydd ar goll o addysg

yn profi allgáu cymdeithasol ac mae'n annhebygol y byddant yn gallu cyflawni yn y dyfodol heb ddarpariaeth addysgol gyson.

5.10 Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol plant a theuluoedd yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys dileu neu leihau ffactorau risg.

5.11 Mae Adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998 yn rhoi awdurdod i awdurdodau perthnasol (ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol iddynt) ddatgelu gwybodaeth lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n fuddiol at ddibenion atal neu leihau troseddau a nodi a dal troseddwr neu'r sawl yr amheuir iddynt gyflawni trosedd.

5.12 Mae Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 yn rhoi canllawiau ar rannu gwybodaeth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae'n cwmpasu pob gwasanaeth, gan gynnwys iechyd, addysg, y blynyddoedd cynnar a gofal plant, gofal cymdeithasol, troseddau ieuencid, hamdden, yr heddlu, gwasanaethau cynghori a chymorth.

<http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/safeguardingunder2004act;jsessionid=RJvCKydbY6xdtL6pb4KGwkc7lx8Bm0htDstlL42PqT3KyF023WYb!-826231897?lang=cy>

5.13 Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru wedi datblygu arweiniad ar Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru er mwyn galluogi darparwyr gwasanaethau a sefydliadau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â lles unigolyn i rannu gwybodaeth mewn ffordd gyfreithlon a deallus.

5.14 Mae'n gymwys i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a'r sefydliadau preifat hynny sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau perthnasol i'r sector cyhoeddus ac sy'n darparu gwasanaethau'n ymwneud ag iechyd, addysg a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru. Yn benodol, mae a wnelo â'r sefydliadau hynny sy'n dal gwybodaeth am unigolion ac a allai deimlo ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol rhannu'r wybodaeth honno ag eraill. Mae enghreifftiau o gytundebau rhannu gwybodaeth strategol a thempledi ar gyfer protocolau

rhannu gwybodaeth ar gael ar y wefan a allai fod yn ddefnyddiol i awdurdodau a sefydliadau sy'n ystyried datblygu'r rhain.

<http://www.wales.nhs.uk/sites3/home.cfm?orgid=702>

Hysbysiadau Preifatrwydd

5.15 Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi argymhell y dylid defnyddio'r term 'Hysbysiad Preifatrwydd' yn lle'r term 'Hysbysiad Prosesu Teg'. Awgrymir neu argymhellir fel mater o arfer da bod awdurdodau lleol yn diwygio'r rhain fel eu bod yn datgan y gall yr Awdurdod Lleol rannu data gydag awdurdodau lleol eraill lle bo angen i'w helpu i gyflawni eu dyletswyddau, e.e. sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn colli addysg.

Cofnodi camau gweithredu

5.16 Dylid gwneud yn siŵr y cofnodir yr holl gamau a gymerir i ddod o hyd i blentyn; dylai gwybodaeth sy'n hysbys neu sy'n dod i law, dyddiad ac amser, pobl y siaradwyd â hwy, penderfyniadau a champau gweithredu - a'r rhesymau dros eu cymryd, gael eu cofnodi yn y fan a'r lle. Os bydd yr heddlu yn cael ei hysbysu'n ddiweddarach bod y plentyn ar goll, neu os canfyddir bod y plentyn wedi dioddef trosedd, bydd angen cofnodion llawn. Efallai y bydd angen rhain hefyd os cynhelir Adolygiad Achos Difrifol (SCR) wedyn.

5.17 Ceisiwch sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar fformat sy'n golygu y gellir ei throsglwyddo i wasanaethau eraill er mwyn helpu i ddod o hyd i'r plentyn mewn ardaloedd eraill.

5.18 Fel yn achos pob cofnod dysgwyr, dylid cadw'r data'n gyfrinachol a'i storio mewn man diogel.

Yn Atodiad 9 a 10 mae enghreifftiau o'r ddogfen Rhestrau Gwirio ar gyfer 'Plant sy'n Colli Addysg' Atodiad 9 - Rhestr Wirio ar gyfer Ysgolion ac Atodiad 10 - Rhestr Wirio ar gyfer awdurdodau lleol/Gwasanaeth Lles Addysg.

Systemau Data

5.19 Nid yw'n ofynnol sefydlu systemau TG newydd ar gyfer plant neu bobl ifanc nad ydynt yn cael addysg addas, ond dylai awdurdodau lleol ystyried ffyrdd o ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Reoli presennol neu lunio taenlenni sy'n gallu cofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- manylion personol plentyn neu berson ifanc;
- y dyddiad y gadawodd y darparwr addysg heb roi gwybod i ble roedd yn symud neu'r dyddiad y cafodd ei gofrestru neu'i atgyfeirio os yw'n newydd i'r ardal;
- y lleoliad addysg diwethaf sy'n hysbys;
- y ddarpariaeth a argymhellwyd ac a gafwyd.

5.20 Yn dibynnu ar drefniadau lleol, cynghorir y dylai uwch reolwyr, Aelodau Etholedig a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc neu Fyrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant fonitro prosesau, niferoedd a chynnydd yn rheolaidd. Mae'n ddefnyddiol hefyd asesu tueddiadau a sicrhau y caiff darpariaeth a gwasanaethau cymorth priodol i grwpiau sy'n agored i niwed eu cydnabod mewn gwaith cynllunio a datblygu strategol.

6 Cyfrifoldebau a Chamau Gweithredu i Ysgolion ac Awdurdodau Lleol

6.1 Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod pob ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n colli addysg a bod gweithdrefnau lleol yn cael eu cymhwyso'n gyson gan ysgolion i ailsefydlu'r cysylltiad â nhw a chasglu gwybodaeth ynglŷn â'r dysgwyr yn symud ysgol neu'n trosglwyddo o un ysgol i'r llall. Dylent weithio gydag ysgolion i ddatblygu a gweithredu modelau arfer da a sicrhau bod ysgolion yn cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

6.2 Mae ysgolion mewn sefyllfa i nodi problemau a materion yn gyflym, ynghyd â'r posibilrwydd o broblemau yn y dyfodol, ac ymyrryd yn effeithiol, gan weithio gyda gwasanaethau eraill lle y bo angen. O ganlyniad i'r cyswllt dyddiol a gânt â phlant a phobl ifanc, maent mewn sefyllfa dda i sylwi pan fydd plentyn neu berson ifanc wedi mynd ar goll.

6.3 Problem ddiogelwch yw problem plant yn colli addysg. I sicrhau bod ysgolion yn rhoi systemau effeithiol ar waith i fonitro plant a phobl ifanc sydd ar goll o addysg dylai fod ganddynt Gydgyssylltydd Amddiffyn Plant dynodedig sy'n cael ei hysbysu am unrhyw 'blant sydd ar goll' (ac unrhyw adeg pan fydd nifer uchel o ddisgyblion yn absennol gan y gallai hyn ddangos risg neu bryderon). Dylent fod yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer hysbysu'r awdurdod o'r broblem wedi'u dilyn. Mae Plant sy'n Colli Addysg yn fater diogelu, ond cyfrifoldeb y pennaeth a'r Bwrdd Llywodraethu ydyw yn bennaf.

6.4 Dylai fod gan ysgolion ganllawiau clir ynghylch y camau i'w cymryd os byddant yn pryderu ynghylch lleoliad unrhyw blentyn neu berson ifanc.

6.5 Mae cyrff llywodraethu yn atebol am sicrhau bod gan eu hysgol bolisiau a gweithdrefnau effeithiol i ddiogelu plant a phobl ifanc a hyrwyddo'u lles yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad 'Diogelu Plant Mewn Addysg'³¹, ac am fonitro i ba raddau y mae'n cydymffurfio â hwy. Dylai pob ysgol sicrhau bod y corff llywodraethu (neu'r perchennog yn achos ysgolion annibynnol) yn dynodi llywodraethwr i gymryd cyfrifoldeb am faterion diogelwch plant.

³¹ Diogelu Plant Mewn Addysg: Rôl Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002. Cylchlythyr Rhif 005/2008

6.6 Pan ymddengys fod plentyn neu frodyr a chwiorydd wedi mynd ar goll neu wedi cael eu tynnu o ysgol a gynhelir yng Nghymru heb i'w rhiant/gofalwr hysbysu'r ysgol neu heb i'r ysgol gael gwybod am ysgol newydd, dylai'r ysgol geisio cysylltu â'r rhieni/gofalwyr. Os na lwyddir i gysylltu â'r rheini, dylai'r ysgol hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg ar unwaith a fydd yn gweithio gyda'r ysgol ac yn gwneud pob ymdrech i geisio dod o hyd i leoliad y plentyn neu'r person ifanc cyn gynted ag yr amheuir bod y cyfnod o absenoldeb yn anarferol mewn unrhyw ffordd.

Yn Atodiad 11 mae arfer da a argymhellir - ceir canllawiau ar gamau i ysgolion eu cymryd a chyngor llinell amser.

6.7 Rhaid i benaethiaid a swyddogion Lles addysg wneud pob ymdrech i olrhain y plentyn neu'r person ifanc. Dylid ystyried y canlynol:

- hyd yr absenoldeb;
- lefel y pryder;
- y risgiau canfyddedig i'r plentyn neu'r person ifanc sy'n absennol.

6.8 Bydd camau'r ysgol a chyflymdra'r ymateb yn dibynnu ar ba mor agored i niwed yw'r plentyn neu'r person ifanc. Mae asesu bod yn agored i niwed yn gofyn am gyfuniad o wybodaeth broffesiynol a phrofiad o faterion Lles plant a gwybodaeth am amgylchiadau lleol. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid i ysgolion ymgynghori â'r aelod o staff dynodedig â'r brif gyfrifoldeb dros faterion amddiffyn plant.

Yn Atodiad 7 mae 'Ffurflen Asesu i Ba Raddau y mae Plentyn yn Agored i Niwed' a allai gynorthwyo wrth wneud y penderfyniad i atgyfeirio.

6.9 Mewn achosion lle nad oes unrhyw bryderon penodol, gellir llunio cynllun gweithredu cytûn ar gyfer Swyddog Lles Addysg yr ysgol ac asiantaethau eraill a allai fod mewn cysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc. Bydd hyn yn cynnwys cynnal chwiliad lleol,

o fewn amserlen ofynnol, gan gymryd camau dilynol priodol os na ddeuir o hyd i'r plentyn o fewn ardal yr awdurdod.

Yn Atodiad 9 a 10 mae enghreifftiau o'r ddogfen Rhestrau Gwirio ar gyfer 'Plant sy'n Colli Addysg' Atodiad 9 - Rhestr Wirio ar gyfer Ysgolion ac Atodiad 10 - Rhestr Wirio ar gyfer awdurdodau lleol/Gwasanaeth Lles Addysg.

6.10 Gallai'r rhain gynnwys ymchwiliadau gyda:

- gofal cymdeithasol plant
- y gymdogaeth a thai
- gwasanaethau lles addysg mewn awdurdodau lleol cyfagos.

Arfer da - Ymagwedd leol

Roedd Abertawe yn pryderu am deulu a oedd wedi diflannu yn sydyn iawn ac wedi methu â dod o hyd iddynt ar ôl ymchwiliad helaeth. Gwnaethant gysylltu â'r Awdurdod Gwasanaethau Iechyd Teuluol i holi a allent eu helpu i ddod o hyd i'r teulu. Gallai'r Awdurdod gadarnhau bod y teulu wedi cofrestru â meddyg teulu mewn ardal newydd ond ni allai roi unrhyw wybodaeth bersonol na manylion eraill ar wahân i gadarnhau'r ardal awdurdod lleol newydd yr oedd y teulu yn preswyllo ynddi. Yn sgîl y wybodaeth hon gallai Abertawe ymhél â'r mater gyda'r Gwasanaeth Lles Addysg gan edrych ar y bobl a dderbyniwyd i'r awdurdod lleol hwnnw.

6.11 Mewn achosion lle mae pryderon penodol ynghylch plentyn neu berson ifanc, rhaid dilyn llwybr mwy rhagweithiol a thrylwyr. Bydd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed:

- sydd â chofnod o bresenoldeb gwael yn yr ysgol; neu
- lle ceir tystiolaeth o ddull rhianta gwael neu amhriodol.

6.12 Rhaid rhoi'r flaenoriaeth uchaf i unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant neu lle y mae pryderon amddiffyn plant penodol, sydd wedi bod yn absennol yn barhaus, heb eglurhad, a dylai ysgolion roi gwybod i'w gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol ar unwaith.

6.13 I'r rhan fwyaf o deuluoedd, mae achosion o symud a newid ysgol yn ddigwyddiadau a gynllunnir a gellid casglu gwybodaeth am y broses arfaethedig o symud neu drosglwyddo o un ysgol i'r llall. Gall fod yn ddefnyddiol wrth olrhain plant a phobl ifanc ac arbed amser yn ddiweddarach, os gellir gofyn i'r rhiant gwblhau ffurflen i roi'r wybodaeth hon.

Efallai y bydd o gymorth i ysgolion gynnwys y ffurflen hon yn eu polisi presenoldeb a'u pecyn derbyn i rieni, gan gyfeirio ati yn y cytundeb ar gyfer y cartref a'r ysgol ynghyd ag atgoffa rhieni mewn cylchlythyrau ysgol.

Yn Atodiad 12 mae enghraifft o 'Ffurflen hysbysiad gadael yr ysgol' (gellir darparu hon yn y prif ieithoedd cymunedol hefyd).

Y defnydd o'r Wefan Trosglwyddo Data rhwng Ysgolion (s2s)

6.14 Mae gan bob ysgol a gynhelir yng Nghymru gyfrifoldeb statudol i ddefnyddio'r System Trosglwyddo Gyffredin ar gyfer Cymru a Lloegr i drosglwyddo gwybodaeth benodol yn electronig, drwy'r wefan trosglwyddo data rhwng ysgolion pan fydd disgybl yn ymuno ag ysgol neu'n gadael ysgol³². Mae'r wefan s2s yn wefan ddiogel, a weithredir gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ar ran pob ysgol a gynhelir ac ysgol annibynnol yng Nghymru a Lloegr. Fe'i sefydlwyd i alluogi ysgolion i roi data safonol am ddisgyblion unigol (megis canlyniadau asesiadau a phresenoldeb) ar y wefan, er mwyn i ysgol newydd y disgybl, neu'r awdurdod lleol gael gafael arno.

³² Mae Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) Cymru 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gadw data ar ddisgyblion sydd ar eu cofrestr a throsglwyddo'r data hwnnw i'r ysgol sy'n derbyn pan fydd plentyn yn gadael

Gweithdrefnau ar gyfer y defnydd o'r wefan trosglwyddo data rhwng ysgolion (s2s)

6.15 Os gŵyr ysgol pa ysgol y mae plentyn neu berson ifanc yn symud iddi rhaid iddi sicrhau y caiff ffeil trosglwyddo gyffredin ei hanfon i'r ysgol sy'n derbyn drwy'r wefan s2s cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn hwyrach na 15 diwrnod ysgol ar ôl i'r disgybl orffen ei gofrestriad â'r ysgol flaenorol.

6.16 Os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi gadael yr ysgol heb leoliad hysbys a bod yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi dilyn gweithdrefnau a bod pob 'ymdrech resymol' i'w leoli wedi bod yn aflwyddiannus, yna, ar ôl pedair wythnos, dylai'r ysgol, drwy ymgynghori â'r AALI dynnu enw'r plentyn neu'r person ifanc oddi ar ei chofrestr a chreu ffeil trosglwyddo gyffredin i "ddisgybl sydd ar goll" gan nodi 'XXXXXXX' fel cyrchfan. Yn dilyn hyn dylai'r ffeil trosglwyddo gyffredin gael ei lanlwytho ar wefan ddiogel s2s lle y caiff ei chadw yn yr adran ar gyfer 'Disgyblion sydd ar Goll'.

Yn Atodiadau 13 a 14 mae enghreifftiau o gyngor arfer da ar hysbysiadau am dynnu enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol.

Arfer da - Ymagwedd leol

Yn Abertawe, os na ddeuir o hyd i leoliad plentyn neu berson ifanc yn dilyn pedair wythnos o absenoldeb heb eglurhad ac yn dilyn ymchwiliad gan y Gwasanaeth Lles Addysg, RHAID i'r ysgol hysbysu'r Tîm Gwybodaeth Addysg bod enw'r plentyn wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr drwy gyfrwng e-bost. Bydd y Tîm yn diweddarau system gwybodaeth reoli'r awdurdod lleol i ddangos bod y plentyn neu'r person ifanc wedi Colli Addysg o'r dyddiad y tynnwyd ei enw oddi ar y gofrestr. Dylai'r ysgol gadarnhau hefyd bod ffeil trosglwyddo gyffredin wedi cael ei hanfon i'r adran ar wefan s2s ar gyfer Disgyblion sydd ar Goll gan ddefnyddio cod 'XXXXXXX.'

6.17 Mae'n bwysig nodi y gall unrhyw ffeil trosglwyddo gyffredin a anfonir i adran Disgyblion sydd ar Goll gwefan s2s gynnwys manylion un disgybl yn unig.

6.18 Os cadarnheir bod plentyn neu berson ifanc wedi symud i'r sector annibynnol, yn cael addysg ddewisol yn y cartref neu mewn lleoliad nad yw'n gallu derbyn ffeil trosglwyddo gyffredin (e.e. dramor) dylai'r ysgol osod ffeil trosglwyddo gyffredin ar y wefan s2s gyda'r cod MMMMMMMM fel cyrchfan. Mae hyn yn golygu y gellir storio'r ffeil trosglwyddo gyffredin yn ddiogel ac y bydd ar gael os bydd y disgybl yn dychwelyd i ysgol a gynhelir yn ddiweddarach.

6.19 Os anfonir ffeil at ysgol neu ALL hysbys ond y caiff ei gwrthod gan yr ysgol neu'r ALL hwnnw rhaid ystyried bod y plentyn bellach ar goll o addysg a dylid lanlwytho'r ffeil i adran Disgyblion sydd ar Goll gwefan s2s fel uchod gan ddefnyddio cod 'XXXXXXXX.'

6.20 Rhaid i ysgolion wirio s2s yn rheolaidd i edrych am ffeiliau trosglwyddo cyffredin disgyblion newydd, a anfonwyd atynt. Os caiff disgybl newydd ei dderbyn i ysgol heb ffeil trosglwyddo gyffredin dylai'r ysgol gysylltu â'r Gweinyddwr s2s yn ei ALL i ofyn am chwilio adran Disgyblion sydd ar Goll gwefan s2s am gofnod cyfatebol gan ddefnyddio enwau neu enwau blaenorol, dyddiad geni a rhyw. Yna gellir trosglwyddo ffeil trosglwyddo gyffredin y disgybl i'r ysgol.

6.21 Os yw ysgol wedi anfon ffeil trosglwyddo gyffredin i adran Disgyblion sydd ar Goll gwefan s2s ac yn clywed gan ysgol lle mae'r disgybl coll wedi cofrestru yn dilyn hynny, dylai ddweud wrth yr ysgol newydd i ofyn i'w ALL lawrlwytho'r ffeil trosglwyddo gyffredin wreiddiol o adran Disgyblion sydd ar Goll gwefan s2s. **Ni** ddylai greu ffeil trosglwyddo gyffredin newydd a'i hanfon yn uniongyrchol i'r ysgol newydd.

6.22 Mae'n ddefnyddiol atgoffa ysgolion pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gadael gyda chyfeiriad hysbys y dylid cofnodi hyn ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol pan fydd disgybl yn gadael ysgol. Ni ddylai ysgolion gofnodi symudiadau disgyblion fel 'wedi symud tŷ' neu 'wedi symud allan o'r ardal'. Os nad yw'r

cyfeiriad yn hysbys dylid ei gofnodi fel 'anhysbys' a dylid nodi bod 'y Gwasanaeth Lles Addysg wedi'i hysbysu'. Ni ddylid gadael y maes hwn yn wag o dan unrhyw amgylchiadau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau dull mwy canolog ac effeithlon o olrhain symudiadau disgyblion.

6.23 Cydnabyddir mai dim ond os bydd **pob ysgol yng Nghymru** yn ymrwymedig i'r egwyddor ganlynol y bydd y gweithdrefnau hyn yn gweithredu'n effeithlon, sef:

*PRYD BYNNAG Y BYDD PLENTYN NEU BERSON IFANC YN YMUNO AG YSGOL NEU'N GADAEL YSGOL **RHAID** ANFON FFEIL TROSGLWYDDO GYFFREDIN GYDA'R PLENTYN HWNNW AT YR YSGOL NEWYDD.*

6.24 Ceir canllawiau pellach ar y defnydd o'r System Drosoglwyddo Gyffredin yng nghylchlythyr canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 18/2006 ar Gofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosoglwyddo Gyffredin.

<http://new.wales.gov.uk/publications/circular/circulars2006/1552927/?lang=cy>

Plant a Phobl Ifanc mewn Perygl

6.25 Mewn achosion eithriadol efallai nad ystyrir ei bod yn briodol trosglwyddo manylion hanes plentyn neu berson ifanc i ysgol newydd. Byddai'n rhaid barnu pob achos yn ôl ei rinweddau mewn ymgynghoriad â'r partion perthnasol. Gallai'r amgylchiadau lle nad ystyrir ei bod yn briodol trosglwyddo manylion drwy gyfrwng ffeil trosglwyddo gyffredin gynnwys lle y gallai roi teulu mewn perygl; pan fydd rhywun yn ceisio dianc rhag partner ymosodol; neu lle y bydd y teulu'n rhan o raglen amddiffyn tystion ac na fyddant am i'r ysgol flaenorol wybod i ble maent wedi mynd.

6.26 Fel rhan o'u manylion adnabod newydd dylai'r plant a'r bobl ifanc hyn gael RhUD parhaol newydd ac ni ddylid cofnodi unrhyw RhUD blaenorol o dan "RhUD Blaenorol".

6.27 Os yw'r AALL yn ymwybodol o'r amgylchiadau hyn gallai lawrlwytho'r ffeil trosglwyddo gyffredin yn ddiogel o'r adran ar gyfer disgyblion sydd ar goll a newid rhif yr ysgol flaenorol i'w AALL ei hun cyn anfon ymlaen. Dylai hefyd gael gwared ag unrhyw wybodaeth bersonol o gofnodion y plentyn neu'r person ifanc o fewn y ffeil trosglwyddo gyffredin.

Arfer da - Ymagwedd leol

Yn Abertawe unwaith y bydd plentyn neu berson ifanc wedi gadael heb gyfeiriad hysbys ac y bydd ymholiadau gan yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi methu â dod o hyd iddo, bydd y Tîm Gwybodaeth Addysg yn dosbarthu rhestr o blant a phobl ifanc a nodir ar system gwybodaeth reoli'r awdurdod lleol fel 'Yn Colli Addysg'. Caiff y rhestr hon ei dosbarthu ymhlith partneriaid yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Iechyd, EMAS, Cydgysylltydd Addysg i Blant sy'n Derbyn Gofal, Amddiffyn Plant a'r Uned Ysgolion a Llywodraethwyr. Byddant yn aros ar y rhestr hon hyd nes: y deuir o hyd iddynt neu y cânt eu pen-blwydd yn 18 oed.

Arfer da - Ymagwedd genedlaethol

Cyfateb data Disgyblion sydd ar Goll i ddata CYBLD

Ddwywaith y flwyddyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfateb pob ffeil trosglwyddo gyffredin (a lwythir gan awdurdodau lleol yng Nghymru) yn adran Disgyblion sydd ar Goll gwefan s2s i ddata CYBLD i weld a oes unrhyw ddisgyblion 'sydd ar goll' wedi cofrestru mewn ysgolion yng Nghymru. Os bydd data unrhyw ddisgyblion yn cyfateb: darperir manylion i'r awdurdod sy'n lanlwytho er mwyn iddo allu cau unrhyw achosion nas aethpwyd i'r afael â hwy a nas datryswyd mewn perthynas â phlant sy'n colli addysg. Gofynnir i awdurdodau lawrlwytho'r ffeiliau trosglwyddo cyffredin i sicrhau bod ysgolion wedi derbyn y rhain a lle y byddant wedi'u derbyn; bydd gofyn iddynt ddileu'r ffeiliau dyblyg. Bydd hefyd yn helpu i nodi ysgolion y gallai fod angen i'r ALL ddarparu hyfforddiant ychwanegol iddynt mewn perthynas â throsglwyddo data a'r defnydd o'r System Drosglwyddo Gyffredin.

Rheoliadau ynghylch pryd y gall ysgol dynnu enw disgybl oddi ar ei Chofrestr Derbyn

6.28 Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 1995, rheoliad 11 yn gosod dyletswydd statudol ar y Gwasanaeth Lles Addysg (neu unrhyw swyddog awdurdod addysg lleol a awdurdodir at y diben) i archwilio cofrestrau ysgolion a sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn unol â'r rheoliadau. Dylai hyn gynnwys monitro **disgyblion sydd wedi'u dileu o'r gofrestr yn rheolaidd** er mwyn sicrhau y dilynir y ddeddfwriaeth ar y mater hwn ac na all unrhyw blentyn neu berson ifanc ddiflannu o gofrestr ysgol (oni bai eu bod yn symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 yn y modd arferol neu eu bod ar ddiwedd addysg orfodol). Dylai ysgolion ymddwyn yn gyfrifol mewn perthynas â'r mater hwn o ran yr agenda diogelu a'r ddyletswydd i sicrhau eu bod yn gwybod ble mae pob plentyn.

6.29 Rhoddir canllawiau clir i ysgolion ar ba bryd y gallant ddileu disgyblion o'u cofrestr derbyn. Amlinellir yr amgylchiadau yn Rheoliad 9 o Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 ac yn Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Diwygio) (Cymru) 2001. Mae'r Rheoliadau yn rhestru'r canlynol fel y seiliau rhagnodedig ar gyfer tynnu enw disgybl o oedran ysgol gorfodol oddi ar y Gofrestr Derbyn (ac felly oddi ar y Gofrestr Presenoldeb):

- i. mae'r disgybl wedi'i gofrestru yn yr ysgol yn unol â gofynion Gorchymyn Mynychu'r Ysgol ac mae'r AALL yn disodli'r ysgol honno a enwir yn y Gorchymyn gydag ysgol arall, neu caiff y Gorchymyn ei ddiddymu;
- ii. mae'r disgybl wedi'i gofrestru mewn ysgol arall;
- iii. mae'r ysgol wedi cael hysbysiad ysgrifenedig gan y rhiant bod y disgybl yn cael addysg y tu allan i'r ysgol;
- iv. nid yw'r disgybl yn mynychu'r ysgol mwyach ac nid yw'n byw o fewn pellter rhesymol i'r ysgol; dylid atgyfeirio pob achos at y Gwasanaeth/Swyddog Lles Addysg er mwyn iddynt gynnal ymchwiliad cyn tynnu enw'r disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol;
- v. caniatwyd i'r disgybl fod yn absennol am fwy na 10 diwrnod at ddiben gwyliau ond mae'n methu â mynychu'r ysgol o fewn 10 diwrnod yn union wedi hynny, ac nid yw'r ysgol yn fodlon bod yr absenoldeb wedi'i achosi gan salwch neu unrhyw achos na ellir ei osgoi;

- vi. mae swyddog meddygol yr ysgol yn ardystio bod y disgybl yn annhebygol o fod mewn cyflwr iechyd digon da i fynychu'r ysgol cyn diwedd oedran ysgol gorfodol;
- vii. mae'r disgybl wedi bod yn absennol o'r ysgol yn barhaus am gyfnod o bedair wythnos neu fwy ac mae perchennog yr ysgol a'r swyddog addysg lleol, ar ôl cynnal ymchwiliad rhesymol, wedi methu â dod o hyd i'r disgybl;

Er bod Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 yn nodi y gellir dileu plentyn o'r gofrestr ar ôl 20 diwrnod o absenoldeb parhaus heb reswm da (10 diwrnod ysgol os yw'n dychwelyd o wyliau'n hwyr), mae cyfrifoldeb clir i sicrhau y dilynir y gweithdrefnau cywir ar gyfer ymchwilio i'r absenoldeb hwn oherwydd gall unrhyw blentyn sydd ar goll o addysg godi materion posibl yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Os yw ysgolion o'r farn bod plentyn neu deulu wedi mynd ar goll, NI ddylent ddileu unrhyw blentyn o'u cofrestr heb ddilyn y gweithdrefnau rhestr wirio ac atgyfeirio'r achos at y Gwasanaeth Lles Addysg.

Dylid sicrhau bod enw'r disgybl yn aros ar gofrestr yr ysgol hyd nes bod pob ymholiad rhesymol wedi'i gwblhau hyd yn oed os bydd hynny'n golygu y bydd y disgybl wedi bod yn absennol am fwy nag 20 diwrnod. Bydd y camau nesaf ac a yw'n briodol i'r plentyn gael ei ddileu o gofrestr yr ysgol yn dibynnu ar ganlyniad ymgais yr ysgol a'r awdurdod lleol i olrhain y disgybl. Os na allant ddod o hyd i'r disgybl, rhaid iddynt gyfeirio'r achos at yr asiantaethau priodol. Mae'n bwysig bod pob un o'r camau a amlinellwyd uchod yn cael eu dogfennu'n glir er mwyn sicrhau llwybr archwilio clir o'r camau a gymerwyd i ddod o hyd i'r plentyn. Dim ond pan fydd y Gwasanaeth Addysg Lles wedi cwblhau ei ymchwiliadau ac wedi cynghori'r ysgol yn ysgrifenedig y dylai'r ysgol ddileu'r disgybl o'r gofrestr.

Yn Atodiad 13 ac Atodiad 14 mae enghreifftiau o arfer da a argymhellir ar gyfer hysbysiad am dynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr.

- viii. mae'r disgybl wedi marw;
- ix. ni fydd y disgybl o oedran ysgol gorfodol mwyach pan fydd yr ysgol yn cyfarfod nesaf ac nid yw'n bwriadu parhau â'i addysg yn yr ysgol;
- x. yn achos disgybl mewn ysgol ar wahân i ysgol a gynhelir, nid ydynt bellach yn ddisgybl yn yr ysgol honno;
- xi. os yw'r disgybl wedi'i gofrestru mewn ysgol a gynhelir, ei fod wedi'i wahardd yn barhaol o'r ysgol ac nid yw'r broses o wahardd disgybl yn barhaol yn weithredol hyd nes bod y corff llywodraethu wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 66 o Ddeddf 1998, ac:
 - a. Mae'r unigolyn perthnasol wedi nodi'n ysgrifenedig nad yw'n bwriadu apelio o dan adran 67 o Ddeddf 1998;
 - b. Mae'r amser ar gyfer dwyn apêl wedi dod i ben ac nid oes unrhyw apêl wedi'i dwyn o fewn yr amser hwnnw; neu
 - c. Mae apêl a ddygwyd o fewn yr amser hwnnw wedi'i phenderfynu neu rhoddwyd y gorau iddi.
- xii. mae'r disgybl wedi'i dderbyn i'r ysgol i gael addysg feithrin ac nid yw, ar ôl cwblhau'r addysg, wedi trosglwyddo i ddsbarth derbyn yn yr ysgol.

Mae dileu disgybl o'r gofrestr am unrhyw reswm ar wahân i'r rhai a nodwyd uchod yn anghyfreithlon.

Camau y dylai ysgol eu cymryd pan fo enw disgybl yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Derbyn

6.30 Pan fo enw disgybl yn cael ei ddileu o'r Gofrestr Derbyn, dylai'r ysgol nodi'r dyddiad a'r rheswm dros ddileu'r plentyn o'r gofrestr yn glir. Os bydd disgybl yn symud i ysgol arall, dylid nodi enw'r ysgol a rhaid i gofnodion y disgybl gael eu hanfon i'r ysgol newydd o fewn 15 diwrnod ysgol.

6.31 Pan fo enw disgybl wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr, rhaid i'r ysgol greu ffeil trosglwyddo gyffredin a dilyn y gweithdrefnau a amlinellir uchod.

Yn Atodiad 13 ac Atodiad 14 mae enghreifftiau o arfer da a argymhellir ar gyfer hysbysiad am dynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr.

Yn Atodiad 15 nod y tabl yw darparu canllaw ymarferol a allai fod o gymorth i chi wrth wneud penderfyniad i dynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr derbyn ac mae'n cynnwys.

6.32 Mae'r tabl yn Atodiad 15 yn cynnwys amgylchiadau sy'n caniatáu i ddisgybl gael ei ddileu o'r gofrestr yr ysgol neu sy'n dynodi y dylid gwneud hynny; pryd y dylai staff yr ysgol gynnal y broses ac ar ba ddyddiad y dylid dangos bod y disgybl yn cael ei ddileu o'r gofrestr.

Arfer da - Ymagwedd genedlaethol

Cyfateb data blwyddyn 10/11 i ddata CYBLD

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal proses flynyddol o gyfateb data CYBLD er mwyn nodi disgyblion a oedd yn ymddangos ar ffurflenni Blwyddyn 10 blaenorol ond nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw ffurflen CYBLD dilynol ar gyfer y flwyddyn ganlynol yng Nghymru (unrhyw ysgol neu unrhyw grŵp blwyddyn) gan fod hon wedi'i amlygu fel adeg pan allai disgyblion sy'n agored i niwed neu ddisgyblion sydd â phresenoldeb gwael adael addysg. Gofynnir i awdurdodau lleol groesgyfeirio'r data hwn er mwyn sicrhau bod disgyblion wedi gadael ysgol gyda chyfeiriad hysbys a bod ysgolion yn glynu wrth y rheoliadau sy'n ymwneud â dileu disgyblion o'r gofrestr.

Beth i'w wneud pan ddeuir o hyd i blentyn neu berson ifanc - gweithdrefnau dilynol

6.33 Dim ond rhan o'r dasg yw nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg; mae lleoli'r plant mewn darpariaeth briodol yr un mor bwysig.

6.34 Unwaith y deuir o hyd i blentyn neu berson ifanc, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ar waith i drefnu darpariaeth er mwyn sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn cael mynediad i'r ddarpariaeth addysgol fwyaf priodol ac yn ail-ymgysylltu â'r ddarpariaeth honno cyn gynted â phosibl a bod unrhyw anghenion a nodir yn ystod y broses hon yn cael eu diwallu'n briodol ac yn eang gan yr asiantaeth/asiantaethau mwyaf priodol.

6.35 Mae paneli amlasiantaeth sy'n trefnu darpariaeth i blant a phobl ifanc yn gyfrwng defnyddiol ac ymarferol i awdurdodau nodi darpariaeth a chymorth priodol, olrhain cynnydd a hysbysu Uwch Reolwyr os oes pryderon ynghylch oedi, anallu i ddiwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc neu wrthodiad i ymgysylltu â'r ddarpariaeth.

Cynnal cyswllt

6.36 Unwaith y mae'r plentyn neu'r person ifanc wedi'i leoli gyda darparwr addysgol, dylid monitro (gan yr awdurdod lleol yn cael data gan yr ysgol neu ddarparwr arall) ei bresenoldeb am dymor o leiaf er mwyn sicrhau na welir yr un problemau a arweiniodd at 'golli'r' plentyn neu'r person ifanc.

7 Mesurau ychwanegol i nodi a dod o hyd i blant a phobl ifanc sydd ar goll

Gwasanaethau Derbyn i Ysgolion

7.1 Mae gan y Gwasanaeth Derbyn i Ysgolion gyfraniad pwysig i'w wneud i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ar gofrestr ysgol ac yn mynychu ysgol.

7.2 Daeth Cod Statudol ar dderbyn disgyblion i ysgolion i rym ar 15 Gorffennaf 2009. Rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu fforwm ar dderbyn disgyblion i ysgolion sydd â rôl allweddol i'w chwarae o ran sicrhau bod y system dderbyn yn deg a rhoi cyngor ar dderbyniadau.

7.3 Yn unol â'r Codau Derbyn i Ysgolion rhaid i awdurdodau derbyn pob ysgol a gynhelir ystyried unrhyw gyngor a gyhoeddir gan y fforwm derbyn. Mae'n ofynnol bellach i fforymau lunio adroddiad blynyddol yn nodi pa mor dda mae'r system dderbyn yn gweithio yn yr ardal dan sylw. Dylai'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am ba drefniadau derbyn sydd wedi'u rhoi ar waith i warchod buddiannau plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

7.4 Efallai na fydd plant neu bobl ifanc ar gofrestr ysgol am nad yw rhiant wedi derbyn lle mewn ysgol ar adeg pontio arferol neu am fod rhiant heb fwrw ymlaen â chais ar ôl symud i'r ALL. Efallai eu bod heb gael lle yn yr ysgol o'u dewis a heb dderbyn cynnig arall neu, yn syml, efallai na fydd eu plentyn yn mynychu ar ôl iddynt dderbyn lle mewn ysgol yn flaenorol.

7.5 Mae'n bwysig bod amrywiaeth o weithdrefnau a strategaethau ar waith i gymryd camau dilynol mewn perthynas â'r cyfryw amgylchiadau er mwyn sicrhau bod llai o gyfle i blant a phobl ifanc fynd ar goll. Gallai mesurau arfer da ar gyfer yr ALL a'r gwasanaeth derbyn gynnwys yr arferion canlynol:

7.6 Dylai'r ALL a'r Tîm Derbyn i Ysgolion geisio cyrraedd cymaint o ddarpar ddisgyblion derbyn cyntaf â phosibl drwy roi cytundebau rhannu data ar waith i hwyluso'r broses o groeswiro plant sy'n cychwyn darpariaeth statudol yn erbyn cronfeydd data partneriaid. (e.e. Blynyddoedd Cynnar, Timau Gofal Plant, Iechyd, Tîm Asesu ac Adolygu Anghenion Addysgol Arbennig ac ati). Dylid hysbysu'r Gwasanaeth Lles Addysg o'r rheini sydd wedi methu â chymryd lle mewn ysgol, er mwyn gallu gwneud ymholiadau pellach.

7.7 Gan fod ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr yn gweithredu fel eu hawdurdod derbyn eu hunain, dylai'r ALL geisio cytundeb gyda hwy i roi gwybod i dîm derbyn i ysgolion canolog yr awdurdod lleol am bob achos o dderbyn a throsglwyddo disgyblion yn achlysurol/ yn y flwyddyn. Dylai hyn hefyd gynnwys pob cais aflwyddiannus gan y rheini sy'n newydd i ardal ac apeliadau ganddynt am le yn eu hysgol pan fo'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau (pan na chynigir lle), fel y gellir olrhain y plentyn neu'r person ifanc. Mae hyn oherwydd efallai na fydd rhai rhieni yn dilyn opsiynau eraill ar gyfer addysg eu plant a gall y cyfryw blant neu bobl ifanc gael eu colli. Gall hyn ddigwydd yn ystod y broses o bontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7, pan nad yw rhieni yn cael eu dewis opsiwn cyntaf. Dylai'r Gwasanaeth Lles Addysg/Swyddog Plant sy'n Colli Addysg dynodedig ddilyn hynt pob un o'r cyfryw achosion.

Yn Atodiad 16 mae Hysbysiad o Ganlyniad Apeliadau i Swyddog Plant sy'n Colli Addysg Dynodedig/Gwasanaeth Lles Addysg.

7.8 Mesurau i sicrhau bod plentyn unrhyw riant sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol neu unrhyw ysgol i wneud cais am le (yn cynnwys lleoedd mewn Blwyddyn Derbyn lle nad yw'r plant o oedran ysgol gorfodol) yn cael ei olrhain er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael lle mewn ysgol ac nad yw'n dod yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n colli addysg am nad oes lle ar gael mewn ysgol.

7.9 Mewn rhai ardaloedd, ceir prinder lleoedd mewn ysgolion ac efallai y bydd gan rai o'r plant a'r bobl ifanc sydd fwyaf agored i niwed rieni nad ydynt yn dyfalbarhau, am amrywiaeth o resymau, i gael lle mewn ysgol arall. Bydd hyn yn cynnwys olrhain pob ffordd o geisio derbyniadau achlysurol a gwirio pob apêl er mwyn dilyn hynt y rheini na fu eu hapêl yn llwyddiannus ac nad oes gan y plentyn le mewn ysgol.

7.10 Pan fo rhieni yn ffonio neu'n galw heibio i ofyn am leoedd gwag, dylid gofyn i weinyddwyr ysgol ofyn am wybodaeth sylfaenol (enw'r plentyn/rhieni a manylion cyswllt ac ati) a fydd yn caniatáu i'r ALL gymryd camau dilynol os na chaiff y ffurflen gais ei dychwelyd

neu os na fydd y plentyn neu'r person ifanc yn dechrau mewn unrhyw ysgol yn yr awdurdod. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynrychioli arfer gorau o ran cydweithio i hybu lles plant a phobl ifanc a chefnogi rhannu gwybodaeth.

Arfer da - Ymagwedd leol

Mae Abertawe yn cofnodi manylion pob galwad a wneir i'r awdurdod gan rieni sy'n gwneud cais am wybodaeth am ysgolion mewn dalgylchoedd a lleoedd mewn ysgolion. Yna, maent yn monitro systemau gwybodaeth reoli ysgolion er mwyn sicrhau bod y rhieni yn cymryd camau dilynol mewn perthynas â cheisiadau a bod plant yn ymddangos ar gofrestrau ysgolion. Pan na fydd hyn yn digwydd, caiff achosion eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Lles Addysg er mwyn iddynt gymryd camau dilynol.

7.11 Gall ysgolion gynorthwyo'n effeithiol gyda'r gwaith o wneud ymholiadau i'r amgylchiadau sy'n gysylltiedig â phlentyn neu berson ifanc sydd ar goll o ysgol drwy fabwysiadu gweithdrefn derbyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i riant/gofalwr ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'i fanylion personol a'i statws ei hun a'i blentyn yn y DU, y cyfeiriad lle maent yn byw a sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd. Ni ddylai amheuon am oedran neu fanylion y plentyn neu'r person ifanc atal neu oedi ei fynediad i'r ysgol lle ceir lle gwag gan ei bod yn fwy diogel i blant a phobl ifanc fod yn yr ysgol tra bod mwy o ymholiadau'n cael eu gwneud.

7.12 Fel sy'n ofynnol o dan y Cod Derbyn, bydd awdurdodau derbyn yn gweithio i gael dyddiadau cyffredin ar gyfer dychwelyd ceisiadau a llythyrau cynnig ar gyfer lleoedd ysgol yn y dyfodol agos. Dylai hyn symleiddio'r broses o wirio bod lleoedd wedi'u dyrannu a'u derbyn.

Olrhain Cyfnodau Pontio

7.13 O fis Medi 2007, bu'n ofynnol i ysgolion uwchradd yng Nghymru a'r ysgolion cynradd clwstwr, Iunio Cynllun Pontio, ar y cyd, sy'n nodi'r trefniadau i sicrhau parhad a dilyniant i ddysgwyr sy'n symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Bydd cynlluniau

pontio yn sefydlu fframwaith er mwyn galluogi ysgolion i weithio gyda'i gilydd i ystyried sut y gallant fanteisio i'r eithaf ar y wybodaeth am ddysgwyr er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu iddynt. Bydd cynlluniau pontio yn llywio'r broses nodi'n gynnar, ynghyd â'r camau y bydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw person ifanc yn dal mewn perygl o gefnu ar addysg ar oedran cynnar.

7.14 Mae gwaith monitro wrth i ddisgyblion symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 yn hanfodol. Dylai gwasanaethau derbyn, Swyddogion Data ac ysgolion gydweithio er mwyn sicrhau bod gwiriadau a systemau ar waith i sicrhau bod pob plentyn sy'n gadael ysgol gynradd yn cael ei gofrestru gyda darparwr newydd ac yn cyrraedd yno'n ddiogel.

7.15 Ceir heriau penodol mewn ardaloedd lle y gwelir nifer fawr o blant a phobl ifanc yn gadael y sector a gynhelir i fynd i'r sector annibynnol, mewn ardaloedd lle mae'n arfer cyffredin i blant groesi ffiniau i fynychu ysgolion mewn awdurdodau eraill ac mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o bobl heb gartref parhaol, yn enwedig os yw plant neu bobl ifanc yn gadael ysgolion ar adegau ar wahân i oeddrannau trosglwyddo arferol.

7.16 Mae'n bwysig bod y gwiriadau a'r gweithdrefnau hyn yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau tymor yr hydref.

7.17 Yn ogystal â bod yn hanfodol i'r gwaith o olrhain disgyblion wrth iddynt symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, dylai awdurdodau lleol fonitro pob plentyn a pherson ifanc nad yw wedi'i gofrestru mwyach gyda darparwr a monitro ei gynnydd hyd nes y bydd wedi cofrestru gyda darparwr newydd.

Arfer da - Ymagwedd genedlaethol

Cyfateb data Blwyddyn 6/7 i ddata CYBLD

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal proses flynyddol o gyfateb data CYBLD er mwyn nodi disgyblion a oedd yn ymddangos ar ffurflenni Blwyddyn 6 blaenorol, ond nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw ffurflenni CYBLD dilynol ar gyfer y flwyddyn ganlynol yng Nghymru (unrhyw ysgol neu unrhyw grŵp blwyddyn). Rhoddir manylion i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu sicrhau bod camau dilynol wedi'u cymryd mewn perthynas â phob achos

yn ystod ymarferion olrhain cyfnodau pontio a gynhaliwyd yn ystod tymor yr hydref.

Os nad oedd ysgolion ac awdurdodau lleol yn gallu olrhain disgybl blwyddyn 6 i mewn i flwyddyn 7 a'u bod wedi lanlwytho ffeil trosglwyddo gyffredin y plentyn neu'r person ifanc i'r adran ar gyfer disgyblion sydd ar goll ar s2s, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyfateb y rhain i ddata CYBLD i weld a oes unrhyw ddisgyblion 'sydd ar goll' mewn ysgolion yng Nghymru. Os bydd data unrhyw ddisgyblion yn cyfateb: darperir manylion i'r awdurdod sy'n lanlwytho er mwyn iddo allu cau unrhyw achosion nas aethpwyd i'r afael â hwy a nas datryswyd mewn perthynas â phlant sy'n colli addysg.

7.18 Gofynnir i awdurdodau lleol groesgyfeirio'r data hwn er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi gadael ysgol gyda chyfeiriad hysbys a bod ysgolion yn glynu wrth y rheoliadau sy'n ymwneud â dileu disgyblion o'r gofrestr.

Cyrchu Triwantiad

7.19 Ceir canllawiau ar Gyrchu Triwantiad yng Nghylchlythyr Rhif 47/2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion. http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/schools/339214-wag/inclusionpupilsupportguidance/?lang=cy

7.20 Mae llawer o ALLau yn gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu i gynnal ymgyrchoedd cyrchu triwantiad sy'n gallu bod yn effeithiol iawn wrth ddod o hyd i blant a phobl ifanc y tu allan i'r system addysg. Yn aml gall ymgyrchoedd felly ddod o hyd i niferoedd bach ond arwyddocaol o blant a phobl ifanc nad ydynt ar gofrestr ysgol ac mae'n bosibl eu bod yn dod o deuluoedd sy'n amharod i ymgysylltu â'r gwasanaethau statudol, neu'n gwrthod gwneud hynny. Mae ymgyrchoedd cyrchu triwantiad felly yn ffordd ddefnyddiol o gysylltu â'r grŵp anodd ei gyrraedd hwn.

7.21 Dylai'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrchoedd fod yn ymwybodol bod amrywiaeth o resymau dilys i esbonio pam y gallai plant a phobl ifanc o oedran ysgol fod allan o'r ysgol. Yn arbennig, efallai y deuant o hyd i blant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref ac nad yw'n ofynnol i'r plant hyn fod yn yr ysgol.

7.22 Ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach os bydd plant neu bobl ifanc yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref oni bai bod rheswm i amau bod hyn yn wir.

7.23 Mae angen i rieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref fod yn ymwybodol y gallai fod angen i weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyrchu triwantiad wirio unrhyw wybodaeth a roddir iddynt yn yr amgylchiadau hyn. Er mwyn sicrhau bod hon yn broses gyflym ac effeithlon, byddai'n ddefnyddiol i'r ALL gadw rhestr o'r holl blant o oedran ysgol sy'n hysbys iddynt sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Gall staff yr ALL edrych ar y rhestr hon fel rhan o'r ymgyrch Cyrchu Triwantiad.

7.24 O fis Ionawr 2010, fel rhan o'i gwaith i lenwi'r bylchau data dechreuodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybodaeth am gyfanswm y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu'n ddewisol yn y cartref sy'n byw yn eu hardal fel rhan o'r trefniadau casglu data EOTAS (disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol). Prif ddiben casglu data yw casglu gwybodaeth am blant unigol o oedran ysgol gorfodol a ariennir gan yr awdurdod lleol ac sy'n cael addysg heblaw mewn ysgol a gynhelir fel y diffinnir yn Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 h.y. y plant hynny o oedran ysgol gorfodol na fyddant o bosibl, oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod.

Yn Atodiad 17 mae gwybodaeth bellach am EOTAS.

Addysg Ddewisol yn y Cartref

7.25 Mae dyletswydd ar rieni i sicrhau bod eu plant yn cael addysg amser llawn addas naill ai drwy fynychu'r ysgol neu fel

arall (o dan adran 7 o Ddeddf Addysg 1996). Mae rhai rhieni yn penderfynu darparu addysg addas drwy addysgu eu plant yn y cartref, fel y mae hawl ganddynt i'w wneud. Mae nifer sylweddol o rieni yn dewis arfer eu hawl i addysgu eu plant yn y cartref am amrywiaeth o resymau a allai gynnwys safbwyntiau athronyddol, ideolegol neu grefyddol, neu er mwyn diwallu anghenion penodol plentyn neu berson ifanc neu anfodlonrwydd ar y system.

7.26 Ni ddylai ysgolion annog rhieni/gofalwyr i ddarparu addysg yn y cartref fel ffordd o osgoi cofnod presenoldeb gwael neu waharddiad parhaol. Mae addysgu plentyn yn y cartref yn gostus ac yn gyfrifoldeb llawn amser.

7.27 Nid oes angen i rieni gael caniatâd yr AALL i ddechrau addysgu yn y cartref, ond rhaid iddynt hysbysu corff llywodraethu'r ysgol, fel arfer drwy'r pennaeth, er mwyn sicrhau bod enw eu plentyn yn cael ei dynnu oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol. Fodd bynnag, os nad yw plentyn erioed wedi mynychu ysgol, nid oes angen cael caniatâd na hysbysu unrhyw un.

7.28 Fodd bynnag, rhaid i rieni sydd am addysgu plant neu bobl ifanc sydd wedi cofrestru mewn ysgol arbennig gael caniatâd yr AALL i dynnu enw eu plant oddi ar gofrestr yr ysgol (Rheoliad Addysg (Cofrestru Disgyblion) 9(2), 1995).

Cyfrifoldebau'r Ysgol mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref

7.29 Mae Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995, Rheoliad 9, yn nodi'r amodau ar gyfer tynnu enw disgybl oddi ar gofrestr derbyn ysgol fel a ganlyn: "he has ceased to attend the school and the proprietor has received written notification from the parent that the pupil is receiving education otherwise than at school."

7.30 O dan Reoliad 13 (3), rhaid i bennaeth yr ysgol hysbysu Adran Gwasanaethau Disgyblion yr AALL eu bod wedi tynnu enw'r disgybl oddi ar y gofrestr derbyn o fewn 10 diwrnod ysgol, a dylai'r Adran hysbysu'r swyddog priodol yn dilyn hynny.

7.31 Dylai'r ysgol greu ffeil trosglwyddo gyffredin gan nodi MMMMMMMM fel cyrchfan a'i lanlwytho ar y wefan s2s. Mae hyn yn golygu y gellir storio'r ffeil trosglwyddo gyffredin yn ddiogel ac y bydd ar gael os bydd y plentyn neu'r person ifanc yn dychwelyd i ysgol a gynhelir.

7.32 Ni ddylid ar unrhyw gyfrif roi pwysau ar rieni i dynnu enw eu plentyn oddi ar y gofrestr ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad neu erlyniad.

Cyfrifoldebau'r ALL mewn perthynas ag Addysg Ddewisol yn y Cartref

7.33 Mae Adrannau 437 i 443 o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ymyrryd lle yr ymddengys nad yw plentyn yn cael addysg addas. Mae cyfraith achos yn datgan y gall awdurdod lleol wneud ymholiadau anffurfiol ynghylch rhieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref er mwyn sicrhau bod addysg addas yn cael ei darparu.

7.34 Dylai awdurdodau addysg geisio meithrin cydberthnasau effeithiol a chadw cysylltiad rheolaidd ag addysgwyr yn y cartref er mwyn diogelu buddiannau addysgol a lles plant a phobl ifanc. Bydd gwneud hynny yn sicrhau bod rhieni yn gallu cael gafael ar unrhyw gymorth sydd ar gael ac yn galluogi awdurdodau i ddeall darpariaeth addysgol y rhieni. Bydd cydberthynas gadarnhaol hefyd yn darparu sylfaen gadarn os bydd y plentyn neu'r person ifanc, ar ryw adeg yn y dyfodol, yn dychwelyd i addysg brif ffrwd neu os bydd angen i'r awdurdod ymchwilio i honiadau gan unrhyw ffynhonnell nad oes addysg effeithlon yn cael ei darparu. Mae trefniant o'r fath yn debygol o helpu'r AALL i gyflawni ei ddyletswyddau a gall helpu i ddarparu gwybodaeth newydd a chymorth i rieni. Bydd pa mor aml y bydd awdurdod yn cysylltu â rhieni i drafod eu darpariaeth addysg yn y cartref yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol pob teulu.

7.35 Nid oes fframwaith cyfreithiol i'r AALL fonitro'n rheolaidd y broses o ddarparu addysg yn y cartref na hawl mynediad awtomatig i gartref y rhieni i wirio safon yr addysg y mae'r plentyn

neu'r person ifanc yn ei derbyn. Fodd bynnag, os oes ganddynt reswm da dros gredu nad yw rhieni yn darparu addysg addas mae awdurdodau'n gallu rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol i'r rhieni. Bydd hyn yn rhoi o leiaf 15 diwrnod i'r rhiant roi pa bynnag wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod i'w fodloni ei hun bod yr addysg yn addas.

Ffurflen 'Hysbysiad am Blant neu Bobl Ifanc Sy'n Dod i Sylw'r Heddlu' (Ffurflen PPD1)

7.36 Cynhyrchir Ffurflen PPD1 gan yr heddlu yn dilyn unrhyw achos lle y daw plentyn neu berson ifanc i'w sylw a lle y mae rheswm dros gredu ei fod mewn perygl. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ymwneud â sefyllfaoedd lle y mae'r heddlu wedi cael eu galw i ddigwyddiad domestig, ac mae goblygiadau i'r plant neu'r bobl ifanc naill ai fel aelodau o'r cartref, fel tystion, neu fel unigolion sy'n rhan o'r digwyddiad.

7.37 Gall yr heddlu anfon copi o'r ffurflen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol lle y mae amgylchiadau yn dangos y gallai plentyn neu blant yn y cartref fod mewn perygl o niwed sylweddol a lle y mae'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- digwyddiad lle y mae plentyn neu berson ifanc wedi'i anafu;
- achos o drais domestig;
- digwyddiad lle y mae plentyn neu berson ifanc wedi cael ei esgeuluso neu ei oruchwylio'n amhriodol;
- digwyddiad lle canfyddir bod problemau iechyd meddwl gan y rhiant/rhieni neu'r gofalwr/gofalwyr;
- digwyddiad lle canfyddir bod rhiant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr yn camddefnyddio cyffuriau/alcohol; neu
- digwyddiad lle gallai plentyn neu berson ifanc fod yn ymwneud â phuteindra.

7.38 Lle nad oes ysgol wedi cael ei nodi ar y ffurflen dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod y mater yn cael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Lles Addysg i'w wirio yn erbyn Systemau

Gwybodaeth Reoli a chronfeydd data disgyblion eraill i geisio nodi'r ysgol neu ddarpariaeth addysgol arall; lle na ellir canfod unrhyw ysgol, byddai angen ymchwilio ymhellach i'r achos.

Gyrfa Cymru

7.39 Os yw plant neu bobl ifanc wedi bod ar goll o addysg yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4 maent yn llai tebygol o fod wedi derbyn eu hawl i gael cyngor a chanllawiau ar yrfa ar y cyfnodau arferol.

7.40 Mae Gyrfa Cymru yn bartneriaid pwysig yn y broses adnabod. Yn aml, bydd pobl ifanc, ar ôl cael eu pen-blwydd yn 16 oed ym Mlwyddyn 11 yn mynd i ganolfannau Gyrfa Cymru gan dybio y gallant ddechrau gwaith neu hyfforddiant (yn hytrach nag ar ôl y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin ym mlwyddyn 11). Efallai eu bod newydd gyrraedd yr ardal a'u bod yn absennol yn aml yn eu hysgolion blaenorol felly efallai nad ydynt wedi gwneud cais am le mewn ysgol neu wedi cael eu gwrthod yn eu dewis ysgol. Gallant hefyd gyrraedd canolfannau gan ofyn am gyngor ar hawlio budd-daliadau os ydynt yn ddiartref neu'n feichiog.

7.41 Mae chwe chwmni Gyrfa Cymru yn gweithredu yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mae ganddynt drefniadau trawsffiniol â Chwmnïau Gyrfaoedd cyfagos ac asiantaethau partner eraill er mwyn helpu i gadw cysylltiad â phobl ifanc wrth iddynt symud o un ardal i'r llall (yn enwedig i bobl ifanc ag anghenion arbennig a allai fod mewn lleoliadau y tu allan i'r ardal neu'r rhai sy'n derbyn gofal). Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth am blant neu bobl ifanc y nodir nad ydynt yn cael addysg addas, sy'n aros am leoliad, wedi'u gwahardd yn barhaol, yn cael eu haddysgu fel arall neu yn y carchar yn cael ei throsglwyddo i Gyrfa Cymru gan na allai'r plant a'r bobl ifanc hyn o reidrwydd fod yn rhan o'r trosglwyddiad data blynyddol rhwng yr AALL a Gyrfa Cymru. Os nad ydynt yn hysbys i Gyrfa Cymru ni chânt eu holrhain fel rhan o'r arolwg 'Cyrchfannau' blynyddol y mae Gyrfa Cymru yn ei gynnal ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gall yr arolwg hwn roi gwybodaeth werthfawr i Bartneriaid am nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth ac mae'n cyfrannu at ddatblygu strategaethau Cadw mewn Cysylltiad.

Pecyn Cymorth

Yn ystod y broses ddatblygu gychwynnol gofynnodd llawer o awdurdodau lleol am gyngor a chanllawiau ar ffyrdd ymarferol o gyflawni eu dyletswydd i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn y ffordd orau. Mae'r ffurflenni a'r cyngor a'r wybodaeth ategol ganlynol wedi'u nodi fel arfer da o ardaloedd eraill.

Efallai y bydd ALLau ac ysgolion am ystyried mabwysiadu'r ffurflenni hyn fel rhan o'u polisiau a'u gweithdrefnau ynghylch plant sy'n colli addysg.

Deddfwriaeth

Rhoddir dyletswyddau statudol amrywiol ar ALLau a rhieni (a ategir gan ganllawiau) sy'n ymwneud â darparu addysg a diogelu lles plant, ac mae'r rhain yn ategu'r agenda plant sy'n colli addysg.

Mae'r prif ddarpariaethau fel a ganlyn:

Mae **Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996** yn gosod dyletswydd ar riant pob plentyn o oedran ysgol gorfodol i sicrhau bod y plentyn hwnnw yn cael addysg amser llawn effeithlon sy'n addas i'w oedran, gallu a thueddfryd ac unrhyw anghenion addysgol arbennig y gallai fod ganddo, naill ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall.

Mae **Adran 8 o Ddeddf Addysg 1996** yn darparu bod oedran ysgol gorfodol yn cychwyn ar y diwrnod perthnasol ar neu ar ôl pen-blwydd plentyn yn bump oed ac yn gorffen ar y diwrnod ysgol penodol pan fydd y plentyn yn cael ei ben-blwydd yn un ar bymtheg oed. Mae rheoliadau'n nodi mai'r diwrnodau perthnasol yw 31 Awst, 31 Rhagfyr ac mai'r diwrnod penodol yw dydd Gwener olaf mis Mehefin.

Mae **Adran 14(1) o Ddeddf Addysg 1996** yn darparu bod yn rhaid i awdurdod addysg lleol sicrhau bod digon o ysgolion i ddarparu addysg yn ei ardal. At y dibenion hyn, rhaid sicrhau bod digon o ysgolion a bod gan yr ysgolion hynny ddigon o bobl ac offer i roi cyfle i bob disgybl gael addysg briodol (a.14(2)). Ystyr "addysg briodol", yn fras, yw addysg sy'n ddymunol o ystyried oeddrannau, galluoedd a thueddfrydau gwahanol y disgyblion a'r cyfnodau gwahanol y gellir disgwyl iddynt aros yn yr ysgol (a.14(3)).

Mae **Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod addysg lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgol neu y tu allan i ysgol i'r plant hynny o oedran ysgol gorfodol na fyddant o bosibl, oherwydd salwch, gwaharddiad o'r ysgol neu fel arall, yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oni gwneir y cyfryw drefniadau ar eu cyfer. At y dibenion hyn, caiff addysg addas ei diffinio yn y ddeddf fel "efficient education suitable to the age, ability, aptitude and to any special educational needs the child (or young person) may have." (a.19(6)).

Mae **Adran 19(4A) o Ddeddf Addysg 1996** yn darparu ar gyfer y canlynol: “In determining what arrangements to make under subsection (1) in the case of any child or pupil, a local education authority shall have regard to guidance given from time to time by the Secretary of State.”

Mae **Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996** yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w galluogi i adnabod y plant yn eu hardal nad ydynt yn cael addysg addas.

Os ymddengys i awdurdod addysg lleol nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal yn cael addysg addas, naill ai drwy fynychu ysgol yn rheolaidd neu fel arall, mae **Adran 437 (1) o Ddeddf Addysg 1996** yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod roi rhybudd ysgrifenedig i'r rhiant (gorchymyn mynychu ysgol) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhiant hwnnw fodloni'r awdurdod o fewn y cyfnod a nodir yn y rhybudd bod y plentyn yn cael y cyfryw addysg.

Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995 o dan reoliad 9(1)(c):

Dim ond o dan amodau penodol y gellir tynnu enw'r plentyn oddi ar gofrestr derbyn yr ysgol. Manylir ar hyn yn Adran 6.

Mae **Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002** (a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2004) yn gosod dyletswydd ar AALLau a chyrrff llywodraethu i gyflawni eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hybu lles plant. At y dibenion hyn, mae swyddogaethau yn cynnwys pwerau a dyletswyddau AALLau a chyrrff llywodraethu.

Mae **Deddf Plant 2004** yn cynnwys darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â diogelu a hybu lles plant yng Nghymru (adrannau 25-29) yn cynnwys:

- (a) dyletswydd ar bob awdurdod Gwasanaethau Plant i hybu cydweithrediad rhyngddo a chyrrff amrywiol eraill er mwyn gwella lles plant i'r graddau ei fod yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant (ymhlith pethau eraill);

- (b) dyletswydd ar gyrff amrywiol yn cynnwys awdurdodau Gwasanaethau Plant i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni gan ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.
- (c) darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu cronfeydd data at ddibenion trefniadau o dan a.175 o Ddeddf Addysg 2002 neu (a) a (b) uchod, a fframwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn y cyfryw gronfeydd data at ddibenion o'r fath.

Adran 52 Deddf Plant 2004 Mae'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddiogelu a hybu lles plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn cynnwys, yn benodol, ddyletswydd i hybu cyflawniad addysgol plentyn.

Mae **Deddf Plant 1989** yn cynnwys y darpariaethau canlynol:

Mae Adran 17 yn diffinio plentyn mewn angen fel '*s/he is unlikely to achieve or maintain (or have the opportunity to) a reasonable standard of health or development without the provision for him/her of services; or his/her health or development is likely to be significantly impaired, or further impaired, without the provision for him/her of such services; or s/he is disabled.*'

Mae Adran 47, Deddf Plant 1989 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud ymholiadau ynghylch amgylchiadau plant yr ystyrir eu bod mewn perygl o 'niwed sylweddol' a, phan fo'r ymholiadau hyn yn nodi angen, i gynnal ymchwiliad llawn i amgylchiadau'r plentyn. Mae A47(1) yn nodi, '*where as a result of any such enquiries, it appears that there are matters connected with the child's education which should be investigated, they shall consult the relevant local education authority*'.

(Mae Adran 31 yn nodi mai ystyr 'niwed' yw trin rhywun yn wael o ran ei iechyd neu ei ddatblygiad. Ystyr 'datblygiad' yw datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol).

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae deddfwriaeth ac arferion amddiffyn plant yn seiliedig ar egwyddorion sy'n deillio o Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU yn 1991. Yr egwyddorion hyn yw:-

- mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei drin fel unigolyn;
- mae gan bob plentyn a all ffurfio barn ar faterion sy'n effeithio arno yr hawl i fynegi'r farn honno os yw'n dymuno gwneud hynny;
- rhieni ddylai fod yn gyfrifol am fagu eu plant fel arfer a dylent rannu'r cyfrifoldeb hwnnw;
- mae gan bob plentyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag pob math o gamdriniaeth, esgeulustod neu gamfanteisio;
- i'r graddau ei fod yn gyson â diogelu a hybu lles y plentyn, dylai awdurdodau cyhoeddus hybu'r arfer o fagu plant yn eu teuluoedd;
- rhaid i unrhyw ymyrraeth gan awdurdod cyhoeddus ym mywyd plant gael ei chyfiawnhau'n briodol a dylai gael ei hategu gan wasanaethau pob asiantaeth perthnasol yn gweithio ar y cyd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)/Deddf Hawliau Dynol 1998 Caiff ymholiadau ynglŷn ag unigolion sydd ar goll eu cynnal o fewn y paramedrau cyfreithiol a nodir gan gyfraith gwlad o ran dyletswydd i ddarparu gofal a diogelwch ac o fewn cymysgedd o gonsesiynau cyfreithiol, cyfraith achos, cyfraith fewnol o ran ECHR a chyfreithiau gwladwriaethol, er enghraifft Deddf Hawliau Dynol 1998.

Gallai hawliau a rhyddid y Confensiwn a allai fod yn arbennig o berthnasol wrth ymchwilio i unigolion sydd ar goll gynnwys:-

Erthygl 2 Hawl i Fywyd

Mae'r erthygl hon yn gosod cyfrifoldeb cadarnhaol ar wasanaeth yr heddlu i ymateb yn effeithiol i bob adroddiad yn ymwneud ag unigolion sydd ar goll er mwyn nodi'r achosion hynny y mae angen rhoi mwy o sylw iddynt i leihau nifer yr achosion sy'n diweddu gydag unigolion yn colli eu bywyd neu'n cael eu niweidio.

Mae **Erthygl 2 Protocol 1** o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu ar gyfer y canlynol: "No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and teaching in conformity with their own religious and philosophical convictions."

Mae'r hawl gyffredinol i gael addysg yn cynnwys pedair hawl wahanol:

- (i) hawl i gael mynediad i'r cyfryw sefydliadau addysgol sy'n bodoli;
- (ii) hawl i gael addysg effeithiol (ond nid yr addysg fwyaf effeithiol posibl);
- (iii) hawl i gael cydnabyddiaeth swyddogol mewn perthynas â chymwysterau academaidd;
- (iv) o ran yr hawl i gael addysg effeithiol, er mwyn i'r hawl i gael addysg fod yn ystyrlon mae'n rhaid i ansawdd yr addysg gyrraedd safon ofynnol.

Erthygl 8 Hawl i Barch tuag at Fywyd Preifat a Theuluol

Wrth ymchwilio i amgylchiadau unrhyw unigolyn sydd wedi diflannu neu benodi Swyddog Ymchwilio/Swyddog Cyswllt Teulu, rhaid bod yn ymwybodol o'r ymyrraeth ym mywyd preifat yr unigolyn neu'r teulu hwnnw. Nodir yn benodol y sefyllfaoedd hynny lle mae unigolyn yn diflannu yn fwriadol; dylid parchu'r hawl i wneud hynny ond rhaid sicrhau cydbwysedd gyda hawliau'r plentyn, y person ifanc, y teulu a'r gymuned ehangach.

Yn gyffredinol, ni ddylid ymyrryd â'r hawliau hyn oni bai y rhagnodir y camau gweithredu o dan y gyfraith a bod angen cymryd y camau hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd am y rhesymau canlynol:-

Diogelwch y cyhoedd;
Atal trosedd ac anhrefn;
Diogelu iechyd a moesau;
Diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae pob un o'r rheini sy'n ymwneud â phlant yn debygol o feddu ar wybodaeth bersonol amdanynt, yn cynnwys gwybodaeth bersonol sensitif. Mae'r Ddeddf yn cwmpasu sut y caiff gwybodaeth bersonol am bobl fyw, adnabyddadwy ei diogelu. Mae'n rhaid i bob sefydliad sy'n dal neu'n prosesu data personol gydymffurfio â hi. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddata gael ei gasglu a'i brosesu'n deg, ei ddal yn ddiogel a'i ddefnyddio at y diben y'i casglwyd yn unig.

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Mae Adranau 86 ac 86A o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau derbyn wneud trefniadau sy'n galluogi rhieni plant yn eu hardal i ddewis ysgol i'w plentyn a rhoi rhesymau dros eu dewis. Lle bo rhiant yn dewis ysgol yn unol â'r trefniadau hyn, mae adranau 86 ac 86B yn rhoi dyletswydd benodol ar awdurdodau derbyn i fodloni'r dewis hwnnw, yn amodol ar eithriadau arbennig. Os na fodlonir dewisiadau'r rhieni mae ganddynt hawl statudol i apelio o dan adran 94 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Deddf Priodi dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2008

Mae Adran 55 o Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 yn rhoi dyletswydd ar Asiantaeth Ffiniau'r Deyrnas Unedig i ddiogelu lles plant. Mae hon yn debyg i'r ddyletswydd i ddiogelu o dan adran 28 o Ddeddf Plant 2004 sy'n gymwys i awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae Adran 55 o Ddeddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 yn diddymu Adran 21 o Ddeddf Ffiniau'r DU 2007.

Canllawiau a Gwybodaeth Gysylltiedig

Cylchlythyr Rhif 47/2006 - Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion

Cylchlythyr Rhif 1/2004 Llywodraeth Cynulliad Cymru
'Exclusion from Schools and Pupil Referral Units'

Cylchlythyr Rhif 12/2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru **Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004**

Cylchlythyr Rhif 005/2008: **Diogelu Plant mewn Addysg:**
Rôl awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 -
Cynhyrchwyd ar ran pob Bwrdd Lleol ar gyfer Diogelu Plant yng Nghymru - <http://www.awcpp.org.uk/9547.html?diablo.lang=cym>

Ymddygiad a Phresenoldeb: Cynllun Gweithredu yn Ymateb i'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb - <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/nbaractionplan/?skip=1&lang=cy>

Y Cod Derbyn i Ysgolion a'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion: Cod statudol Dogfen Rhif:002/2009 a Rhif:003/2009

Mae'r codau hyn yn cyflwyno gofynion ac yn cynnig canllawiau'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau o ran derbyn plant i ysgolion ac maent yn cynnwys canllawiau penodol ar blant sy'n agored i niwed - <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooladmission/?skip=1&lang=cy>

Adran 5 (Plant sy'n Colli Addysg a'r Gronfa Ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll) - **Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin** - cadw, gwaredu, datgelu a throsglwyddo gwybodaeth am ddisgyblion. Canllawiau Mai 2006. Cylchlythyr Rhif 18/2006

Mae **Adran 164 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006** yn diwygio Deddf Addysg 1996 (darparu gwybodaeth am ddisgybl unigol), drwy fewnosod adran newydd ar ôl 537A. Mae'r adran newydd hon, sef 537B, yn ymwneud â darparu gwybodaeth am blant sy'n cael addysg a ariennir y tu allan i'r ysgol ac, ym mis Ionawr 2010, cyflwynodd broses o gasglu data ar blant unigol a gaiff addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS). Bydd y broses gasglu

data yn canolbwyntio ar blant a addysgir y tu allan i'r ysgol fel y'u diffinnir yn Adran 19(1) o Ddeddf Addysg 1996 h.y. y plant hynny o oedran ysgol gorfodol na fyddant o bosibl, oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall, yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod.

Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gylchlythyr Rhif: 020/2009 **'Y siwrnai ddysgu i bobl ifanc y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) yn eu lleoli mewn Cartrefi Diogel i Blant yng Nghymru'**.

Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan: Cynllun Cyflenwi 2009-2011. Mae'r ddogfen hon wedi nodi 6 maes blaenoriaeth gan gynnwys gwella ymgysylltiad o ran addysg a hyfforddiant.

Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc o 11 i 25 Oed yng Nghymru, 2002

Ymestyn Hawliau: Eu Gwireddu, 2004

Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan - Medi 2009

Multi-agency practice guidelines: Handling cases of Forced Marriage - Gorffennaf 2009

Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell - Canllawiau a rheoliadau i gryfhau'r trefniadau ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a sicrhau eu hiechyd, eu haddysg a'u lles Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007

Rhestr Termiau

Amddiffyn plant

Mae hyn yn rhan o ddiogelu a hybu lles.

Mae'n cyfeirio at y camau a gymerir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef niwed sylweddol neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

Ffeil Drosglwyddo Gyffredin (CTF)

Ffeil ddata electronig yw hon, sy'n cynnwys data am ddisgyblion ac sy'n symud o ysgol i ysgol drwy'r system drosglwyddo gyffredin.

'Gwasanaethau cymdeithasol' neu 'wasanaethau plant awdurdod lleol'

Gwaith awdurdodau lleol sy'n cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phlant. Nid yw hynny'n golygu bod adran 'gwasanaethau cymdeithasol plant' ar wahân

Oedran ysgol gorfodol

Mae plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol pan fydd yn troi'n bump oed ac mae'n rhaid iddo ddechrau'r ysgol yn y tymor ar ôl ei ben-blwydd yn bump oed (oni chaiff y plentyn ei addysgu fel arall). Daw oedran ysgol gorfodol i ben pan fydd y plentyn yn troi'n 16 oed ar ôl y dyddiad gadael ysgol (y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin), ond cyn cychwyn y flwyddyn ysgol nesaf.

Rhiant/gofalwr

At ddibenion mynychu ysgol, mae'n cynnwys oedolyn sy'n gyfrifol am ofalu am y plentyn neu'r person ifanc o ddydd i ddydd.

Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD)

Rhif sy'n nodi pob disgybl yng Nghymru a Lloegr yw Rhif Unigryw'r Disgybl. Rhoddir RhUD i bob disgybl yn ôl fformiwla a bennir yn genedlaethol pan fydd yn dechrau yn yr ysgol (neu yn gynharach na hynny o bosibl mewn rhai achosion), a'r nod yw bod y disgybl yn cadw'r rhif hwnnw drwy gydol ei amser yn yr ysgol waeth p'un a fydd yn newid ysgol neu Awdurdod Lleol (ALI).

s2s

Y wefan ddiogel ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth o ysgol i ysgol. Fe'i defnyddir gan ysgolion ac AALLau i gyfnewid ffeiliau disgyblion a ffeiliau penodedig eraill. Mae gan y wefan ardal chwiliadwy a adwaenir fel y 'Gronfa Ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll' lle y caiff ffeiliau trosglwyddo cyffredin ar gyfer disgyblion ni wyddys i ble y maent wedi mynd, eu cadw'n ddiogel.

System Drosglwyddo Gyffredin (CTS)

Y system sy'n galluogi ysgolion ac AALLau i gyfnewid gwybodaeth am ddisgyblion unigol yn electronig pan fo disgybl yn newid ysgol. Mae'r system yn cynnwys meddalwedd system gwybodaeth reoli'r ysgol a'r wefan drosglwyddo ddiogel, gan gynnig system drosglwyddo lawn.

Ysgolion

Mae'r term 'ysgolion' yn cwmpasu ysgolion a gynhelir ac ysgolion arbennig nas cynhelir gan awdurdod addysg lleol (AALI).

Rhestr Talfyriadau

| | |
|-------|--|
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| CME | Plant sydd ar Goll o Addysg |
| CYPP | Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc |
| EMAS | Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig |
| EOTAS | Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| EWO | Swyddog Lles Addysg |
| EWS | Gwasanaeth Lles Addysg |
| LAC | Plentyn sy'n derbyn Gofal |
| LACE | Cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal |
| ALI | Awdurdod Lleol |
| AALI | Awdurdod Addysg Lleol |
| LSCB | Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant |
| MEAG | Grant Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| TES | Gwasanaeth Addysg i Deithwyr |
| YOS | Gwasanaeth Troseddau Ieuencid |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid |

Rhestr Wirio Arfer Da Mewn Perthynas â Phlant Sy'n Colli Addysg

Hunanwerthusiad

Defnyddiwch y categorïau canlynol i nodi pa mor dda mae'r Awdurdod Lleol yn cyflawni'r ddyletswydd i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn ei ardal:

- **Na: N**
(Nid ydynt wedi'u nodi'n flaenorol, ond mae trafodaethau wedi'u cynnal ac mae cynllun wedi'i lunio)
- **Gweithio Tuag At: G**
(Cyflawnwyd rhywfaint o'r hyn a ddisgwylir, nodwyd rhai bylchau, mae trafodaethau wedi'u cynnal ac mae cynllun wedi'i lunio)
- **Cyflawnwyd: C**
(Gall yr ALL ddarparu tystiolaeth i ategu ymatebion cadarnhaol i'r cwestiynau isod)
- **Wedi'i ymgorffori: Y**
(Gall yr ALL ddangos bod y polisi/prosesau/systemau wedi bod ar waith am gyfnod o amser a'u bod wedi'u hadolygu)

| Rheolaeth ac Arweinyddiaeth Strategol | N | G | C | Y |
|---|---|---|---|---|
| A oes gan yr awdurdod lleol bolisi ysgrifenedig - yn cynnwys amcanion, gweithdrefnau, rolau a chyfrifoldebau - y cytunwyd arno gyda phartneriaid mewn perthynas â phlant nad ydynt yn cael addysg addas? | | | | |
| A yw'r trefniadau i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas wedi'u hymgorffori yn nhrefniadau cynllunio strategol yr awdurdod lleol a'r trefniadau trawsbynciol ar gyfer diogelu a'r cydweithio rhyngasiantaethol i wella lles plant? A yw'r gwaith llywodraethu a chynllunio hwn yn cael ei drosi'n drefniadau gweithredol effeithiol? | | | | |
| A yw'r prosesau/rhifau yn cael eu monitro'n rheolaidd gan Uwch Reolwyr, Aelodau Arweiniol a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant? | | | | |

| Rhwydweithiau a Phwyntiau Cyswllt | N | G | C | Y |
|--|----------|----------|----------|----------|
| A yw'r awdurdod lleol wedi nodi'r rhanddeiliaid allweddol a all ddarparu gwybodaeth am blant/pobl ifanc heb ddarpariaeth addysgol addas yn ei ardal? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol wedi darparu ac wedi rhoi gwybod am lwybrau hysbysu i bob rhanddeiliad allweddol? | | | | |
| A oes gan yr awdurdod lleol enw cyswllt a all dderbyn manylion am blant nad ydynt yn cael addysg addas? | | | | |
| A oes gan y rôl hon neu'r rheini y dirprwyir y dyletswyddau iddynt gyfrifoldebau clir? | | | | |

| Systemau Gwybodaeth | N | G | C | Y |
|---|----------|----------|----------|----------|
| A yw'r awdurdod lleol yn cynnal cronfa ddata o blant nad ydynt yn cael addysg addas ar hyn o bryd? | | | | |
| Os felly, a yw'r gronfa ddata yn cynnwys meysydd megis: Dyddiad yr atgyfeiriwyd y plentyn/person ifanc; Dyddiad yr asesiad, os oes angen; Dyddiad y pennwyd y math o ddarpariaeth; Dyddiad yr ystyriwyd nad oedd darpariaeth addysg yn y cartref yn addas Dyddiad y symudwyd i'r ddarpariaeth. | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn monitro nifer y plant/pobl ifanc yn yr awdurdod nad ydynt yn cael addysg addas, yn cynnwys y rheini sy'n newydd i'r ardal neu'r wlad? | | | | |
| A oes rheolau a gweithdrefnau mynediad clir ar waith er mwyn sicrhau bod data yn cael ei brosesu mewn ffordd deg/diogel? | | | | |

| Sicrhau Darpariaeth Addysg | N | G | C | Y |
|---|----------|----------|----------|----------|
| A oes gan yr awdurdod lleol brosesau clir ar gyfer sicrhau cymorth gan asiantaethau eraill pan fydd ei angen e.e. ar gyfer rhesymau lles neu iechyd? | | | | |
| A oes gan yr awdurdod lleol broses y cytunwyd arni ar gyfer sicrhau darpariaeth addysgol addas i blant pan ddeuir o hyd iddi? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn monitro pa mor gyflym y mae plant yn symud i'r ddarpariaeth? | | | | |
| A oes gan yr awdurdod lleol systemau gwybodaeth ar waith sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion a'r lleoedd sydd ar gael gyda darparwyr amgen? | | | | |

| Systemau Effeithiol ar gyfer Monitro Disgyblion | N | G | C | Y |
|--|----------|----------|----------|----------|
| A oes gan yr awdurdod lleol systemau ar waith i atal plant rhag bod mewn sefyllfa lle nad ydynt yn cael addysg addas? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn cadw cofnod o blant sydd wedi gadael darparwyr addysgol (ysgol, dalffa a darpariaeth amgen) heb roi gwybod i ble maent yn mynd? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn cadw cofnod o blant yr ystyrir nad yw eu rhieni neu ofalwyr, tadau yn ogystal â mamau, yn rhoi addysg addas iddynt a nodyn o'r camau a gymerwyd ganddo i fynd i'r afael â'r pryderon hyn? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn olrhain plant yn rheolaidd hyd nes eu bod wedi'u cofrestru gyda darparwr newydd? | | | | |

| Systemau Effeithiol ar gyfer Monitro Disgyblion | N | G | C | Y |
|---|----------|----------|----------|----------|
| A oes gan yr awdurdod lleol system y cytunwyd arni gydag ysgolion mewn perthynas â phlant sy'n gadael darpariaeth sy'n sicrhau bod ysgolion yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i atal sefyllfa lle nad yw plant yn cael addysg addas? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn helpu ac yn annog ysgolion i drosglwyddo ffeiliau drwy s2s? | | | | |
| A oes gan yr awdurdod lleol swyddog dynodedig sy'n weinyddwr cronfa ddata ar gyfer s2s gyda chyfrifoldeb am y Gronfa Ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll? | | | | |
| A yw'r awdurdod lleol yn lanlwytho ac yn lawrlwytho data o'r adran chwiliadwy ar wefan s2s a adwaenir fel y Gronfa Ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll? | | | | |

Tystiolaeth i ddangos statws 'Cyflawnwyd'

(1) Y polisi ei hun a ddylai gael ei rannu gydag o leiaf lechyd, Addysg (yn cynnwys pob ysgol yn yr ardal), Gofal Cymdeithasol Plant, yr Heddlu, Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid a Thai a'i ddeall ganddynt. Dylai'r ddogfen/dogfennau sy'n cynnwys y polisi gynnwys:

- sefyllfa'r awdurdod ar hyn o bryd;
- tystiolaeth ynghylch graddfa a natur unrhyw broblem sy'n;
- ymwneud â phlant nad ydynt yn cael addysg addas;
- ffyrdd o fynd i'r afael â'r sefyllfa drwy waith amlasiantaeth;
- trefniadau ar gyfer monitro.

- (2) Gall yr awdurdod ddarparu copïau o gofnodion, neu gall gynhyrchu cofnodion rheolaidd yn hawdd. Ystyr 'Rheolaidd' yw Tymhorol.
- (3) Gall yr awdurdod ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n rhestru asiantaethau eraill yn ei ardal y mae ei unigolyn arweiniol a enwyd wedi siarad â hwy, wedi cyfeirio plant atynt a/neu wedi rhoi manylion plant nad ydynt yn cael addysg addas iddynt, ynghyd ag asiantaethau eraill a'r cyhoedd y maent wedi cael manylion plant nad ydynt yn cael addysg addas ganddynt.
- (4) Dylid sicrhau bod dogfennau ar gael sy'n dangos llwybrau hysbysu, a thystiolaeth bod y wybodaeth hon wedi'i lledaenu. Dylid lledaenu'r wybodaeth drwy: deunydd post, gwefan, taflenni ac ati. Yn ei hanfod, os cysylltir â nifer o randdeiliaid sy'n debygol o fod yn rhai pwysig, gallant ddweud yn hawdd sut maent yn hysbysu'r awdurdod.
- (5) Os cysylltir ag ef, gall yr awdurdod roi enw unigolyn neu unigolion sy'n gyfrifol am dderbyn gwybodaeth am blant nad ydynt yn cael addysg addas.
- (6) Mae'r unigolyn/unigolion yn (5) yn hawdd cael gafael arnynt, a gallant ddarparu gwybodaeth ar eu rôl a therfynau eu cyfrifoldeb yn hawdd ac os nad ydynt yn gyfrifol, maent yn gwybod pwy sy'n gyfrifol.
- (7) Gall yr awdurdod ddarparu ffigurau cywir, gwiriadwy a diweddar (dim mwy na mis oed), a thueddiadau dros amser, ynghyd â disgrifiad o'r ffordd y caiff y ffigurau hyn eu casglu a'u cyfrifo.
- (8) Gall yr awdurdod ddarparu gwybodaeth am unrhyw achos yn y gronfa ddata a dangos y dyddiadau canlynol: dyddiad hysbysu, dyddiad asesu (os oes angen), dyddiad y nodwyd darpariaeth briodol a'r dyddiad y cafwyd mynediad gwirioneddol i'r ddarpariaeth honno.
- (9) Gall yr awdurdod ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n dangos bod y wybodaeth ddiweddaraf am nifer y plant nad ydynt yn cael addysg addas yn cael ei hanfon at uwch swyddogion cyfrifol yn y sefydliad yn rheolaidd. Yn ddelfrydol, dylai'r niferoedd ddod o'r un system sy'n darparu data mewn ymateb i (8).

(10) Gall yr awdurdod ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r dull a ddefnyddir ganddo i nodi plant mewn grwpiau y gwyddys eu bod yn agored i niwed yn ei ardal. Mae dogfennau hefyd sy'n nodi sut y caiff statws addysgol y grwpiau hyn ei fonitro. Yn ddelfrydol, dylai'r broses fonitro fod yn gadarn, hynny yw, dylai ddibynnu ar fwy nag un ffynhonnell ddata i nodi'r sefyllfa o ran plant mewn grwpiau y gwyddys eu bod yn agored i niwed yn ei ardal.

(11) Mae pob aelod o staff yn yr awdurdod sy'n debygol o orfod delio ag unrhyw ddata ar blant nad ydynt yn cael addysg addas yn gwybod y rheolau a'r gweithdrefnau mynediad sydd ar waith i sicrhau y caiff data ei brosesu'n deg/diogel ac maent yn eu deall. Dylai unrhyw achos a ddewisir ar hap ddangos bod y prosesau hyn ar waith os caiff ei olrhain hyd at y cam pan dderbynnir cymorth. Dylai'r wybodaeth hon fod yn gyson â gweithdrefnau ysgrifenedig y cytunwyd arnynt.

(12) Mae staff perthnasol yn yr awdurdod a'r rheini yn y gwasanaethau cymorth a'r asiantaethau partner perthnasol yn gwybod am weithdrefnau dogfennol ar gyfer sicrhau cymorth gan wasanaethau eraill, yn eu deall ac yn cytuno â hwy. Dylai unrhyw achos a gaiff ei olrhain drwy'r system sy'n galw am gymorth o'r fath adlewyrchu'r weithdrefn a ddogfennwyd.

(13) Mae staff perthnasol yn gwybod am weithdrefnau a ddogfennwyd ar gyfer ceisio sicrhau darpariaeth briodol, yn eu deall, yn cytuno â hwy ac yn eu dilyn yn rheolaidd, fel bod unrhyw achos a gaiff ei olrhain yn adlewyrchu'r gweithdrefnau hynny mewn egwyddor ac yn dangos cofnodion o unrhyw fethiannau i sicrhau darpariaeth.

(14) Gall yr awdurdod ddarparu tystiolaeth ddogfennol sy'n dangos bod y wybodaeth ddiweddaraf am, er enghraifft, yr amser cymedrig a moddol a'r ystod o amser a gymerir i gael gafael ar ddarpariaeth yn cael ei hanfon at uwch swyddogion cyfrifol yn y sefydliad yn rheolaidd. Yn ddelfrydol, dylai'r data ddod o'r un system sy'n darparu data mewn ymateb i (8).

(15) Gall yr awdurdod ddarparu ffigurau cywir, gwiriadwy a diweddar (dim mwy na mis oed) ar nifer y lleoedd sydd ar gael, wedi'u dadansoddi yn ôl darpariaeth statudol a darpariaeth amgen o leiaf. Dylai disgrifiad o'r ffordd y caiff y ffigurau hyn eu casglu a'u cyfrifo fod ar gael.

(16) Gall yr awdurdod ddarparu ffigurau cywir, gwiriadwy a diweddar (dim mwy na mis oed) ar nifer y plant sydd wedi gadael addysg heb roi gwybod i ble maent yn mynd. Dylai disgrifiad o'r ffordd y caiff y ffigurau hyn eu casglu a'u cyfrifo fod ar gael.

(17) Gall yr awdurdod ddarparu tystiolaeth ddogfennol o weithdrefnau dilynol, ynghyd ag enw cyswllt yr unigolyn sy'n gyfrifol am waith dilynol. Dylai unrhyw achos a gaiff ei olrhain ddangos tystiolaeth o gyswllt dilynol rheolaidd (o leiaf bob mis) hyd nes y caiff yr achos ei gofrestru gyda darparwr newydd neu unigolyn dynodedig yr awdurdod lleol.

(18) Mae tystiolaeth ddogfennol ar gael sy'n disgrifio'r broses ar gyfer plant sy'n gadael darpariaeth. Dylai fod tystiolaeth bod pob awdurdod ysgol yn yr ardal wedi cytuno ar y broses hon a dylai cyswllt â staff sy'n gyfrifol am weithredu'r gweithdrefnau hyn ddangos gwybodaeth sy'n gyson â dealltwriaeth o'r broses. Dylai unrhyw achos a gaiff ei olrhain ar ôl gadael y ddarpariaeth ddangos tystiolaeth sy'n adlewyrchu'r ffaith bod y broses wedi'i dilyn yn briodol.

(19) Gall yr awdurdod ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r cymorth a roddir i bob ysgol, a'r anogaeth briodol a roddir i bob ysgol o ran defnyddio'r system s2s. Dylai staff perthnasol mewn unrhyw ysgol a ddewisir ar hap yn yr awdurdod allu dangos eu bod yn ymwybodol o'r system o leiaf. Yn ddelfrydol, os nad ydynt yn ei defnyddio ar hyn o bryd, dylent allu dangos tystiolaeth o'r cymorth a gafwyd gan yr awdurdod i wneud hynny. Dylai'r cymorth hwn gynnwys darparu deunyddiau perthnasol a phriodol ar sut i ddefnyddio'r system fan lleiaf.

(20) Os cysylltir ag ef, gall yr awdurdod roi enw unigolyn neu unigolion sy'n gyfrifol am weinyddu'r system s2s.

(21) Os cysylltir â hwy, gall yr unigolyn/unigolion a enwir yn (21) ddarparu tystiolaeth ddogfennol y caiff data ei lanlwytho a'i lawrlwytho'n rheolaidd (o leiaf bob mis) i'r/o'r Gronfa Ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll. Gall y dystiolaeth hon gynnwys adroddiadau sydd wedi'u lanlwytho a'u lawrlwytho ar gyfer pob sesiwn.

Hysbysiad i'r Awdurdod Lleol bod Plentyn Neu Berson Ifanc yn Colli Addysg

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan unrhyw weithiwr proffesiynol neu asiantaeth sy'n cynnal asesiad neu sy'n ymwybodol o blentyn neu berson ifanc o oedran ysgol gorfodol nad yw'n ymddangos fel pe bai'n mynychu ysgol.

Logo
Ysgol/
Sir

| Enwau: | Dyddiad Geni | Gwryw/ Benyw |
|---|--|-----------------|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| Cyfeiriad: | Ffôn: | |
| Manylion Rhiant/Rhieni neu Ofalwr/Gofalwyr: | | |
| Perthynas: | | |
| Cyfeiriad blaenorol os ydynt yn newydd i'r ardal: | | |
| Hyd eithaf eich gwybodaeth a yw'r plentyn neu'r person ifanc yn: Ffoadur/Ceisiwr Lloches Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/> | | |
| Ar y Gofrestr Amddiffyn Plant: Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/> | Mewn Gofal Cyhoeddus: Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/> | |
| Rheswm dros atgyfeirio: | | |
| Nid yw wedi'i gofrestru mewn ysgol <input type="checkbox"/> | Ni wyddys a yw wedi'i gofrestru mewn ysgol <input type="checkbox"/> | |

Sut daeth y plentyn/person ifanc hwn i'ch sylw a beth yw eich pryderon?

Unrhyw wybodaeth ychwanegol am y ddarpariaeth addysgol flaenorol: *(yn y gorffennol neu'r presennol: e.e. dyddiad y ddarpariaeth addysg ddiwethaf, anawsterau y gwyddys amdanynt o ran presenoldeb ac ati)*

A oes unrhyw asiantaethau eraill y gwyddys eu bod yn ymwneud â'r plentyn/person ifanc dan sylw? Rhowch fanylion:

Unrhyw wybodaeth berthnasol arall yn cynnwys unrhyw ffactorau diogelwch y dylid eu cydnabod wrth ymweld â'r teulu hwn:

Manylion yr Asiantaeth sy'n Gwneud yr Atgyfeiriad:

Enw'r Sawl sy'n Gwneud yr Atgyfeiriad:

Swydd:

Cyfeiriad:

Rhif ffôn:

E-bost:

Rhesymau pam mae'r gweithiwr proffesiynol a wnaeth yr atgyfeiriad ynghlwm wrth yr achos ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall:

Dyddiad y daeth yr asiantaeth i wybod bod y plentyn/person ifanc hwnnw yn colli addysg:

Priodasau dan Orfod

Lleihau'r Risgiau - camau gweithredu ar gyfer yr awdurdod lleol

Dylai camau i godi ymwybyddiaeth a champau ataliol fod yn rhan allweddol o ymateb pob awdurdod lleol i briodasau dan orfod. Gellir gwneud hyn drwy:

- ganolbwyntio ar arwyddion rhybudd mewn ysgolion, colegau, lleoliadau ieuencid a chymunedau lleol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt, sut y gallant geisio help a'r cymorth sydd ar gael iddynt yn eu hardal leol;
- darparu hyfforddiant a chymorth i ymarferwyr mewn perthynas â'r materion sy'n gysylltiedig â phriodasau dan orfod, y perygl y mae'r dioddefwyr yn ei wynebu a'r help y gellir ei gynnig.

Yn ogystal â:

- sicrhau bod pobl ifanc yn gallu defnyddio cyfleusterau rhoi gwybod am briodasau dan orfod yn haws;
- gwella gwaith cydgysylltu a chydweithio ar briodasau dan orfod rhwng pob asiantaeth a gwasanaeth allweddol mewn perthynas ag unrhyw fforwm neu brotocol Priodasau dan Orfod (ysgolion, swyddogion lles addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Adrannau Addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol).

Lleihau'r Risgiau - Camau gweithredu i ysgolion

I ferched ifanc nad oes ganddynt gymaint o ryddid ac sydd mewn perygl o gael eu gorfodi i briodi, efallai mai ysgolion a cholegau yw'r unig lefydd y gallant geisio help. Anaml iawn y mae pobl ifanc yn teimlo y gallant ddatgelu eu teimladau am briodasau dan orfod. Fodd bynnag, mae rhai arwyddion rhybudd a allai ddangos bod priodas dan orfod yn cael ei threfnu o bosibl:

- absenoldeb ac absenoldeb parhaus, absenoldeb estynedig a methiant i ddychwelyd o ymweliadau â'r famwlad;

- dirywiad mewn ymddygiad, ymgysylltiad, perfformiad neu brydlondeb;
- rhieni yn cyfyngu'n eithafol arnynt ac yn rheoli eu symudiadau ac yn gwrthod rhoi caniatâd iddynt fynychu gweithgareddau allgyrsiol;
- chwiorydd neu frodyr yn gadael addysg i briodi'n gynnar;
- ofn ynghylch gwyliau ysgol sydd ar ddod;
- cael eu gwyllo gan frodyr/chwiorydd neu gefndryd/cyfnitherod yn yr ysgol;
- tystiolaeth o hunan-niwed, triniaeth ar gyfer iselder ysbryd, ymgais i gyflawni hunanladdiad, ynysu cymdeithasol, anhwylderau bwyta neu gam-drin sylweddau.

Efallai na fydd person ifanc sy'n dangos unrhyw rai o'r arwyddion uchod mewn perygl o reidrwydd, ond os bydd unrhyw bryderon ynghylch y posibilrwydd o briodas dan orfod nodir crynodeb o adnoddau a chymorth yn Adran 3, rhan C.

Contract rhwng y Cartref a'r Ysgol ar gyfer Gwyliau Estynedig

I'w gytuno a'i gwblhau gan gynrychiolydd yr ysgol a'r rhiant/
gwarcheidwad

Logo
Ysgol/
Sir

| Enw'r Disgybl/Disgyblion: | Dyddiad Geni | Blwyddyn |
|--|--------------|----------|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| Enw'r Ysgol: | | |
| Pennaeth: | | |
| Lle yr Ymwelir ag ef: | | |
| Dyddiad yr ymweliad: | | |
| Dyddiad dychwelyd y cytunwyd arno: | | |
| Cyfeiriad/manylion cyswllt ar gyfer yr ymweliad: | | |
| Rhif ffôn symudol: | | |
| Manylion cyswllt yn y DU: (<i>enw, cyfeiriad a rhif cyswllt perthynas neu ffrind y gallwn gysylltu â hwy tra rydych i ffwrdd</i>) | | |

Bydd yr ysgol yn trafod â'r rhiant/rhieni neu'r gwarcheidwad/gwarcheidwaid y posibilrwydd y gallant fynd â gwaith ysgol gyda hwy i sicrhau bod y plentyn/person ifanc yn cadw i fyny gyda'i addysg yn ystod yr ymweliad dramor.

Os na fydd y disgybl/disgyblion yn dychwelyd erbyn y dyddiad y cytunwyd arno, bydd/byddant mewn risg o golli ei le/eu lle yn yr ysgol.

Gall methiant i ddychwelyd ar y dyddiad y cytunwyd arno godi pryderon ynglŷn â lles; gall plentyn neu berson ifanc sy'n mynd ar goll o addysg gael ei ystyried yn blentyn neu'n berson ifanc sydd mewn perygl o niwed sylweddol.

Caiff unrhyw bryderon o'r fath eu cyfeirio ar unwaith at yr awdurdodau statudol i'w hystyried.

Llofnodwyd: **Rhiant neu
Warcheidwad** Dyddiad:

Llofnodwyd: **Pennaeth** Dyddiad:

Asesu i ba raddau y mae plentyn neu berson ifanc yn agored i niwed fel rhan o'r broses atgyfeirio

Mae'n rhaid ailasesu i ba raddau y mae plentyn yn agored i niwed yn rheolaidd oherwydd gall gynyddu yn dibynnu ar wybodaeth newydd neu ddiffyg gwybodaeth, a gall treigl amser ynddo'i hun arwain at fwy o bryderon.

Drwy'r broses gofrestru, mae'r ysgol yn dod i wybod nad yw plentyn neu berson ifanc yn yr ysgol. Dylai'r ysgol:

1. Cysylltu â'r rhiant/gofalwr dros y ffôn i ganfod pam mae'r plentyn neu'r person ifanc yn absennol.
2. Os yw'r rhiant/gofalwr yn ateb yr alwad ac nid yw eu plentyn gyda hwy neu ni wyddys a yw'r plentyn yn ddiogel a'u bod yn poeni amdano, dylid eu cynghori i gysylltu â'r holl bobl sy'n adnabod eu plentyn yn yr ardal leol, neu'r lleoedd y gwyddys fod eu plentyn yn ymweld â hwy.
3. Os nad oes ateb, neu os mai unigolyn arall ar wahân i'r rhiant/gofalwr a atebodd ac nad yw'r ysgol wedi cael sicrwydd bod y plentyn neu'r person ifanc gartref neu y gwyddys ei fod yn ddiogel, neu os atebodd y rhiant/gofalwr ond nad yw eu plentyn gyda hwy ac nad ydynt yn poeni amdano, dylai'r ysgol ystyried, ar y cyd ag aelod staff dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant, i ba raddau y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed, er mwyn penderfynu a yw'n briodol ei atgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol a/neu'r heddlu.

Dylid ystyried y materion a'r cwestiynau canlynol:

Mwy o Flaenoriaeth

A oes rheswm da dros gredu y gallai trosedd fod wedi'i chyflawni? Gallai'r cwestiynau canlynol eich helpu i ddod i benderfyniad:

- A yw'r ymddygiad hwn yn sydyn ac yn annisgwyl iawn?
- A yw'r plentyn/person ifanc wedi mynd ar goll gyda'i deulu?
- A yw'r plentyn/person ifanc wedi mynd ar goll heb ei deulu?

Os rhoddwyd atebion cadarnhaol, yna dylid atgyfeirio'r achos at yr heddlu a Swyddog Dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer Diogelu Plant, yn unol â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant

| | |
|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> • A oes unrhyw reswm yn ymwneud ag iechyd, ethnigrwydd neu ddiwylliant dros gredu bod y plentyn/person ifanc mewn perygl o niwed? (e.e. priodasau dan orfod, anffurfio organau atgynhyrchu merched) • A fu amheuan yn y gorffennol ynglŷn â'r plentyn a'r teulu hwn sydd, ynghyd â'r diflaniad sydyn, yn peri pryder? <p>Os oes pryder gwirioneddol bod diogelwch a/neu les person ifanc mewn perygl, mae'n hanfodol gweithredu'n gyflym, gan y gall oedi arwain at fwy o broblemau, a gall hefyd rwystro ymchwiliad effeithiol i amgylchiadau byw'r plentyn.</p> | <p>Os felly, dylid hysbysu'r gweithiwr Gwasanaethau Cymdeithasol penodedig ar unwaith a fydd yn atgyfeirio'r achos at yr heddlu, yn unol â gweithdrefnau lleol fel y bo'n briodol.</p> |
| <p><i>A yw'r plentyn/person ifanc yn destun cynllun amddiffyn plant (ar y Gofrestr Amddiffyn Plant) neu a fu cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol yn y gorffennol mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant?</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol? <p>Gallai'r canlynol eich helpu hefyd i benderfynu a ddylid atgyfeirio plentyn ai peidio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gysylltiedig ar hyn o bryd? • A fu unrhyw ddigwyddiadau bywyd diweddar o fewn y teulu a allai fod yn arwyddocaol yn sgîl y diflaniad sydyn hwn? (e.e. newidiadau yn y cartref, genedigaethau neu farwolaethau, ysgariad, colli gwaith); • Beth yw oedran y plentyn/person ifanc? (mae plant iau yn wynebu mwy o berygl) • A yw'r plentyn/person ifanc wedi dioddef bwlio neu wedi cael anghydfodau gyda staff? | <p>Os felly, dylid hysbysu'r Gweithiwr Cymdeithasol penodedig (neu Weithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd os nad oes un wedi'i benodi i'r plentyn) a'r Swyddog Lles Addysg neu Weithiwr Presenoldeb yr Ysgol.</p> <p>Gellir atgyfeirio fel sy'n briodol at yr Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddog Dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer Amddiffyn Plant, Swyddog Lles Addysg neu Weithiwr Presenoldeb yr Ysgol.</p> |

- A fu amheumon yn y gorffennol sydd, ynghyd â'r diflaniad syniad, yn peri pryder?
- A fu unrhyw bryderon ynglŷn â'r plentyn/person ifanc yn cyfeillachu â phobl ifanc llawer hŷn neu oedolion?
- A oes rhesymau iechyd dros gredu bod y plentyn/person ifanc mewn perygl? e.e. meddyginiaeth hanfodol.
- A fu unrhyw bryderon yn y gorffennol ynghylch y plentyn a'r teulu, e.e.: defnydd o gyffuriau/alcohol neu drais domestig?

Os bu pryderon, rhaid i'r ysgol benderfynu a ddylid gweithredu, cyflymder yr ymateb ac a oes angen defnyddio gweithdrefnau Byrddau Lleol ar gyfer Diogelu Plant.

Llai o Flaenoriaeth

Gallai'r canlynol ddynodi y gallai'r teulu fod yn osgoi cyswllt ac felly mae'n fwy tebygol y gellir ei olrhain os ymatebir yn gyflym. Gall oedi arwain at gyfnodau hwy o addysg fylchog i'r plentyn/pobl ifanc.

- A fu Plant a Theuluoedd (gwasanaethau cymdeithasol) yn gysylltiedig yn y gorffennol?
- A oes hanes o symud?
- A oes problemau'n ymwneud â mewnfudo?
- A oes hanes o bresenoldeb gwael?
- A oes problemau'n codi yn sgîl statws mewnfudo neu loches y plentyn/person ifanc neu ei deulu?
- A yw'r ysgol neu'r awdurdod lleol wedi ymyrryd mewn perthynas â phresenoldeb, e.e. ymweliadau gan y Gwasanaeth Lles Addysg, contractau rhianta a Hysbysiad Cosb Benodedig mewn perthynas â phresenoldeb?
- A yw'r plentyn/person ifanc yn destun Asesiad Statudol (o Anghenion Addysgol Arbennig)?

Os felly, dylid atgyfeirio'r achos at Swyddog Lles Addysg neu Weithiwr Presenoldeb yr Ysgol.

Ffurflen Holi - Symud Plant/Pobl Ifanc

Nodwyd bod y plant/pobl ifanc isod wedi symud i'ch awdurdod.
A fydddech cystal â gwneud ymholiadau i weld a ydynt bellach yn byw yn eich ardal? Os nad ydynt yn hysbys, a fydddech cystal â rhoi gwybod i mi cyn gynted â phosibl.

Logo
Ysgol/
Sir

| | |
|----------------------|----------------------------|
| Dychweler at: | Dyddiad yr ymholiad |
| | |

| Enw | Dyddiad Geni | Ysgol ddiwethaf a fynychwyd | Ysgol y derbyniwyd iddi |
|--|-----------------|--------------------------------|----------------------------|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| Cyfeiriad hysbys diwethaf: | | | |
| Sylwadau: (Unrhyw asiantaeth sy'n gysylltiedig ac ati) | | | |
| Rhiant/Gofalwr: | | | |
| Cadarnhad o'r cyfeiriad presennol: | | | |
| A ofynnwyd am gofnodion yr ysgol? | | | |

| | |
|--|--|
| Sylwadau ychwanegol: | |
| Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r ffurflen: | |
| Swydd: | |
| Manylion cyswllt: | |
| Dyddiad y cwblhawyd y ffurflen: | |

Rhestr Wirio 'Plant a Phobl Ifanc sy'n Colli Addysg'

Camau i'w cymryd gan **Ysgolion** i ddod o hyd i'r plentyn/person ifanc

Logo
Ysgol/
Sir

| Enw: | C/B | Dyddiad Geni | Blwyddyn yn y Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---------------------------|-----|--------------|--------------------------------------|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| Enw'r rhieni/prif ofalwr: | | | |
| Cyfeiriad: | | Ffôn: | |

CAMAU A GYMERWYD GAN YR YSGOL - A yw'r ysgol wedi gwneud y canlynol? Atodwch y rhestr wirio hon ac unrhyw dystiolaeth; llythyrau a anfonwyd ac ati.

Os oes gan yr ysgol unrhyw bryderon Amddiffyn Plant, rhaid cyfeirio'r mater ar unwaith at y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu Rhaid i chi atgyfeirio'r achos at y Swyddog Lles Addysg o hyd, hyd yn oed os gwnaed atgyfeiriad amddiffyn plant.

| Camau gweithredu | Dyddiad | Canlyniad |
|--|---------|-----------|
| Ffonio/cysylltu ar y diwrnod cyntaf | | |
| Ceisio cysylltu â phob cyswllt mewn argyfwng dros y ffôn | | |

| Camau gweithredu | Dyddiad | Canlyniad |
|--|---------|-----------|
| Ysgrifennu i'r cyfeiriad hysbys diwethaf ac i gyfeiriad cysylltiadau mewn argyfwng os ydynt yn hysbys | | |
| Siarad â'r asiantaethau priodol h.y. Gyrfa Cymru, gweithwyr ieuentid, nyrs ysgol | | |
| Holi'r gymuned ysgol ehangach e.e. staff, disgyblion eraill, gofalmwyr, ffrindiau ac unrhyw berthnasau sy'n hysbys | | |
| Os yw chwirydd/brodyr yn mynychu gwahanol ysgolion, cysylltu â hwy i rannu gwybodaeth | | |
| Unrhyw gyswllt/gwybodaeth berthnasol arall | | |

| Manylion yr Atgyfeiriad | |
|--|--|
| Dyddiad yr atgyfeiriwyd yr achos at y Swyddog/Gwasanaeth Lles Addysg | |
| Enw'r Ysgol | |
| Enw'r Atgyfeiriwr | |
| Swydd yr Atgyfeiriwr | |
| Rhif Cyswllt yr Atgyfeiriwr | |

DS - Peidiwch â'i ddileu o'r gofrestr hyd nes y bydd y Gwasanaeth Lles Addysg wedi gorffen ei ymchwiliadau a bod cadarnhad wedi dod i law.

Rhestr Wirio 'Plant a Phobl Ifanc sy'n Colli Addysg'

Camau i'w cymryd gan **Awdurdod Lleol** i ddod o hyd i'r plentyn/person ifanc

Logo
Ysgol/
Sir

| Enw | Dyddiad Geni | Blwyddyn yn y Cwricwlwm Cenedlaethol |
|---------------------------|--------------|--------------------------------------|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| Enw'r rhieni/prif ofalwr: | | |
| Cyfeiriad: | | Ffôn: |

| | Camau a Gymerwyd | Pwy a Phryd | Canlyniad |
|----|--|-------------|-----------|
| 1. | Archwilio cofnodion mewnol yr ysgol a holi aelod o staff h.y. athro dosbarth, YT, HoS | | |
| 2. | Holi ffrindiau, brodyr/chwiorydd, a pherthnasau eraill y plentyn | | |
| 3. | Galwadau ffôn/anfon llythyrau | | |
| 4. | Ymweld â'r Cartref | | |
| 5. | Gwneud ymholiadau yn y Gymdogaeth (<i>ceisiwch ddarganfod a yw'r llety yn eiddo i'r cyngor, yn eiddo i gymdeithas tai, yn cael ei rentu'n breifat neu'n eiddo i'r teulu - nodwch y manylion</i>) | | |
| 6. | Holi'r Tîm Derbyn Disgyblion i Ysgolion. Chwilio Cronfeydd Data Disgyblion/ Capita am frodyr/chwiorydd eraill | | |

Canllawiau statudol
i helpu i atal plant a phobl
ifanc rhag colli addysg

Mawrth 2017

Cylchlythyr canllawiau
rhif: 002/2017

| | Camau a Gymerwyd | Pwy a Phryd | Canlyniad |
|--|---|--------------------|------------------|
| 7. | Holi'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Derbyn ac Asesu) | | |
| 8. | Holi asiantaethau y gwyddys eu bod yn ymwneud â'r teulu - e.e. Iechyd Plant os es unrhyw blant yn y teulu o dan 4 oed. Gwasanaeth Troseddau Ieuencid | | |
| 9. | Holi'r Adran Tai | | |
| 10. | Holi adrannau Refeniw'r ALL - Budd-dal Tai - Y Dreth Gyngor - Cofrestr Etholwyr | | |
| Lle gwyddys bod achosion o Gam-drin Domestig wedi digwydd, dylid holi'r sefydliadau canlynol: | | | |
| 1. | Cymorth i Fenywod | | |
| 2. | Uned Diogelwch Menywod | | |

Os bydd y plentyn ar goll o hyd ar ôl i chi gwblhau'r rhestr wirio uchod a gorffen eich ymholiadau i gyd, dylech drafod â'ch Rheolwr Llinell a ddylid dileu enw'r plentyn/person ifanc o'r gofrestr ysgol.

1. Atodwch y rhestr wirio hon ac unrhyw dystiolaeth e.e. llythyrau a anfonwyd/ymatebion a gafwyd ac ati i'ch taflenni atgyfeirio.
2. Ar ôl ei chwblhau, anfonwch gopi o'r rhestr wirio hon, ynghyd â chopi o Dystysgrif Presenoldeb y plentyn, at y swyddog a enwyd a fydd yn cadw cofnod o bob plentyn 'sydd ar goll'.
3. Gwnewch yn siŵr bod Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y disgybl wedi'i lanlwytho ar y Gronfa Ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll ar s2s

Enw'r Ysgol: Dyddiad dileu:

Awdurdodwyd gan: Swydd:

Enw'r Swyddog Lles Addysg: Dyddiad:

Canllawiau statudol
i helpu i atal plant a phobl
ifanc rhag colli addysg
Mawrth 2017
Cylchlythyr canllawiau
rhif: 002/2017

Pan fo Plentyn neu Berson Ifanc yn Absennol a'r Ysgol yn Methu Cysylltu â'r Rhieni

| | |
|-----------------------------|---|
| <p>Diwrnod 1</p> | <p>Yn ystod cofrestru, mae'r ysgol yn nodi nad yw plentyn/person ifanc yn bresennol. Ar ôl cwblhau'r gweithdrefnau Cysylltu ar y Diwrnod Cyntaf, mae'r ysgol yn nodi y gallai'r plentyn/person ifanc fod 'ar goll'. Dylai'r ysgol ddefnyddio'r Rhestr Wirio i Ysgolion ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n Colli Addysg. (Atodiad 9)</p> <p>Plant a Phobl Ifanc sydd mewn Perygl</p> <p>Os yw'r plentyn yn wrthrych Cynllun Amddiffyn Plentyn a/neu'n derbyn gofal, dylai'r ysgol hysbysu'r Gweithiwr Allweddol cyn pen 24 awr i'r plentyn fod yn absennol heb awdurdod os na ellir cysylltu â'r cartref.</p> <p>Os amheuir neu os gwyddys fel arall bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl posibl o niwed, neu os oes gan yr ysgol wybodaeth neu reswm i amau bod y plentyn wedi dioddef trosedd, dylai'r ysgol hysbysu'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a/neu Dîm Amddiffyn Plant yr Heddlu ar unwaith; a dylai hefyd hysbysu'r Swyddog Lles Addysg cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.</p> |
| <p>Diwrnod 10</p> | <p>Os yw disgybl ar goll am 10 diwrnod ysgol, dylai'r ysgol roi gwybod i'r Swyddog Lles Addysg ar y degfed diwrnod y mae'r disgybl yn absennol o'r ysgol. Dylech roi copi o'ch Rhestr Wirio i Ysgolion ar gyfer Plant sy'n Colli o Addysg i'r Swyddog Lles Addysg er mwyn rhoi gwybod iddo y credir bod y disgybl ar goll. Dylech gadw copi yn yr ysgol hefyd.</p> |
| <p>Diwrnod 11-19</p> | <p>Dylai ymdrechion barhau yn yr ysgol a dylid helpu'r Swyddog Lles Addysg ac asiantaethau eraill i chwilio am y disgybl.</p> |
| <p>Diwrnod 20</p> | <p>Os yw'r disgybl ar goll o'r ysgol o hyd, er gwaethaf ymdrechion rhesymol, gall y Gwasanaeth Lles Addysg gynghori'r ysgol i ddileu enw'r disgybl o'r gofrestr. Fodd bynnag, rhaid i'r disgybl aros ar y gofrestr hyd nes bod yr holl ymholiadau angenrheidiol wedi'u cwblhau, a bod y Gwasanaeth Lles Addysg wedi cadarnhau hyn i'r ysgol, hyd yn oed os bydd y disgybl wedi bod yn absennol o'r ysgol heb awdurdod am fwy nag 20 diwrnod.</p> <p>Ar ôl cael cadarnhad y gellir dileu enw'r disgybl o'r gofrestr, rhaid i'r ysgol lanlwytho Ffeil Drosglwyddo Gyffredin y disgybl i s2s gan nodi XXX XXXX fel cyrchfan y ffeil, a llenwi'r ffurflen Hysbysiad Dileu Enw Disgybl o'r Gofrestr Ysgol.</p> |

Os bydd rheswm i amau bod y plentyn neu'r person ifanc mewn perygl ar unrhyw gam yn eich ymchwiliad, dylid dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant yr awdurdod lleol (fel ar gyfer Diwrnod 1 uchod).

Canllawiau statudol
i helpu i atal plant a phobl
ifanc rhag colli addysg

Mawrth 2017

Cylchlythyr canllawiau
rhif: 002/2017

Ffurflen Gadael Ysgol i Rieni

Os yw eich plentyn yn gadael, dylech lenwi'r ffurflen hon mor llawn â phosibl hyd yn oed os nad ydych yn gwybod y manylion i gyd eto.

Logo
Ysgol/
Sir

| Enw | Dyddiad Geni | Dosbarth |
|--|---------------------------------|----------|
| Bydd fy mhentyn yn gadael ysgol ar: (dyddiad) | | |
| Oherwydd rydym yn: (<i>ticiwch</i>) | a. Symud Tŷ | |
| | b. Dychwelyd i'n mamwlad/ymfudo | |
| | c. Arall - rhowch fanylion | |
| Cyfeiriad newydd os yw'n hysbys: | | |
| Ysgol newydd os yw'n hysbys: | | |
| Os nad yw'r manylion hyn yn hysbys eto, nodwch y dref neu o leiaf y wlad rydych yn symud iddi: | | |
| A fyddwch yn cadw'r un rhifau ffôn symudol? Byddwn <input type="checkbox"/> Na fyddwn <input type="checkbox"/> | | |
| Cadarnhewch eich rhifau neu rhestrwch rifau newydd: | | |
| Rhif ffôn symudol y fam: | | |
| Rhif ffôn symudol y tad: | | |

Os yn bosibl rhowch enw, cyfeiriad a rhif ffôn ffrind neu berthynas yn y DU na fyddant yn symud ac y byddwch yn aros mewn cysylltiad â hwy. Ni fyddwn yn cysylltu â hwy oni bai bod angen gwybodaeth arnom am ysgol newydd eich plentyn ac nad ydym yn gallu cysylltu â chi. Ni fydd angen gwneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion oherwydd bydd yr ysgol newydd yn cysylltu â ni i drosglwyddo gwybodaeth eich plentyn.

Enw:

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn:

Enw/au Llawn y Rhiant/Rhieni neu'r Gofalwr/Gofalwyr. Ysgrifennwch yr enwau mewn llythrennau bras a llofnodwch.

Mam:

Tad:

Arall (nodwch y berthynas):

Ynghlwm wrth y ffurflen hon mae slip cyfarch yr ysgol.
Dylech ei roi i'ch ysgol newydd a gofynnwch iddi gysylltu â ni.

At ddefnydd yr ysgol yn unig:

Dyddiad dychwelyd:

Dyddiad dychwelyd i'r Gwasanaeth Lles Addysg:

Mae disgwyl i'r ysgol drosglwyddo gwybodaeth cyn gynted â phosibl i ysgol newydd eich plentyn; ac mae gan yr ysgol a'r Awdurdod Lleol ddyletswydd gyfreithiol i geisio dod o hyd i'ch plentyn os nad yw'n mynychu ac nad ydym yn gwybod manylion yr ysgol newydd neu unrhyw ddarpariaeth addysgol arall. Gall hyn gynnwys cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu os nad ydych wedi rhoi'r wybodaeth i ni ac nad ydym yn gallu cysylltu â chi. Drwy lenwi'r ffurflen hon a'n galluogi i gadw mewn cysylltiad â chi, rydych yn sicrhau nad oes angen i ni gyfeirio at asiantaethau eraill ac nad ydym yn gwastraffu eu hamser, ac nad oes unrhyw un yn cysylltu â chi'n ddiangen.

Hysbysiad am Dynnu Enw Disgybl oddi ar Gofrestr yr Ysgol

Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion) (Cymru) 1995

I'w gwblhau pan fydd enw disgybl yn cael ei ddileu o'r gofrestr ysgol (ac eithrio pan fydd yn gadael addysg statudol, yn gadael fel rhan o'r cylch derbyn arferol, neu os yw wedi'i wahardd yn barhaol). Dylid cadw copi fel rhan o gofnodion yr ysgol.



| Enw'r Disgybl: | Dyddiad Geni |
|---|---|
| Enw'r Rhieni/prif ofalwr: | Derbyn Gofal: Ydy <input type="checkbox"/> Nac Ydy <input type="checkbox"/> |
| Cyfeiriad: | Ffôn: |
| Rheswm dros ddileu ei enw o'r gofrestr ysgol: | Dyddiad y dilëwyd ei enw: |
| Unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y disgybl hwn: | |
| Cyfeiriad newydd: | |
| Ysgol newydd: | |
| A yw Ffeil Drosoglwyddo Gyffredin y disgybl wedi'i lanlwytho i s2s? | Ydy, i'r ysgol newydd ei chasglu <input type="checkbox"/> |
| Ydy, ticiwch fel y bo'n briodol | Ydy cod MMM MMMM <input type="checkbox"/> (Allan o'r system a gynhelir, addysg ddewisol yn y cartref neu dramor) |
| | Ydy, cod XXX XXXX <input type="checkbox"/> |

| | |
|---|---|
| Nac ydy, rhowch reswm: | |
| Os yw'r ysgol wedi cael gwybod am benderfyniad i addysgu'r plentyn yn y cartref; a yw'r ysgol wedi rhoi gwybod i'r AALI/ Tîm Derbyniadau/Tîm Addysg Ddewisol yn y Cartref | Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/> |
| Os rhoddwyd y cod XXX XXXX, rhaid dilyn y weithdrefn ar gyfer Plant sy'n Colli Addysg a rhaid cael cadarnhad bod y Gwasanaeth Lles Addysg wedi cwblhau ei ymchwiliad, cyn y gellir dileu enw'r plentyn o'r gofrestr | Y dyddiad y cwblhawyd y rhestr wirio Plentyn/ Person Ifanc sy'n Colli Addysg a'i rhoi i'r Swyddog Lles Addysg |
| | Dyddiad y cafwyd cadarnhad bod yr ymchwiliad Plant sy'n Colli Addysg wedi'i gwblhau |
| Llofnodwyd: | Enw: |
| Swydd: | Dyddiad: |

Dyddiad derbyn:

Bwriad i dynnu enw disgybl oddi ar gofrestr yr ysgol

Gwybodaeth sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Lles Addysg sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod Lleol yn unol â chanllawiau o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 1995

Logo
Ysgol/
Sir

Ar ôl ei chwblhau, anfonwch y ffurflen hon at y Swyddog Lles Addysg cyn dileu enw'r disgybl o'r gofrestr, a chyn gynted ag y bodlonir y meini prawf ar gyfer dileu.

| | | |
|---|----------|---------------|
| Enw'r Disgybl: | | |
| Enw'r Disgybl : | | Dyddiad Geni: |
| Cyfeiriad: | | |
| Rheswm dros ddileu'r enw o'r gofrestr: | | |
| Unrhyw wybodaeth berthnasol arall am y disgybl hwn: (e.e. asiantaethau cysylltiedig, amgylchiadau'r teulu ac ati) | | |
| Dyddiad y caiff enw'r disgybl ei ddileu o'r gofrestr | | |
| Os yw'r man y mae'r plentyn yn mynd iddo yn hysbys, rhowch fanylion | | |
| A yw'r Gwasanaeth Lles Addysg yn gwybod am y disgybl hwn? | | |
| Llofnodwyd: | Dyddiad: | |
| Printiwch eich enw: | Swydd: | |

Dychweler at:

Dyddiad derbyn:

Canllawiau statudol
i helpu i atal plant a phobl
ifanc rhag colli addysg
Mawrth 2017
Cylchlythyr canllawiau
rhif: 002/2017

Tynnu Enw oddi ar y Gofrestr - Tabl cyfeirio

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i nodi, olrhain a monitro plant a phobl ifanc sy'n colli addysg felly dylid rhoi gwybod i'r ALI am bob disgybl a gaiff ei ddileu o'r gofrestr oni bai y gwneir hynny yn dilyn y broses drosglwyddo arferol rhwng CA2 a CA3 neu ar ddiwedd y cyfnod addysg gorfodol.

Mae tri mater cysylltiedig, ond unigol, dan sylw, sef:

1. Amgylchiadau sy'n caniatáu/sy'n ei gwneud yn ofynnol i enw disgybl gael ei ddileu o'r gofrestr ysgol.
2. Pryd y dylai staff yr ysgol gynnal y broses o ddileu enw disgybl o gofrestr yr ysgol.
3. Wrth gwblhau cam 2 uchod, pa ddyddiad y dylid cofnodi bod y disgybl wedi gadael y gofrestr.

Bwriedir i'r tabl atodedig fod yn adnodd ymarferol a allai fod o gymorth i chi benderfynu dileu enw disgybl o'r gofrestr derbyn.

| Rheswm dros ddileu enw disgybl o'r gofrestr ysgol | Pryd y dylid dileu enw'r disgybl o'r gofrestr | Y dyddiad y dylid ei nodi i ddangos bod y disgybl wedi gadael yr ysgol/coleg |
|---|---|--|
| Disgybl yn symud i ysgol arall (ar wahân i'r broses drosglwyddo arferol rhwng CA2 a CA3) | Ar y dyddiad y mae disgwyl i'r disgybl ddechrau'r ysgol newydd. | Y dyddiad y mae disgwyl i'r disgybl ddechrau'r ysgol newydd. |
| Mae'r disgybl wedi bod yn absennol o'r ysgol heb awdurdod am 20 diwrnod ac mae'r ALI a'r ysgol wedi ceisio dod o hyd i'r disgybl (rhoddwyd gwybod i'r Gwasanaeth Lles Addysg ar ôl 10 diwrnod). | Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn rhoi caniatâd i'r ysgol ddileu'r disgybl o'r gofrestr ar ôl 20 diwrnod os na ellir dod o hyd i'r disgybl neu'n gynt os canfyddir ei fod mewn ysgol newydd. | Y dyddiad y mae'r ysgol yn cael caniatâd gan y Gwasanaeth Lles Addysg i ddileu'r disgybl o'r gofrestr. |
| Nid yw'r disgybl yn dychwelyd ar ôl gwyliau teuluol estynedig. | Gellir dileu enw disgybl o'r gofrestr pythefnos ar ôl diwedd y cyfnod gwyliau y cytunwyd arno. Dylid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Lles Addysg cyn gwneud hyn. | Ar ddiwedd y pythefnos o absenoldeb yn dilyn y gwyliau. Rhaid trosglwyddo gwybodaeth y disgybl i'r gronfa ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll drwy wefan s2s a dylid lanlwytho'r wybodaeth gan ddefnyddio'r cod XXX XXXX. Dim ond ar ôl cynnal ymchwiliad ac ymgynghori â'r Gwasanaeth Lles Addysg y gellir gwneud hyn. |

Canllawiau statudol
i helpu i atal plant a phobl
ifanc rhag colli addysg

Mawrth 2017

Cylchlythyr canllawiau
rhif: 002/2017

| Rheswm dros ddileu enw disgybl o'r gofrestr ysgol | Pryd y dylid dileu enw'r disgybl o'r gofrestr | Y dyddiad y dylid ei nodi i ddangos bod y disgybl wedi gadael yr ysgol/coleg |
|---|---|--|
| Disgybl a gaiff ei dynnu o'r ysgol i gael addysg heblaw yn yr ysgol. | Ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig ac ar ôl i'r ysgol roi gwybod i'r ALL. | O'r dyddiad y mae'r rhiant yn dweud ei fod yn derbyn cyfrifoldeb am ddarparu'r addysg. Dylai'r ysgol roi Ffeil Drosglwyddo Gyffredin ar wefan s2s gan nodi'r cod MMMMMMMM fel cyrchfan. |
| Gwaharddiad parhaol. | Ar ôl cyhoeddi canlyniad unrhyw apêl. | Ar ôl gorffen y broses apelio. |
| Mae disgybl yn y ddalfa am dros bedwar mis. | Dylid trin pob disgybl yn unigol ar ôl ymgynghori â'r ALL a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Lleol. | Y dyddiad y mae disgwyl i'r disgybl ddechrau'r ysgol newydd. |
| Mae'r disgybl wedi cyrraedd diwedd yr oedran ysgol gorfodol ac nid yw'n mynd i barhau â'i addysg yn yr ysgol. | Dydd Gwener olaf mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed. | Dydd Gwener olaf mis Mehefin. |
| Mae'r disgybl wedi marw. | Ar ôl cael hysbysiad swyddogol o'r farwolaeth. | Ar unwaith. |
| Disgybl sy'n gadael yr ysgol ond nid yw'r ddarpariaeth yn y dyfodol yn hysbys. | Ar ôl i'r disgybl gwblhau ei ddiwrnod olaf. | Ei ddiwrnod olaf yn yr ysgol. Rhaid trosglwyddo gwybodaeth y disgybl i'r gronfa ddata o Ddisgyblion sydd ar Goll drwy wefan s2s a'i lanlwytho gan ddefnyddio'r cod XXX XXXX. Dim ond ar ôl cynnal ymchwiliad ac ymgynghori â'r Gwasanaeth Lles Addysg y gellir gwneud hyn. |
| Mae gan y disgybl gyflwr meddygol sy'n ei atal rhag mynd a dychwelyd i'r ysgol cyn diwedd ei oedran ysgol gorfodol. | Ar ôl cael cyngor meddygol. Dylid rhoi gwybod i'r Gwasanaeth Lles Addysg cyn gwneud hyn. | Y dyddiad y mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cael cyngor ac yn ei gymeradwyo. |

**Hysbysiad o Apeliadau i'r Swyddog Dynodedig
ar gyfer Plant sy'n Colli Addysg/Uwch Swyddog
Lles Addysg**

Logo
Ysgol/
Sir

| | | | |
|--|--|--------------------------------------|--------------|
| Enw'r Ysgol: | | | |
| Enw'r Disgybl: | | Dyddiad Geni: | Gwryw/Benyw: |
| Cyfeiriad: | | | |
| Manylion Rhiant/ Rhieni neu Ofalwr/ Gofalwyr: | | | |
| Perthynas â'r plentyn: | | | |
| Rhif ffôn - Llinell dir: | | Ffôn symudol: | |
| Ysgol bresennol: neu dim un/ anhysbys | | Ysgol ddiwethaf: neu dim un/anhysbys | |
| Dyddiad yr Apêl: | | Penderfyniad yr Apêl: | |
| Gwybodaeth arall: e.e. rhiant wedi nodi na fydd unrhyw ysgol arall yn dderbyniol ac ati: | | | |

| | | | |
|--|--|--------------------------------------|--------------|
| Enw'r Disgybl: | | Dyddiad Geni: | Gwryw/Benyw: |
| Cyfeiriad: | | | |
| Manylion Rhiant/ Rhieni neu Ofalwr/ Gofalwyr: | | | |
| Perthynas â'r plentyn: | | | |
| Rhif ffôn - Llinell dir: | | Ffôn symudol: | |
| Ysgol bresennol: neu dim un/ anhysbys | | Ysgol Ddiwethaf: neu dim un/anhysbys | |
| Dyddiad yr Apêl: | | Penderfyniad yr Apêl: | |
| Gwybodaeth arall: e.e. rhiant wedi nodi na fydd unrhyw ysgol arall yn dderbyniol ac ati: | | | |

Cwblhawyd gan: Swydd:

Dyddiad:

Casglu Data EOTAS

Trosolwg

Mae Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) EOTAS yn cynnwys disgyblion y mae awdurdodau lleol (ALLau) yn eu gosod mewn Unedau Atgyfeirio Disgyblion (PRU) neu ffurf arall o addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'n wahanol i'r casgliad cyfrifiad blaenorol o'r Unedau o'r enw "STATS1" am fod y rhan fwyaf o wybodaeth ar ffurf cofnodion disgyblion unigol, gan gynnwys enw'r disgybl a'r "rhif disgybl unigryw" (UPN) yn hytrach na chyfansymiau.

Mae'n ofynnol i bob ALL ddarparu Llywodraeth Cynulliad Cymru â data lefel disgyblion i bob disgybl y mae'r ALL yn gyfrifol yn ariannol am ei ddarpariaeth addysg boed mewn Uned Atgyfeirio Disgyblion (PRU) neu ffurf arall o 'ddarpariaeth amgen' y cyfeirir ato fel 'addysg heblaw yn yr ysgol' (EOTAS). Gall lleoli'r ddarpariaeth ar gyfer y disgybl o fewn neu y tu allan i ardal yr ALL. Mae'n ofynnol i bob ALL gyflwyno un ffurflen i bob disgybl y mae'n gyfrifol amdano. Yn wahanol i gasgliad STATS1, ni fydd yn ofynnol i'r ALL sy'n cyflwyno'r ffurflen gynnwys disgyblion sydd mewn Uned o fewn yr ALL ond sy'n byw y tu allan i ardal yr ALL ac y mae ALL arall yn gyfrifol yn ariannol amdanynt h.y. sy'n talu am y ddarpariaeth.

Bydd dadansoddiad y cofnodion disgyblion unigol o ffurflenni CYBLD ysgol a data EOTAS, yn ogystal â chanlyniadau arholiadau ac asesiadau Cyfnod Allweddol y disgyblion, yn darparu ysgolion, ALLau ac asiantaethau canolog ag ystod gwybodaeth llawer mwy nag y gallai â chyfansymiau STATS1. Bydd hyn yn cefnogi'r awydd i godi safonau, targedu mwy trachywir ariannu a monitro a datblygu polisi.

Y prif faen prawf am gynnwys disgybl yn y cyfrifiad EOTAS yw bod gan ALL yng Nghymru gyfrifoldeb ariannol amdano ac, os na fydd yn y casgliad cyfrifiad hwn, ni fydd yn y casgliad CYBLD.

Fodd bynnag, mae'n bosibl cynnwys rhai disgyblion yn gywir yn y cyfrifiad EOTAS a hefyd gyfrifiad CYBLD (ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir). Er enghraifft, gallai priif ffynhonnell addysg rhai disgyblion fod mewn darpariaeth amgen, ond gellid hefyd eu cofrestru mewn ysgol a gynhelir nad yw wedi trefnu'r ddarpariaeth amgen. Yn yr achos hwn, yr awdurdod lleol sy'n cymryd cyfrifoldeb am addysg disgybl ac er mwyn adlewyrchu hyn, dylai'r disgybl gael ei gofnodi yn y cyfrifiad EOTAS hwn. Yn fras mae angen cynnwys y disgyblion canlynol ar y ffurflen:

- y rhai sy'n mynd i Uned Atgyfeirio Disgyblion;
- y rhai sy'n cael eu tiwtora'n unigol gartref neu mewn ysbyty;
- y rhai sy'n cael eu haddysgu mewn cartrefi neu unedau cymunedol - gan gynnwys cartrefi preswyl annibynnol o fewn yr awdurdod neu'r tu allan iddo lle darperir addysg ar y safle ac y mae'r awdurdod yn llwyr gyfrifol am eu darpariaeth addysgol;
- y rhai sy'n mynychu ysgol arbennig nas cynhelir ac y mae'r awdurdod yn talu eu ffioedd dysgu yn llawn neu'n rhannol;
- y rhai mewn ysgol annibynnol (naill o fewn yr awdurdod neu'r tu allan iddo) y mae'r awdurdod lleol yn talu eu ffioedd dysgu yn llawn neu'n rhannol;
- y rhai sy'n cael darpariaeth o'r sector preifat (naill ai o fewn yr awdurdod neu'r tu allan iddo) y mae'r awdurdod lleol yn talu eu ffioedd dysgu yn llawn neu'n rhannol;
- y rhai sydd wedi'u gwahardd yn barhaol ar adeg y cyfrifiad ac sydd heb gael eu dyrannu i ysgol neu Uned Atgyfeirio Disgyblion arall eto;
- y rhai sy'n aros am le mewn darpariaeth arall yn ystod wythnos y cyfrifiad.